Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cynigion amlinellol

## Cyllideb i greu Cymru well

Hydref 2018

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35905 ISBN digidol 978-1-78964-236-0

## Cynnwys


**Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1:** | Y Cyd-destun Strategol | 3 |
| **Pennod 2:** | Y Cyd-destun Ariannol ac Economaidd | 8 |
| **Pennod 3:** | Trefniadau Cyllido | 14 |
| **Pennod 4:** | Buddsoddi ym Mlaenoriaethau'r Llywodraeth | 29 |
| **Pennod 5:** | Cynlluniau Gwario Llywodraeth Cymru | 54 |
| **Atodiad A:** | Cysoni'r Gyllideb Weinyddol a Dyraniad yr Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol | 65 |
| **Atodiad B:** | Newidiadau o Flwyddyn i Flwyddyn | 66 |
| **Atodiad C:** | Asesiad Effaith Integredig Strategol | 72 |
| **Atodiad D:** | Gwybodaeth dechnegol | 90 |
| **Atodiad E:** | Geirfa | 93 |

## Rhagair yr Ysgrifennydd Cyllid

Pan ddaw'r Gyllideb ar gyfer 2020-21 i'w thrafod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd yn oed yn awr, erbyn y caiff y drafft amlinellol hwn o'r Gyllideb ei gyhoeddi ar 2 Hydref 2018, bydd llai na chwe mis cyn y dyddiad ymadael, pan ddaw Brexit yn realiti.

Adeg ysgrifennu'r rhagair hwn, mae canlyniad y negodi rhwng y DU a'r UE yn parhau'n hynod ansicr a'r bygythiad o ymadael â'r Undeb heb gytundeb Brexit, a fyddai'n drafferthus a thrychinebus, yn nesáu bob dydd.

Mae goblygiadau ariannol gadael yr UE yn enfawr i Gymru – yn fwy nag unrhyw ran arall o'r DU, gan fod Cymru'n fuddiolwr net o aelodaeth yr UE.

Hon hefyd yw Cyllideb olaf setliad cyfredol yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, a osododd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb cyfalaf hyd at 2020-21.

Mae Canghellor y Trysorlys wedi dweud y bydd Llywodraeth y DU yn cynnal Adolygiad Gwariant newydd yn 2019. Ni wyddom pa effaith a gaiff hyn ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae'r ddau ffactor hyn - wedi'u cyfuno ag effaith Cyllideb yr Hydref y DU sy'n digwydd ynghanol proses ein cyllideb ni - yn golygu, unwaith eto eleni, na allaf osod cyllideb refeniw ond am un flwyddyn yn unig. Yn flaenorol, yr wyf wedi pennu cynlluniau gwariant cyfalaf hyd 2020-21, ac mae'r Gyllideb ddrafft amlinellol hon yn cadarnhau dyraniadau ychwanegol i'r cyllidebau hynny.

Yn 2019-20, pennwyd y Gyllideb ddrafft dan y cysgod hirfaith a daflwyd gan bolisi cyni Llywodraeth y DU. Rydym bellach ar drothwy'r nawfed flwyddyn o gyni ac yn cyfrif cost y niwed a achoswyd i wasanaethau cyhoeddus ac i hyder y cyhoedd ledled y DU gan y polisi aflwyddiannus hwn.

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn parhau i adrodd rhagolygon siomedig ar gyfer economi'r DU. Yn dilyn gwelliant yn economi'r byd ddechrau 2018, mae'r DU ar ei hôl hi o gymharu â holl wledydd y G7.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud popeth yn ei gallu i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag effeithiau gwaethaf cyni - a bydd yn parhau i wneud hynny. Ac nid yw'r Gyllideb ddrafft hon yn eithriad. Ond mae ein gallu i wneud hyn wedi cael ei erydu gan doriadau i'n cyllid ein hunain gan Lywodraeth y DU.

Hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am adnoddau ychwanegol i'r GIG, yn 2019-20 bydd cyllideb Cymru 5% yn is mewn termau real, ar sail tebyg-am-debyg, nag ar ddechrau'r degawd yn 2010-11 – mae hyn gyfystyr ag £800m i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus. Pe byddai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi bod yr un fath â'r twf mewn Cynnyrch Domestig Gros ers 2010-11, byddem wedi cael £4.1bn yn rhagor i'w wario yn 2019-20, dros 20% yn uwch na'n cyllideb wirioneddol.

Yn ystod hanner cyntaf tymor y Cynulliad hwn, rwyf wedi cymryd agwedd lem tuag at gynllunio'r gyllideb, gan ddefnyddio Cronfa Wrth Gefn newydd Cymru i yrru cymaint o

refeniw ymlaen ag sy'n bosibl, mewn ymgais i wneud iawn am unrhyw doriadau cyni pellach.

Yn ogystal â defnyddio rhywfaint o gyllid Cronfa Wrth Gefn Cymru eleni, byddwn unwaith eto'n buddsoddi yn ein meysydd blaenoriaeth – yn GIG Cymru; mewn llywodraeth leol; mewn addysg ac mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn buddsoddi £287m ychwanegol yn y system gofal iechyd a chymdeithasol a fydd, ynghyd â'r cynnydd arfaethedig o £220m, yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad yn 2019-20 i dros £500m – sylfaen bwysig ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd sy'n addas ar gyfer y dyfodol.  Rydym yn darparu hwb ariannol o £50m yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol a dros £25 i ysgolion, ynghyd ag ariannu'r dyfarniad cyflog i athrawon yn llawn.   Drwy ein buddsoddiadau ar y cyd, mae hyn yn setliad gwell na'r disgwyl ar gyfer llywodraeth leol gan adlewyrchu ein blaenoriaeth i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen yn erbyn effeithiau gwaethaf cyni.

Dyma'r flwyddyn gyntaf y bydd refeniw a godwyd o gyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cynnwys yng nghyllideb Cymru, yn dilyn eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019. Er y bydd y dreth yn parhau i gael ei chasglu fel un taliad gan Gyllid a Thollau EM, bydd penderfyniadau ynghylch 10c ym mhob band treth yn cael eu gwneud yng Nghymru am y tro cyntaf, gan gryfhau atebolrwydd Llywodraeth Cymru i bobl Cymru ymhellach.

(Wedi'i ddileu)

Dyma gam pellach ar ein taith o ddatganoli ariannol, gan adeiladu ar gyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi ym mis Ebrill 2018. (Brawddeg wedi'i ddileu)

Mae hyn yn golygu y bydd oddeutu £5bn y flwyddyn yn cael ei gasglu yng Nghymru, gan gynnwys o ardrethi annomestig a threth gyngor. Bydd y refeniw a godir yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng Nghymru ac yn rhoi hwb i fuddsoddi yn yr economi gan gefnogi llesiant a ffyniant.

Wrth baratoi'r gyllideb eleni rydym wedi ceisio cryfhau'r camau pellach sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gwreiddio yn y broses ei hun.  Yr ydym unwaith eto wedi cydweithio â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - rwy'n ddiolchgar iddi am ei chefnogaeth a'i her barhaus - sy'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth: caffael, datgarboneiddio a chyllidebu cyfranogol. Rydym hefyd wedi cytuno i archwilio sut y gellir dyrannu adnoddau i atal problemau rhag codi ac i leihau'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar - mae atal yn un o egwyddorion sylfaenol y Ddeddf.

Wrth i'n dull gweithredu esblygu ac aeddfedu, mae'r gyllideb ddrafft amlinellol yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos i ddangos sut yr ydym yn gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y gyllideb ac yn blaenoriaethu *Ffyniant i Bawb*.  Mae hon, wrth gwrs, yn broses gyson yr ydym yn ceisio adeiladu arni o flwyddyn i flwyddyn.

# Pennod 1: Y Cyd-destun strategol

## Trosolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru heddiw yn y cyhoeddi ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20, ynghyd â chynlluniau cyfalaf dangosol hyd 2020-21.

1.2 Dyma drydedd gyllideb y Pumed Cynulliad a blwyddyn olaf setliad cyfredol yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, a osododd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb cyfalaf hyd at 2020-21. Hon hefyd yw'r gyllideb olaf cyn i'r DU adael yr UE ar 29 Mawrth 2019.

1.3 Rydym yn cydnabod – ac yn cydymdeimlo – â'r galwadau gan ein partneriaid yn y sector cyhoeddus am gyllidebu dros gyfnod hwy pryd bynnag y bo'n bosibl er mwyn cefnogi blaengynllunio ariannol. Er gwaethaf yr ansicrwydd gwirioneddol a wynebwyd gennym yn y blynyddoedd diwethaf, fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau refeniw am ddwy flynedd y llynedd a chynlluniau cyfalaf am y tair blynedd y mae gennym setliad mewn perthynas â hwy.

1.4 Fodd bynnag, rhaid i'n huchelgais i gyhoeddi cynlluniau am gyfnod hwy na 12 mis gael eu cydbwyso â'n gallu i ddarparu tybiaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Mae'r ansicrwydd ariannol parhaus; y ffaith bod Llywodraeth y DU yn mynnu bwrw ymlaen â chyni a'r ansicrwydd sylweddol ynghylch ffurf a natur y trafodaethau ar gyfer bargen i'r dyfodol gyda'r UE, yn golygu ein bod wedi penderfynu cyhoeddi cynlluniau refeniw ar gyfer 2019-20 yn unig, gyda chynlluniau cyfalaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf – 2019-20 a 2020-21.

1.5 I gefnogi cynllunio ariannol y tu hwnt i'r blynyddoedd hyn, mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, yn darparu dadansoddiad o'r rhagamcanion ariannol yn y tymor canolig, a fydd yn helpu i oleuo sefyllfaoedd ar gyfer adnoddau gwariant yng Nghymru yn y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion hefyd ym mhennod dau.

## Cyfrifoldebau cyllidol newydd

1.6 Mae datganoli trethi yn garreg filltir o bwys yng Nghymru o ran ei thaith ddatganoli barhaus. Yn dilyn cyflwyno treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi yn Ebrill 2018 - a ddisodlodd dreth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi - bydd Cyllideb 2019-20, am y tro cyntaf, yn cynnwys refeniw trethi o gyfraddau treth incwm Cymru, a gaiff eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019. Mae hyn yn golygu y bydd cyfran fwy o'r adnoddau syn cael eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu hariannu o refeniw a godwyd yng Nghymru.

1.7 O Ebrill 2019, bydd oddeutu 20% o wariant Llywodraeth Cymru yn dod o refeniw a godwyd o drethi Cymreig. Er bod y sylfaen drethu Gymreig yn wynebu rhai risgiau, mae hefyd yn cyflwyno cyfleoedd newydd i Lywodraeth Cymru lunio polisïau i ddatblygu'r sylfaen drethu a chynyddu refeniw treth. Darperir manylion pellach am

bolisi treth a refeniw ym mhennod tri a rhoddir amlinelliad pellach yn ein Hadroddiad ar Bolisi Trethi Cymru, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft[1].

1.8 Ynghyd â chyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru – ac fel rhan o'r fframwaith cyllidol a gytunwyd rhwng llywodraethau Cymru a'r DU ym mis Rhagfyr 2016 – mae terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru wedi cael ei gynyddu i £1bn yn ei grynswth, gyda'r terfyn blynyddol yn cynyddu i £150m o 2019-20. Caiff cynlluniau i ddefnyddio £250m o fenthyciad cyfalaf dros y cyfnod o ddwy flynedd 2019-20 a 2020-21 eu hadlewyrchu yn y Gyllideb ddrafft.

1.9 Hyd yn oed gyda datganoli trethi, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei hariannu'n bennaf gan grant bloc gan Lywodraeth y DU. Dangosir hyn isod:

(Wedi'i ddileu)

## Proses y gyllideb

1.10 Yn unol â phroses dau-gam y gyllideb, a gyflwynwyd y llynedd, mae Llywodraeth Cymru heddiw'n nodi'r cynlluniau gwariant strategol drafft ar gyfer refeniw a chyfalaf; cynigion trethu a benthyca. Caiff manylion y dyraniadau lefel uchel i gyflawni'r blaenoriaethau yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb* eu nodi ym mhennod pedwar. Dilynir hyn ar 23 Hydref gan gynigion cyllideb portffolio manwl, a fydd yn goleuo craffu ar gynlluniau portffolio gan bwyllgorau polisi'r Cynulliad Cenedlaethol.

## Y sefyllfa ariannol bresennol

1.11 Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn sylweddol is nag yr oedd yn 2010 o ganlyniad i bolisi cyni parhaus Llywodraeth y DU, sydd wedi golygu tynhau na welwyd ei debyg ar gyllid cyhoeddus a thoriadau i wasanaethau cyhoeddus hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am adnoddau ychwanegol i'r GIG, yn 2019-20 bydd cyllideb Cymru 5% yn is mewn termau real, nag yn 2010-11, ar sail tebyg-am-debyg. Mae hyn gyfystyr â £800m yn llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.12 Pe byddai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi bod yr un fath â'r twf mewn Cynnyrch Domestig Gros ers 2010-11, byddai gan Lywodraeth Cymru £4bn yn rhagor i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20. Mae hyn gyfystyr â chynnydd o dros 20% yn ein cyllideb.

1.13 Nid ydym yn gwybod eto sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ariannu'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer y GIG. Hyd nes y byddwn yn gwybod sut y bydd hyn yn cael ei ariannu - er enghraifft, efallai y bydd toriadau i feysydd eraill o wariant datganoledig - ni wyddom faint o arian ychwanegol y bydd Cymru'n ei dderbyn drwy'r grant bloc. Os bydd y cyllid ychwanegol i'r GIG yn cael ei ariannu'n rhannol gan doriadau i wariant mewn meysydd datganoledig eraill, yna efallai y bydd gennym lai o arian na'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym Mehefin. Ni fyddwn yn gwybod

[1] https://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?lang=cy

faint o gyllid ychwanegol y bydd Cymru'n ei dderbyn yn y blynyddoedd a gwmpesir gan gyhoeddiad y GIG hyd Adolygiad Gwariant y flwyddyn nesaf. Ar gyfer 2019-20, rydym yn disgwyl derbyn yr adnoddau ychwanegol ar gyfer y GIG a gyhoeddwyd ym Mehefin heb orfod gwrthbwyso gostyngiadau mewn mannau eraill.

1.14 Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y rhagolygon ehangach ar gyfer cyllid cyhoeddus y DU. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn parhau i adrodd rhagolygon siomedig ar gyfer economi'r DU. Yn dilyn gwelliant yn economi'r byd ddechrau 2018, mae'r DU ar ei hôl hi o gymharu â holl wledydd y G7.

1.15 Gydag Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn yr arfaeth yn 2019 a llawer o gwestiynau heb eu hateb ynghylch dyfodol y DU y tu allan i'r UE, gan gynnwys beth fydd cytundeb terfynol Brexit, mae ein gallu i gynllunio y tu hwnt i'r tymor byr yn gyfyngedig. Cafodd hyn ei waethygu gan yr ansicrwydd ynghylch amseriad Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU mewn blwyddyn mor bwysig. Cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf y bwriedir ei chyhoeddi ar 29 Hydref.

1.16 Dyma'r cefndir wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu cyllideb ddrafft amlinellol 2019-20. Er mai dim ond am un flwyddyn ydym yn gallu pennu cynlluniau refeniw a chynlluniau cyfalaf am ddwy flynedd, maent yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y llywodraeth hon i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus; darparu'r sefydlogrwydd angenrheidiol a buddsoddi yng Nghymru i feithrin twf economaidd a chefnogi ein blaenoriaethau.

## Cytundeb y gyllideb

1.17 Y llynedd, daethom i gytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar nifer o fesurau penodol lle yr ydym yn rhannu blaenoriaethau polisi. Mae Cyllideb ddrafft amlinellol 2019-20 yn adlewyrchu ail flwyddyn y cytundeb hwn. Rydym hefyd wedi cytuno ar ddyraniad cyfalaf ychwanegol o £2.75m i uwchraddio gwersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn ger y Bala ac yn Llangrannog.

1.18 Fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd, clustnodwyd cyfalaf o £5m yn 2019-20 i fwrw ymlaen â chanlyniadau rhai o'r astudiaethau dichonolrwydd a gomisiynwyd. Byddwn yn parhau i drafod yr opsiynau cyllido gyda Phlaid Cymru a darperir manylion pellach yn y Gyllideb derfynol, yn amodol ar ganlyniad Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU.

## *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*

1.19 Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru, *Symud Cymru Ymlaen 2016-21*[2] a'r strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*[3], yn nodi blaenoriaethau'r llywodraeth i gyflawni ei nod hirdymor sef creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel; yn iach ac egnïol; yn uchelgeisiol ac yn dysgu ac yn unedig a chysylltiedig.

1.20 Maent yn nodi sut y byddwn yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n hamcanion llesiant i gyflawni'r effaith fwyaf gydag adnoddau sy'n prinhau. Rydym yn cydnabod bod angen gweithio mewn ffordd wahanol drwy gynnwys pobl eraill a gweithio'n fwy cydweithredol mewn ffordd integredig, gan edrych ar y darlun tymor hir i atal problemau rhag codi. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn erbyn y

[2] https://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf
[3] https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

cefndir o ansicrwydd ariannol parhaus ac yn ystod y cyfnod hiraf o gyni ers cyn cof. Rydym yn cydnabod hefyd bod cysylltiad rhwng yr hyn a gyflawnwn, a'r ffaith bod llwyddo gydag un amcan yn gallu cael effaith gadarnhaol ar amcanion eraill – er enghraifft, mae sicrhau gwaith yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd pobl yn mwynhau iechyd gwell a bod addysg yn gwella cyfleoedd pobl o ran cael gwaith yn y dyfodol. Mae hyn yn cydnabod ac yn cyfrannu tuag at ddarparu manteision niferus ar draws nodau llesiant y Ddeddf.

1.21 Mae adroddiad blynyddol *Ffyniant i Bawb* yn nodi'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant – mae'r atodiad i'r adroddiad blynyddol yn nodi'r cynnydd yn erbyn pob un o'r 150 cam gweithredu yn *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb*. Fel rhan o'r broses hon byddwn yn dysgu o werthuso'r gweithgareddau hyn i oleuo penderfyniadau gwariant yn y dyfodol.

1.22 Mae pennod pedwar yn nodi sut yr ydym wedi cymryd camau pellach fel rhan o broses pennu'r gyllideb eleni i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sylfaenol sy'n wynebu Cymru a chymryd camau pellach i alinio ein cynlluniau gwariant â *Ffyniant i Bawb* a sicrhau bod buddsoddiadau newydd yn cael yr effaith orau bosibl ar draws y llywodraeth.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

1.23 Wrth baratoi'r gyllideb eleni rydym wedi ceisio cryfhau'r camau yr ydym yn eu cymryd i sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gwreiddio yn y broses gyllidebu. Mae hon yn broses sy'n esblygu a bu'n ystyriaeth graidd yn ystod trafodaethau'r Cabinet ar gynlluniau'r gyllideb ac ym mhob un o'r cyfarfodydd ar y gyllideb rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ac Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion. Rydym yn parhau i ddatblygu dull gweithredu graddol a systematig i sicrhau bod gan y Ddeddf effaith gynyddol i oleuo cynlluniau gwariant a gwneud y gorau o gyfleoedd i gyd-gysylltu gweithgareddau ar draws portffolios ac alinio adnoddau.

1.24 Y llynedd, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i ganolbwyntio ar dri maes penodol wrth baratoi'r gyllideb - cyllidebu cyfranogol, datgarboneiddio a chaffael. Mae'r tri maes hyn yn cynnig cyfleoedd i feddwl yn wahanol am y ffordd yr ydym yn defnyddio'n hadnoddau i gefnogi blaenoriaethau.

1.25 Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar Gyllideb ddrafft 2018-19, nodwyd ein bwriad i geisio cyfarfod cynnar gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y camau nesaf a'r ffyrdd y gallwn adeiladu ar y mesurau a gymerwyd y llynedd i gryfhau'r broses gyllidebu yng nghyswllt y Ddeddf. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn wrth i ni ddechrau paratoi'r gyllideb am eleni ac rydym wedi parhau â'r ymgysylltu hwn gydol y broses gyllidebu.

1.26 Darperir astudiaethau achos ym mhennod pedwar sy'n dangos sut y mae'r Ddeddf yn helpu i siapio ein penderfyniadau ariannol.


## Pennod 2: Y Cyd-destun ariannol ac economaidd

### Effaith cyni ar gyllideb Cymru

2.1 Bu rhai arwyddion bychain gan Lywodraeth y DU – yn fwyaf arwyddocaol yng nghyswllt codi'r cap cyflog o 1% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus – fod ychydig o lacio ar bolisïau cyni. Ond gan ein bod ar fin dechrau'r nawfed flwyddyn o gyni, nid oes unrhyw arwyddion bod Canghellor y Trysorlys ar fin newid ei drywydd a rhoi terfyn ar economeg cyni.

2.2 O ganlyniad i'r cyfnod hiraf o gyni ers cyn cof, mae cyllideb Cymru wedi dioddef toriadau gwirioneddol ddwfn, gan syrthio ymhell o dan y lefel a fyddai wedi bod ar gael ar ddechrau'r degawd presennol. Erbyn 2019-20, bydd 5% yn is mewn termau real nag ar ddechrau'r degawd, fel y dangosir yn ffigur un.


**Ffigur un: Cyllideb Cymru* mewn termau real, prisiau 2017-18 (£m)**




* ac eithrio trafodiadau ariannol ad-daladwy

2.3 Mae ffigur dau yn dangos pe bai gwariant ar wasanaethau cyhoeddus wedi parhau i gynyddu yn unol â'r twf yn y cynnyrch domestig gros ers 2010-11, byddai gan Lywodraeth Cymru £4bn yn ychwanegol i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yn 2019-20. Dengys ffigur dau hefyd pe byddai'r gyllideb wedi tyfu yn unol â'r tueddiad hirdymor mewn gwariant cyhoeddus, byddai gan Lywodraeth Cymru oddeutu £6bn yn ychwanegol i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y flwyddyn nesaf.

**Ffigur dau: Sefyllfaoedd cyllideb Llywodraeth Cymru, prisiau 2017-18 (£m)**




*Cyd-destun cyllidol y DU*

2.4 Dengys dadansoddiad gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), yn dilyn degawd o ostyngiadau gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, fod polisïau Llywodraeth y DU yn awgrymu pum mlynedd arall o gyfyngu ar wariant. Bydd maint y cyfyngu hwn yn dibynnu ar i ba raddau y bydd y gwariant ychwanegol ar gyfer y GIG yn Lloegr yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiadau mewn mannau eraill.

2.5 Mae rhagamcanion ariannol yr OBR yn y tymor hwy yn nodi bod cyllid cyhoeddus y DU yn anghynaliadwy yn ariannol yn yr ystyr y byddai cwrdd â'u rhagamcanion canolog ar gyfer y galw am wasanaethau cyhoeddus heb gynyddu trethi, yn golygu dyled gyhoeddus a fyddai'n cynyddu fwyfwy.

*Cyd-destun economaidd y DU*

2.6 Mae Brexit yn parhau i bwyso ar y rhagolygon ar gyfer twf yng Nghymru a'r DU gyfan; bydd difrifoldeb yr effaith yn dibynnu ar ffurf Brexit a'r datgymalu sy'n gysylltiedig â'r broses o adael. Mae'n debygol y bydd Cymru'n cael ei tharo'n anghymesur gan Brexit "caled".

2.7 Mae twf cynhyrchiant araf dros y degawd diwethaf wedi golygu ychydig iawn o dwf yng ngwir incwm pobl ac wedi cyfrannu at yr heriau a wynebir o ran ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Nid oes dealltwriaeth lwyr o'r rhesymau am y tueddiad hwn, na welwyd ei fath yn hanes yr economi yn y cyfnod modern, ac sydd wedi

effeithio'n arbennig o wael ar y DU. Os bydd y tueddiad hwn yn parhau, gallai olygu heriau cymdeithasol a gwleidyddol dwys iawn.

*Perfformiad economaidd Cymru*

2.8 Dros y tymor byr i ganolig, mae perfformiad yr economi yng Nghymru yn cael ei yrru gan ddatblygiadau ar draws y DU gyfan.

2.9 Bu perfformiad economaidd Cymru ers datganoli'n gymysg – mae gwelliant sylweddol cymharol mewn cyfraddau cyflogaeth (a yrrwyd gan leihau anweithgarwch ac sydd wedi'i grynhoi yng Ngorllewin Cymru a Chymoedd De Cymru) wedi cael ei wrthbwyso gan ddirywiad cymharol mewn cynhyrchiant ac mewn cyflogau, sy'n cyd-fynd yn agos iawn.

2.10 Yn gyffredinol, mae'r newid cyfyngedig o ran Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) cymharol y pen yng Nghymru wedi adlewyrchu'r rhain i raddau mawr gan wrthbwyso effeithiau'r gwelliant yn y gyfradd gyflogaeth a'r dirywiad o ran cynhyrchiant cymharol. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiweddaraf, mae GVA y pen wedi tyfu'n gyflymach yng Nghymru nag ar draws y DU yn ei chyfanrwydd.

2.11 Bydd gwelliannau ym mherfformiad economaidd cymharol Cymru yn y dyfodol yn dibynnu'n bwysig iawn, ond nid yn gyfan gwbl, ar lwyddiant polisïau i wella lefelau addysg a sgiliau ac ar well cysylltiadau cludiant a chyfathrebu.

## Brexit

*Goblygiadau*

2.12 Yr oedd y penderfyniad o adael yr UE yn dyngedfennol ac mae goblygiadau llawn y bleidlais yn 2016 yn parhau'n aneglur. Bydd effaith Brexit ar ein cyllidebau a'n rhaglenni ni yn sylweddol.

2.13 Bydd Brexit yn dominyddu holl feysydd gwaith Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod wrth i ni ddatgysylltu oddi wrth gysylltiadau presennol a sefydlu llwybr newydd ar gyfer Cymru. Mae gwaith enfawr eisoes yn cael ei wneud i liniaru effeithiau posibl Brexit; i wneud y gorau o'r cyfleoedd ac i sefydlu sylfaen gref ar gyfer cyflawni dros weddill cyfnod y llywodraeth hon a thu hwnt. Mae'r gyllideb ddrafft hon yn rhoi pwyslais sylweddol ar yr ystyriaethau pwysig hyn wrth i ni edrych i'r dyfodol.

2.14 Bu Llywodraeth Cymru'n gweithio i sicrhau Brexit sy'n hyrwyddo buddiannau Cymru. Rydym wedi cyhoeddi tystiolaeth, dadansoddiad a chynigion manwl ar gyfer Brexit sy'n gweithio i Gymru a'r DU drwy gyfres o bapurau polisi gan gynnwys rhai ar gyllid, masnach, mudo, buddsoddi rhanbarthol a datganoli[4].

2.15 Mae goblygiadau ariannol y DU yn gadael yr UE yn waeth i Gymru na rhannau eraill y DU gan ein bod yn fuddiolwr net o aelodaeth yr UE – dros y pum mlynedd diwethaf amcangyfrifir bod cyfran Cymru o gyfraniad y DU i'r UE yn llai na lefel gwariant rhaglenni'r UE yng Nghymru. Mae Cymru'n derbyn cyfanswm o oddeutu £680m o gyllid yr UE bob blwyddyn. Rhaid i Gymru beidio â bod ar ei cholled.

[4] https://beta.llyw.cymru/brexit

Rhaid i Lywodraeth y DU ddarparu ar gyfer y cyllid y byddai Cymru fel arall wedi ei disgwyl yn rhesymol o ffynonellau Ewropeaidd, a hynny heb frigdorri nac amodau cysylltiedig.

2.16 Mae'n hanfodol nad yw ymadael â'r UE yn dwyn arian i ffwrdd oddi wrth ein cymunedau. Ni ddylai gyfyngu ar ein gallu i barhau i fuddsoddi yn ein heconomi ac ym mhobl Cymru. Rhaid i waelodlin grant bloc Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU gael ei haddasu o bwynt gadael yr UE i adlewyrchu gwir golled cyllid Ewropeaidd. Ni fydd cyfran "ar sail Barnett" o gyllid y DU yn dderbyniol; na Chronfa Ffyniant y DU chwaith, lle y byddai angen i Gymru fidio i mewn i system ar gais Gweinidogion y DU. Rhaid i Gymru dderbyn o leiaf y cyllid y byddem wedi ei dderbyn pe byddai'r DU wedi parhau'n rhan o'r UE.

*Cyllid y DU a threfniadau ariannu*

2.17 Rydym wedi ystyried sut y bydd angen i gyllid a threfniadau cyllido'r DU esblygu i gwrdd â'r amgylchiadau a'r heriau newydd y tu allan i fframwaith y DU, i ddarparu eglurder ar gyfer busnesau a chymunedau ac, yn bennaf oll, er mwyn adeiladu hyder i'r dyfodol.

2.18 Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi *Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit*[5]. Mae Cymru'n gwneud cyfraniad pwysig, fel rhan o'r DU, a byddwn yn parhau i wneud hynny ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Fodd bynnag, mae angen sylfaenol ac ar frys i ni adolygu, egluro ac mewn rhai achosion, ddiwygio ein mecanwaith ariannol a chyllido cyfredol i sicrhau bod dull gweithredu'r DU yn gynaliadwy ac yn rhoi budd i holl rannau'r DU y tu allan i'r UE. Ni ellir cyflawni hyn ond drwy weithio'n gydweithredol a chyda set o amcanion a dulliau o weithio a rennir dros y tymor hwy.

2.19 Fel cam cyntaf, rydym yn bwriadu gwneud diwygiadau i'r mecanwaith rhynglywodraethol sy'n goruchwylio cyllid a threfniadau ariannol i sicrhau eu bod yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth, cytundeb a chydsynio. Mae hyn yn cynnwys esblygu cyfarfodydd pedair ochrog presennol y gweinidogion cyllid yn gorff gwneud penderfyniadau pedair ffordd a swyddogaeth benodol i gyrff annibynnol ar y llywodraeth i oruchwylio gweithredu'r trefniadau newydd, gan gynnwys datrys anghydfodau.

2.20 Rydym hefyd yn cydnabod fod Brexit yn darparu cyfle i lunio mecanwaith ariannu newydd, ar sail egwyddorion, a fydd yn gwarantu buddsoddiad teg a pharhaus lle y mae ei angen, yn hybu twf economaidd cytbwys ar draws holl rannau'r DU ac yn cynnal ac yn gwella datganoli.

2.21 Dylai hyn hefyd helpu i egluro agweddau pwysig ar berthynas y DU yn y dyfodol gyda phartneriaethau a rhwydweithiau'r UE megis Horizon 2020 ac ERASMUS+ gan gynnwys mynediad parhaus at y cyllid a'r arbenigedd sydd ar gael o Fanc Buddsoddi Ewrop.

2.22 O fis Ebrill, bydd oddeutu 80% o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei benderfynu gan fformiwla Barnett. Mae'r cyllid gwaelodol a osodwyd yn fformiwla Barnett (o

[5] https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/diwygio-trefniadau-ariannu-a-chodi-cyllid-y-du-ar-%C3%B4l-brexit.pdf

ganlyniad i'r fframwaith cyllidol a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2016) wedi darparu £70m ychwanegol hyd yma ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus Cymru a bydd yn darparu £271m pellach dros y pum mlynedd y mae'r cyhoeddiad am y GIG yn eu cwmpasu. Fodd bynnag nid yw'n mynd i'r afael yn llwyr â'n pryderon ynghylch y ffordd y mae fformiwla Barnett yn gweithredu. Mae cydnabyddiaeth eang i annhegwch ac afresymoldeb cynhenid fformiwla Barnett. Ochr yn ochr â datblygu fframweithiau eraill y DU ar ôl yr UE, dylai fformiwla Barnett gael ei ddisodli gan system gyllido newydd ar sail-rheolau, wedi ei gwreiddio o fewn cytundeb ariannol newydd, sy'n sicrhau bod dyrannu adnoddau yn y DU yn seiliedig ar angen cymharol.

### *Parodrwydd*

2.23 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau i baratoi ar gyfer goblygiadau ymarferol Brexit ac i sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau bosibl i ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd i ddod.

2.24 Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector drwy ystod o fforymau i ddeall eu pryderon a'u blaenoriaethau ac i fod yn weithgar o ran nodi safbwyntiau polisi cydlynol i ddylanwadu ar ddull gweithredu Llywodraeth y DU o ran trafodaethau gadael a pharatoi ar gyfer nifer o ganlyniadau posibl.

2.25 Rydym wedi sefydlu Cronfa Bontio'r UE gwerth £50m i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i baratoi ar gyfer Brexit. Mae hon yn adeiladu ar £5m a ddyrannwyd i barodrwydd ar gyfer Brexit dros 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'r cytundeb Cyllideb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru. Cafodd Cronfa Bontio'r UE ei llunio mewn cydweithrediad â'r sefydliadau a'r busnesau y bwriedir iddi eu helpu. Bydd yn darparu cefnogaeth a chyngor ariannol wedi'u teilwra ar gyfer busnesau i'w cynorthwyo i ffynnu y tu allan i'r UE. Drwy'r gronfa, rydym eisoes wedi cyhoeddi nifer o fesurau, gan gynnwys dros £2m i gefnogi datblygu'r sector cig coch yng Nghymru; £3m i gefnogi'r diwydiant amaethyddol a £3.5m o gefnogaeth i brifysgolion Cymru er mwyn gyrru partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i astudio ynddi ar ôl ymadael â'r UE.

2.26 Rydym yn adolygu ystod o gynigion i gefnogi sectorau eraill ar draws Cymru.

### *Rhagolygon ariannol Cymru yn y tymor canolig*

2.27 Fel yr amlygwyd yn adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft, mae rhagolygon ariannol Cymru'n dibynnu, i ryw raddau, ar sefyllfa ariannol Llywodraeth y DU, gan mai hyn sy'n pennu maint y grant bloc ac i raddau llai, ond arwyddocaol serch hynny, ar y refeniw a godir o drethi a ddatganolwyd. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bwriad i gynnal Adolygiad o Wariant y flwyddyn nesaf. Nid ydym yn gwybod eto pa effaith a gaiff hyn ar gyllideb Cymru na thros ba gyfnod y bydd gennym setliad cadarn.


2.28 Bydd rhagolygon ariannol Cymru dros y cyfnod canolig, hyd 2022-23, yn dibynnu i ryw raddau ar yr agwedd a gymerir gan Lywodraeth y DU tuag at gyllido'r cynnydd mwn gwariant ar y GIG yn Lloegr a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yn absenoldeb setliad refeniw cadarn y tu hwnt i 2019-20, mae dadansoddiad yr OBR yn y *Rhagolygon Economaidd a Chyllidol* ym mis Mawrth, ac ym mis Gorffennaf yn ei

*Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol,* yn ffurfio'r man cychwyn ar gyfer asesu rhagolygon ariannol yn y tymor canolig.

2.29 Gan ddilyn yr un dull a ddefnyddiwyd gennym i bennu cynlluniau ar gyfer 2019-20, mae'r rhagolygon tymor canolig yn tybio y bydd y cynnydd a gyhoeddwyd i'r GIG yn 2019-20 yn bwydo drwodd i gynyddu Terfyn Gwariant Ariannol Adnoddau Cymru. Tu hwnt i hynny, tybir y bydd y cyhoeddiad am y GIG yn cael ei ariannu fwyfwy gan doriadau i wariant mewn adrannau "heb eu gwarchod" – hyd at 50% erbyn 2022-23.

2.30 Yn y sefyllfa hon, byddai cyllideb adnoddau Cymru yn gyffredinol yn tyfu dan 2% mewn termau real rhwng 2019-20 a 2022-23 (gweler ffigur tri). Mae cyfradd twf o 0.5% y flwyddyn o 2020-21 ymlaen yn debyg i'r un yn y blynyddoedd diwethaf. O fewn y gyllideb gyffredinol, os bydd twf yng nghyllideb GIG Cymru yn cael ei gynnal ar yr un gyfradd â'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, byddai gweddill y gyllideb yn gostwng mewn termau real gan 2% y flwyddyn ar ôl 2019-20.

**Ffigur tri: Rhagolygon tymor canolig ar gyfer cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru mewn termau real (£m, prisiau 2017-18)**




2.31 Dros y tymor hwy (2023-24 i 2029-30), mae sefyllfa ariannol a pholisïau Llywodraeth y DU yn y dyfodol, wrth gwrs, yn ansicr, ac felly cyflwynir sawl sefyllfa yn adroddiad y Prif Economegydd a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft amlinellol. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad a wnaed gan yr OBR yn awgrymu, hyd nes y bydd y polisïau a fabwysiedir gan Lywodraeth bresennol y DU yn hysbys, mai doeth fyddai tybio cyfnod hirfaith o gyfyngiadau ariannol. Byddai hyn yn angenrheidiol oni fyddai Llywodraeth y DU yn cynyddu'r trethi a godir fel cyfran o'r cynnyrch domestig gros lawer yn uwch na'r lefelau hanesyddol.

# Pennod 3: Trefniadau Cyllido

## Trosolwg

3.1 Bu nifer o ddatblygiadau ariannol pwysig, sydd wedi bod ag oblygiadau ar gyfer Cymru ac ar gyfer ein cyllideb dros y degawd diwethaf. Mae'r fframwaith cyllidol, a gytunwyd gyda Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, wedi golygu newid parhaol i fformiwla Barnett drwy gyflwyno cyllid gwaelodol. Hyd yma, mae'r cyllid gwaelodol wedi darparu £70m ychwanegol i Gymru a bydd yn darparu £271m pellach dros y pum mlynedd nesaf, o ganlyniad i gyllid canlyniadol Barnett ar gyfer cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar wariant y GIG.

3.2 Mae datganoli ardrethi annomestig a chyflwyno treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi – y don gyntaf o drethi Cymreig mewn oddeutu 800 mlynedd – yn golygu y bydd £1.4bn o Gyllideb 2019-20 wedi cael ei godi'n uniongyrchol yng Nghymru. Yr hydref hwn, rydym yn pennu'r cyfraddau Cymreig cyntaf ar gyfer treth incwm, a gyflwynir ym mis Ebrill 2019, ac mae disgwyl iddi godi £2.1bn yn y flwyddyn gyntaf, gan atgyfnerthu ymhellach y cysylltiad rhwng refeniw a godir yng Nghymru a'r cyllid a werir ar wasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru i bobl Cymru.

3.3 Mae'r pwerau newydd i godi trethi ac amrywio trethi'n darparu ffyrdd ychwanegol i'r llywodraeth gyflawni ei blaenoriaethau ar gyfer Cymru. Wrth i ddatblygiadau ar gyfer datganoli ariannol esblygu, byddwn yn ymdrechu i ddarparu dull gweithredu tuag at drethiant Cymreig sy'n deg, yn eglur ac yn cwrdd ag anghenion pobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.

## Polisi trethi

3.4 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn Fframwaith Polisi Trethi 2017, a dynnodd sylw at ein bwriad i greu dull gweithredu trefnus a chredadwy ar gyfer polisi trethi ar draws y pum treth Gymreig – cyfraddau treth incwm Cymru, treth trafodiadau tir, treth gwarediadau tirlenwi, treth gyngor ac ardrethi annomestig. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn codi oddeutu £5bn i wario ar wasanaethau cyhoeddus Cymru bob blwyddyn, a'n huchelgais ni yw y byddant yn gwneud y canlynol:

- Codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus;
- Cyflawni amcanion polisi, yn benodol i gefnogi swyddi a thwf;
- Bod yn syml, yn glir ac yn sefydlog;
- Cael eu datblygu drwy gydweithrediad a chynnwys; a
- Chreu Cymru sy'n fwy cyfartal.

3.5 Cyhoeddir ein hadroddiad polisi trethi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2019-20, ac mae'n nodi'r hyn yr ydym wedi'i wneud i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018). Mae hwn yn darparu diweddariad llawn

am bolisi trethi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhoi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith o Ebrill 2019 ymlaen. Mae hefyd yn nodi'r gwaith a wneir ar ddadansoddi data a modelu; y gwaith sy'n mynd ymlaen ar syniadau am drethi newydd gan gynnwys treth ar dir gwag, ardoll gofal cymdeithasol, treth ar blastigion untro a threth twristiaeth; cynnydd y cynllun gwaith ar drethiant lleol a sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru a gwella gweinyddu trethi ar draws yr holl drethi yng Nghymru. Bydd llawer o'r eitemau yn y cynllun gwaith yn helpu i gyflawni ein huchelgais yn y tymor hwy ar gyfer trethi yng Nghymru, fel yr amlinellwyd uchod.

3.6 Yn 2018 buom yn ddiolchgar am ymgysylltiad a her adeiladol barhaus gan aelodau Grŵp Cynghorol ar Drethi Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid[6].

3.7 Byddwn yn cyhoeddi cynllun gwaith newydd ddechrau 2019 i barhau â'n dull gweithredu tryloyw a chydweithredol o ran llunio polisi trethi. Yr heriau allweddol yn y cynllun gwaith newydd fydd y canlynol:

- Adeiladu dull mwy strategol o godi refeniw treth ar draws polisïau Llywodraeth Cymru;
- Gweithio gyda Chyllid a Thollau EM i roi cyfraddau treth incwm Cymru newydd ar waith yn effeithlon ym mis Ebrill 2019;
- Symud ymlaen â gwaith ar y syniadau am drethi newydd, gan gynnwys ardoll gofal cymdeithasol a threth ar dir gwag; a
- Datblygu a gwreiddio dull wedi'i foderneiddio ac yn canolbwyntio mwy ar y trethdalwr o ran gweinyddu trethi yng Nghymru.

## Cyfraddau treth incwm Cymru

3.8 O 6 Ebrill 2019, os ydych chi'n byw yng Nghymru, bydd hyd at hanner eich treth incwm yn ariannu gwasanaethau yng Nghymru'n uniongyrchol.

3.9 Mae hyn yn newid o'r system bresennol, lle y caiff yr holl dreth incwm ei thalu i Lywodraeth y DU i ariannu gwariant ar draws y DU. Bydd oddeutu 1.3 miliwn o drethdalwyr sy'n byw yng Nghymru yn talu cyfraddau treth incwm Cymru o 6 Ebrill 2019 ymlaen; bydd yr arian a godir yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus, megis y GIG ac ysgolion. Bydd treth incwm yn parhau i gael ei chasglu fel un taliad gan Gyllid a Thollau EM a bydd trethdalwyr Cymru'n derbyn llythyr gan Gyllid a Thollau EM cyn bo hir yn nodi eu statws fel trethdalwyr Cymreig.

3.10 (Paragraff wedi'i ddileu)

Ffigur 4 - Wedi'i ddileu

[6] https://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/tax-advisory-group/?skip=1&lang=cy

## Trethi Cymreig eraill

3.11 Cyflwynwyd treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi ym mis Ebrill 2018 ac maent yn cael eu casglu a'u rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

3.12 Fel yr awdurdod treth newydd ar gyfer Cymru, mae ACC wedi datblygu Ein Dull Gweithredu – ffordd newydd o wneud trethi i helpu i ddarparu system drethi deg i Gymru. Bydd ACC yn parhau i weithio'n gydweithredol gyda chynrychiolwyr, sefydliadau partner, trethdalwyr a'r cyhoedd i sicrhau y caiff trethi eu gweinyddu'n effeithiol ac effeithlon. Bydd ACC hefyd yn cyhoeddi cynllun corfforaethol tair blynedd yng ngwanwyn 2019, yn amlinellu mwy am ei ddull gweithredu o ran gweinyddu trethi. Mae cynllun corfforaethol ACC ar gyfer ei flwyddyn gyntaf ar gael yn https://beta.llyw.cymru/cynllun-corfforaethol-awdurdod-cyllid-cymru-2018-i-2019

### *Treth trafodiadau tir*

3.13 Paragraff wedi'i ddileu

3.14 Paragraff wedi'i ddileu

3.15 Paragraff wedi'i ddileu.

*3.16* Paragraff wedi'i ddileu.

### *Treth gwarediadau tirlenwi*

3.17 Mae'r dreth gwarediadau tirlenwi yn dreth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi a godir yn ôl pwysau. Gweithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n gyfrifol am dalu'r dreth, a byddant yn trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff trwy eu ffi glwyd. Disodlodd dreth tirlenwi yng Nghymru ym mis Ebrill 2018, gan alluogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i barhau i dderbyn budd y refeniw a godir gan y dreth. Fel gyda'r dreth dirlenwi, mae'n anelu at sicrhau y caiff y dull gwaredu drwy dirlenwi ei brisio'n gywir i adlewyrchu'r gost amgylcheddol ac i hyrwyddo dull gweithredu mwy cynaliadwy tuag at reoli gwastraff. Mae datganoli'r dreth yn cynnig modd arall o gefnogi blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y nod uchelgeisiol o ddim gwastraff erbyn 2050 a'n hymdrechion i leihau allyriannau carbon a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

3.18 Paragraff wedi'i ddileu

3.19 Mae'r dull gweithredu o ran pennu cyfraddau treth wedi ei arwain gan egwyddorion y Fframwaith Polisi Trethi a'r nod cyffredinol o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru. Mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach, gan nodi dymuniad busnesau i allu cynllunio ymlaen llaw a gwneud buddsoddiadau, hefyd wedi bod yn ffactor

allweddol wrth bennu'r cyfraddau. Hefyd dilynwyd yr egwyddor na ddylai fod llai o refeniw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

*3.20* Paragraff wedi'i ddileu.

*Cynllun Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi*

3.21 Sefydlwyd cynllun cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol mewn ardaloedd yr effeithir arnynt gan wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Dechreuodd y cynllun ar 1 Ebrill 2008 a derbyniwyd y cynigion cyntaf gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sef y corff dosbarthu ar gyfer y cynllun, yng Ngorffennaf 2018. Bydd y cynllun yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, a gwelliannau amgylcheddol. Bydd panel annibynnol, gyda chynrychiolwyr o gyrff fel Cadwch Gymru'n Daclus, Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, yn asesu'r cynigion. Bydd angen i'r prosiectau ddangos y byddant yn cynorthwyo cymunedau i gyfrannau tuag at y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.22 Dros y pedair blynedd nesaf mae £1.5m y flwyddyn wedi ei ddyrannu i'r cynllun i gefnogi cymunedau y mae gwaredu gwastraff ar safleoedd tirlenwi yn effeithio arnynt. Mae hyn yn darparu ffrwd ariannu sefydlog ar gyfer y cynllun.

## Ardrethi annomestig

3.23 Mae trethi lleol yn rhan annatod o'r system ar gyfer ariannu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cyfraddau gros sy'n daladwy o ardrethi annomestig (NDR) bron yn £1.3bn yng Nghymru. Ar ôl gweithredu rhyddhad, mae ardrethi annomestig yn cyfrannu dros £1bn tuag at gyllido gwasanaethau lleol bob blwyddyn.

3.24 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n barhaol ac yn cael ei dargedu'n well, ac sy'n cefnogi oddeutu 70% o eiddo busnes yng Nghymru, gydag oddeutu hanner yn talu dim trethi o gwbl. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gwelliannau a wnaed i'r cynllun yn 2018-19, wrth ystyried meysydd i'w datblygu ymhellach.

3.25 Mae'n ofynnol i ysgolion ac ysbytai'r wladwriaeth dalu ardrethi annomestig, ac felly hefyd ystod eang o eiddo arall yn y sector cyhoeddus. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gost gwasanaethau lleol hanfodol a ddarperir yn ein cymunedau. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion ac ysbytai annibynnol yn gallu mwynhau rhyddhad rhag trethi i elusennau. Yn ein barn ni, dylai ysgolion annibynnol ac ysbytai preifat gael eu gosod ar yr un sail â chyrff cyfatebol yn y sector cyhoeddus o ran talu ardrethi annomestig. Er nad ydym yn gwrthod iddynt y manteision ariannol a dderbyniant o fod â statws elusennol, na'r gallu i weithredu'n fasnachol i godi refeniw drwy ffioedd, credwn ei bod yn deg disgwyl iddynt wneud cyfraniad at gost gwasanaethau lleol drwy dalu ardrethi ar yr eiddo a ddefnyddir ganddynt. Bwriadwn

ymgynghori yn y flwyddyn i ddod ar gymhwyster ysgolion ac ysbytai annibynnol i dderbyn rhyddhad rhag trethi i elusennau.

3.26 Dros yr haf fe wnaethom ymgynghori â busnesau, cynrychiolwyr o ddiwydiant ac awdurdodau lleol ar gynigion i leihau swm y refeniw ardrethi annomestig a gollir bob blwyddyn drwy ymddygiad osgoi. Rydym wedi datgan yn glir y byddwn, yn ystod tymor y Cynulliad hwn, yn gwneud trethi lleol yn decach a gweithio i sicrhau bod pawb yn cyfrannu'n deg. Nid yw'n iawn bod ymdrechion y mwyafrif sylweddol i lynu wrth y rheolau a thalu'r hyn sy'n ddyledus ganddynt, yn cael eu tanseilio gan leiafrif sy'n benderfynol o gam-fanteisio ar y system neu ei chamddefnyddio. Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad cyn bo hir a'r ffordd ymlaen ar gyfer gostwng cyfraddau osgoi yng Nghymru.

## Sicrwydd annibynnol ar gyfer rhagolygon refeniw trethi

3.27 Mae rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer refeniw treth ddatganoledig wedi'u cyhoeddi a'u sicrhau gan Ysgol Fusnes Bangor[7]. Dangosir y rhagolygon ar gyfer 2019-20 yn nhabl 3.5.

**Tabl 3.5 : (Wedi'i ddileu)**

3.28 Yn dilyn ystyried nifer o opsiynau o ran trefniadau ar gyfer rhagolygon tymor hwy, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud trefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) i ddarparu rhagolygon refeniw trethi ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru 2020-21 a thu hwnt. Bydd y trefniant hwn yn dechrau o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Mae manylion pellach ar gael yn yr adroddiad polisi trethi[8], a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft.

## Addasu'r grant bloc

3.29 Yn dilyn datganoli pwerau trethu i Gymru, caiff grant bloc Llywodraeth Cymru ei leihau i adlewyrchu'r ffaith bod refeniw trethi datganoledig a rhannol-ddatganoledig nawr yn mynd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru yn hytrach nag i Drysorlys y DU.

3.30 Fel y cytunwyd yn y fframwaith cyllidol, mae'r addasiad ar gyfer y trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn yn cynnwys:

a. Gwaelodlin ar gyfer yr addasiad – yn adlewyrchu'r dreth a gasglwyd dan dreth flaenorol y DU yng Nghymru yn y flwyddyn cyn datganoli (2017-18).
b. Addasiadau blynyddol i'r grant bloc – o'r waelodlin wreiddiol caiff yr addasiad ei gynyddu neu ei ostwng i adlewyrchu twf yn nhreth gyfatebol Llywodraeth y DU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

3.31 (Paragraff wedi'i ddileu)

[7] https://beta.gov.wales/draft-budget-2019-2020
[8] https://gov.wales/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?lang=cy

3.32 Mae rhagolygon refeniw trethi Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o benderfynyddion economaidd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y rhagolygon hynny hefyd yn cael eu diwygio yn dilyn cyhoeddi rhagolygon yr hydref y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

3.33 (Paragraff wedi’i ddileu)

3.34 Mae lefel y refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru yn 2019-20 a ddangosir yn y Gyllideb ddrafft hon wedi’i halinio â rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Mawrth. Mae hyn hefyd yn debygol o newid yn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn yr hydref ond, fel y nodwyd, ni fydd unrhyw effaith net ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn gyntaf hon.

3.35 (Paragraff wedi’i ddileu)

## Cronfa Wrth Gefn Cymru

3.36 Cyflwynwyd Cronfa Cymru ym mis Ebrill 2018 fel rhan o drefniadau’r fframwaith cyllidol i’n galluogi i ymdrin yn effeithiol ag anwadalrwydd yn codi o refeniw trethi drwy gadw adnoddau heb eu gwario i'w defnyddio mewn blynyddoedd i ddod. Mae’n cymryd lle’r broses flaenorol o gyfnewid cyllidebol.

3.37 Gall Cronfa Cymru gadw hyd at £350m. Mae'r swm y ceir ei dynnu i lawr bob blwyddyn wedi’i gyfyngu i £125m ar gyfer gwariant refeniw a £50m ar gyfer gwariant cyfalaf. Nid oes cyfyngiad blynyddol ar daliadau i mewn i'r gronfa.

3.38 Ddechrau 2018-19, roedd £325m yn y gronfa – £274m refeniw a £51m cyfalaf. Bydd cynlluniau i ddefnyddio cyllid a ddelir yn y gronfa yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn ail gyllideb atodol 2018-19 sydd ar ddod.

3.39 Wrth bennu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2019-20 rydym wedi cynllunio i dynnu £125m o refeniw i lawr o Gronfa Cymru.

## Cyfalaf trafodiadau ariannol

3.40 Mae natur ein cyllideb cyfalaf wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf wrth i Lywodraeth y DU osod mwy o gyfyngiadau ar y ffordd mae cyfalaf yn cael ei ddefnyddio. Yn 2019-20, roedd 14.2% o’n cyllideb cyfalaf ar ffurf cyfalaf trafodiadau ariannol. Dim ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti y gellir defnyddio’r cyfalaf hwnnw, ac mae’n rhaid ei dalu’n ôl i Drysorlys EM.

3.41 Wrth i’n profiad o gyfalaf trafodiadau ariannol dyfu, rydym yn defnyddio'r cyllid mewn ffyrdd mwy arloesol, ochr yn ochr â rhaglenni craidd cefnogi busnes a thai. Fel rhan o adolygiad hanner ffordd y *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*[9], a gyhoeddwyd ym mis Mai, fe wnaethom gyhoeddi £19m o gyfalaf trafodiadau ariannol dros dair blynedd ar gyfer Banc Datblygu Cymru i gefnogi

[9] https://beta.llyw.cymru/buddsoddi-yn-seilwaith

cronfa achub ac adfer ac i gynyddu buddsoddiad yn y gronfa benthyciadau i ficrofusnesau fel rhan o'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i wella mynediad at gyllid i fusnesau.

3.42 Rydym yn datblygu ystod o gynigion yn ystod yr hydref a byddwn yn cyhoeddi buddsoddiadau trafodiadau ariannol pellach yn y Gyllideb derfynol.

3.43 Gellir cael rhagor o wybodaeth am driniaeth y gyllideb o gyllid trafodiadau ariannol a phroffil o ad-daliadau yn atodiad D.

## Benthyca

3.44 Fel rhan o'r fframwaith cyllidebol a gytunwyd gyda Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2016, mae terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu i £1bn yn ei grynswth gyda'r terfyn blynyddol yn codi i £150m o fis Ebrill 2019.

3.45 Mae benthyca'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynyddu ei hawl gwario cyfalaf cyffredinol – goruwch y terfyn a osodwyd gan Drysorlys EM drwy'r grant bloc – i gefnogi ein blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn seilwaith a nodwyd yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Gan ddefnyddio ein pwerau benthyca newydd gallwn gyflawni buddsoddiadau strategol mawr na ellid eu fforddio fel arall gan ddefnyddio ein cyllidebau cyfalaf craidd yn unig.

3.46 Mae tabl 3.6 yn cynnwys ymrwymiadau i fenthyca £250m dros y cyfnod o ddwy flynedd 2019-20 a 2020-21. Fel rhan o'n trafodaethau manwl gyda Thrysorlys EM wrth baratoi ar gyfer Adolygiad Gwariant 2019, byddwn yn ceisio cynnydd yn ein terfynau benthyca blynyddol a chrynswth i gefnogi ein huchelgais o ran buddsoddi cyfalaf.

3.47 Mae'n bwysig ein bod yn gallu rheoli ein cyllideb cyfalaf yn hyblyg. Byddwn yn dal i ddefnyddio ein dull o gyllido buddsoddiad drwy fanteisio cymaint ag y bo modd ar dynnu i lawr y mathau rhataf o gyfalaf yn gyntaf cyn symud ymlaen i fathau drutach a mwy cymhleth o fuddsoddiad.

3.48 Mae benthyca cyfalaf yn ein helpu i reoli ein hadnoddau yn fwy effeithlon a chyflawni ein nodau seilwaith – gan weithio ochr yn ochr â'n cyllideb cyfalaf presennol a'n cynlluniau cyllido arloesol. Ond, nid arian ychwanegol yw benthyciadau cyfalaf, ac mae'n rhaid eu had-dalu.

3.49 Bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu ei chyfalaf benthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. Mae rhagolygon ad-dalu o ran y cyfnod yr ydym wedi pennu cynlluniau cyfalaf ar ei gyfer wedi'u nodi yn Nhabl 3.6. Mae'r rhagolwg ad-dalu'n seiliedig ar dybiaeth o gyfnod ad-dalu o 30 mlynedd a chyfradd llog ar gyfartaledd o 2.22%.

## Cyllid arloesol

3.50 Yn ogystal â'n cyllidebau cyfalaf craidd a'n pwerau benthyca newydd, rydym yn parhau i wneud defnydd llawn o ddulliau cyllido arloesol er mwyn helpu i

sicrhau buddsoddiad ychwanegol amserol mewn seilwaith economaidd a chymdeithasol hanfodol. Darperir diweddariad ar y cynlluniau hyn yn atodiad D.

## Ffynonellau Cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru

3.51 Gyda chyflwyno datganoli trethi mae'r ffynonellau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru'n ehangu. Mae tabl 3.6 yn dangos ffynonellau ar gyfer adnoddau a chyfalaf.

**Tabl 3.6 : Ffynonellau Cyllid**

| CYLLIDEB DDRAFFT 2019-20 | | | |
|---|---|---|---|
| **ELFENNAU CYLLIDO CYMRU** | **Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19 £000oedd** | **Newidiadau 2019-20 £000oedd** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000oedd** |
| **CYLLIDO ADNODDAU** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyllidol | 13,310,209 | -1,719,834 | 11,590,375 |
| Anghyllidol | 689,981 | 0 | 689,981 |
| Tynnwyd o Gronfa Cymru | 75,000 | 50,000 | 125,000 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyllidol | 28,505 | -511 | 27,994 |
| Anghyllidol | 156,965 | -34,597 | 122,368 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Ardrethi Annomestig | 1,063,000 | -2,000 | 1,061,000 |
| Cyfradd Treth Incwm Cymru | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu |
| Treth Trafodiadau Tir | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu |
| Ad-dalu prifsymiau benthyciadau | -3,744 | 597 | -3,147 |
| **CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU** | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 1,814,525 | 2,701 | 1,817,226 |
| Trafodiadau Ariannol | 300,219 | 0 | 300,219 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 816,483 | -15,015 | 801,468 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **3,056,227** | **-12,314** | **3,043,913** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | **18,669,143** | **385,341** | **19,054,484** |

| CYLLIDEB DDRAFFT 2019-20 | | | |
|---|---|---|---|
| **ELFENNAU CYLLIDO CYMRU** | **Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2018-19 £000oedd** | **Newidiadau 2020-21 £000oedd** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000oedd** |
| **CYLLIDO CYFALAF** | | | |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** | | | |
| Cyffredinol | 1,948,697 | 2,057 | 1,950,754 |
| Trafodiadau Ariannol | 291,758 | 0 | 291,758 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** | | | |
| Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| **Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:** | | | |
| Benthyca | 125,000 | 0 | 125,000 |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF** | **2,365,455** | **2,057** | **2,367,512** |
| **CYFANSWM CYLLIDO CYMRU** | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu | Wedi'i ddileu |

# Pennod 4: Buddsoddi ym mlaenoriaethau'r llywodraeth

## Trosolwg

*Dull gweithredu o ran paratoi ar gyfer y gyllideb*

4.01 Yng Nghyllideb y llynedd, cyhoeddwyd dyraniadau refeniw dangosol ar gyfer 2019-20 a dyraniadau cyfalaf dangosol hyd at 2020-21. Mae cynigion y Gyllideb sy'n cael eu cyhoeddi heddiw'n adeiladu ar y cynlluniau a gyhoeddwyd y llynedd.

4.02 O'r cychwyn cyntaf rydym wedi canolbwyntio ar sut y gallwn gymryd camau pellach i ymgorffori'r egwyddorion a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y Gyllideb. Mae gan y Ddeddf rôl sylfaenol wrth arwain proses y gyllideb i sicrhau ein bod ni, fel Llywodraeth, yn meddwl am y tymor hir; yn gweithio gyda phobl a chymunedau; yn ceisio atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf ac yn defnyddio dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a thrawslywodraethol sy'n cynnwys y sector cyhoeddus o ran mynd i'r afael â materion.

4.03 Mae ein hymdrech i ymgorffori dull gweithredu ataliol yn ein penderfyniadau ariannol yn ennill tir yn y Gyllideb ddrafft hon. Rydym wedi gosod ffocws ar atal o ran gwasanaethau cyhoeddus - o safbwynt bodloni'r galw presennol am wasanaethau ac i gefnogi ymyriadau, sy'n gallu helpu i atal problemau rhag codi yn y dyfodol. Fel rhan o broses y gyllideb, rydym wedi parhau i weithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i ddatblygu, a chytuno ar ddiffiniad cyffredin o atal. Caiff manylion pellach am sut y mae'r diffiniad hwn wedi cefnogi'r cynlluniau gwario manwl eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft fanwl ar 23 Hydref.

4.04 Trwy gyfarfodydd dwyochrog ag Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion ac mewn trafodaethau â'r Cabinet, rydym wedi ymchwilio ar y cyd i effeithiau trawsbynciol ein penderfyniadau gwario. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi bod yn arddel dull gweithredu mwy cydweithredol o ran cyflenwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy broses flaenoriaethu. Mae'r cyfarfodydd dwyochrog ag Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion wedi pwysleisio natur drawslywodraethol ein penderfyniadau ac mae'n helpu i gryfhau cydweithredu, ymgysylltu a chyfranogiad ar draws holl feysydd yr holl bortffolios.

4.05 Pan bennwyd cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20, roedd hynny yn erbyn cefndir cyfyngiadau ariannol parhaus ac ar adeg pan nad oedd arwydd y byddai Llywodraeth y DU'n lleddfu ar gyfyngiadau tâl fel rhan o'i pholisi parhaus o gyni. Ein blaenoriaeth fu amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus rhag effaith waethaf cyni yng Nghymru, tra'n cynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy, a dyna fydd ein blaenoriaeth o hyd. Mae'n anochel bod hyn wedi effeithio ar rai meysydd gwario. Ers pennu ein cynlluniau, gwelwyd rhywfaint o leddfu ar bolisïau cyni Llywodraeth y DU, o ran dileu'r cap o 1% ar dâl y sector

cyhoeddus. Er hynny, byddai'n ymddangos bod Llywodraeth y DU'n benderfynol o barhau i fynd ar drywydd cyni a lleihau'r diffyg.

4.06 O ganlyniad i'r dyraniadau ychwanegol sy'n deillio o'r codiad i gyllid y GIG yn Lloegr, rydym wedi cael cyfle i ddarparu cyllid ychwanegol yn y Gyllideb ddrafft hon i gefnogi ein meysydd blaenoriaethol - fel y'u nodir yn Ffyniant i Bawb - tra'n bwrw ymlaen ag agenda ataliol ac adfer cyllid mewn rhai meysydd.

## Blaenoriaethau Gwario

4.07 Mae ein buddsoddiad yng Nghyllideb eleni'n canolbwyntio ar y canlynol:

- ***Perfformiad*** – rydym yn buddsoddi ym mherfformiad a chyflenwi gwasanaethau rheng flaen, y mae pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt - ym maes iechyd, mewn gofal cymdeithasol ac addysg;

- ***Atal*** – Rydym yn parhau i fuddsoddi yn yr agenda ataliol trwy gefnogi ymyriadau, sy'n helpu i atal problemau rhag codi yn y dyfodol, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, gwell iechyd meddwl a chefnogi gofal cymdeithasol; a

- ***Tâl*** – rydym yn buddsoddi yng ngweithlu'r sector cyhoeddus, ein hased gorau o ran gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft, gyda chytundebau tâl wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer athrawon a staff GIG Cymru.

### *Iechyd a Gofal Cymdeithasol*

4.08 Ers dechrau'r cyfnod hwn o gyni – y cyfnod hwyaf mae gennym gof amdano – rydym wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a gofal cymdeithasol gyda'i gilydd, gan gydnabod pwysigrwydd gofal cymdeithasol wrth wella iechyd a llesiant yng Nghymru i unigolion, teuluoedd a chymunedau a'r cyfraniad y mae'n ei wneud at system iechyd fodern.

4.09 Yng Nghyllideb y llynedd dyrannwyd £220m yn ychwanegol yn 2019-20 i'r GIG i gau bwlch Nuffield - sef cyfrifiad Ymddiriedolaeth Nuffield o'r cyllid ychwanegol y mae ei angen, ar ben mesurau effeithlonrwydd y GIG, i barhau i ddarparu gwasanaethau GIG Cymru ar adeg o alw a phwysau cynyddol. Hefyd fe wnaethom liniaru effaith gostyngiadau i ofal cymdeithasol i gadw cyllid tybiedig ar lefelau 2017-18.

4.10 Yn 2019-20, byddwn yn gwneud mwy hefyd na chau bwlch Nuffield yn unig. Byddwn yn buddsoddi cyfanswm o fwy na £500m mewn iechyd a gofal cymdeithasol i wella perfformiad; i yrru trawsnewid ac integreiddio ac i helpu pobl i fyw bywydau iachach ac annibynnol yn hirach.

4.11 Rydym yn cydnabod mai gweithlu'r sector cyhoeddus yw ein hased gorau o ran gwasanaethau cyhoeddus, ac y gallwn ei ddefnyddio fel sail i feithrin ein gweledigaeth o weithlu sydd wedi'i adeiladu o gwmpas y gwerthoedd ymddiriedaeth, ymroddiad a rhagoriaeth. Cyhoeddwyd felly gynnig cyflog i

staff GIG Cymru sy'n mynd ymhellach na'r cynnig a wnaed yn Lloegr. Rydym yn dyrannu £94.6m yn ychwanegol yn 2019-20 i ariannu cytundeb cyflogau *Agenda ar gyfer Newid*.

4.12 Byddwn yn dyrannu £192m pellach i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu Cymru Iachach[10], ein cynllun i greu system iechyd a gofal cymdeithasol di-dor ac integredig. O hyn, caiff £60m ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Tymor Canolig cryfach i'r GIG ac mae £30m pellach yn cydnabod y rôl gynyddol y bydd byrddau partneriaeth rhanbarthol - lle mae byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn cydweithio i wella gwasanaethau lleol - yn ei chwarae wrth yrru'r gwaith o drawsnewid Gwasanaethau ar lefel ranbarthol.

4.13 Byddwn yn dyrannu £30m yn ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau mewn gofal cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i wasanaethau gofal cartref. Caiff y buddsoddiad ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol, trwy grant arbennig ac, ynghyd â'n buddsoddiad parhaus mewn gofal sylfaenol, bydd yn helpu pobl i aros yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am mor hir â phosibl.

4.14 Wrth ddyrannu'r cyllid o £72m sy'n weddill, nid ydym wedi cael ein cyfyngu gan ffiniau Gweinidogol traddodiadol. Rydym wedi ymchwilio i sut y gallwn dargedu buddsoddiad newydd i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn felly'n buddsoddi £10m mewn cynlluniau ataliol, gan gynnwys cymorth i'r Blynyddoedd Cynnar a £15m ar gyfer anableddau iechyd meddwl a dysgu, gan gynnwys ein dull gweithredu ysgol gyfan at gymorth emosiynol ac iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Caiff y buddsoddiad sy'n weddill ei ddefnyddio i fwrw ymlaen â rhaglenni ymchwil cenedlaethol i gefnogi rhoi Cymru Iachach ar waith, gan gynnwys cynyddu buddsoddi mewn technoleg ddigidol a gwella gwasanaethau clinigol ac ansawdd.

4.15 Byddwn hefyd yn parhau â'n cynlluniau, fel y'u cyhoeddwyd gynt ym mis Mai, i fuddsoddi cyfalaf ychwanegol o £61m yn y GIG (£41m yn 2019-20 a £20m yn 2020-21). Bydd hyn yn helpu i wella'r GIG a moderneiddio'r fflyd ambiwlansys. Bydd cyllid trafodiadau ariannol o £4m yn 2019-20 a £4m yn 2020-21 yn helpu i gefnogi datblygu canolfannau arloesi iechyd i helpu'r GIG i wella'r gwaith o atal, trin a rheoli cyflyrau cronig hirdymor. Bydd y canolfannau hyn yn rhoi hwb i'r gwaith o ddod â GIG Cymru, y byd academaidd a diwydiant ynghyd i ddatblygu technolegau arloesol a gwasanaethau i wella canlyniadau i gleifion ac i gefnogi datblygu economaidd.

4.16 Rydym yn dyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol o £4.5m yn 2020-21 i barhau â'r buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr ystad gofal sylfaenol - rhan annatod o wasanaeth llesiant effeithiol. Byddwn yn ymchwilio i faint o sgôp sydd i gyflwyno cynigion pellach ar gyfer buddsoddi newydd.

4.17 Mae'r cyllid ychwanegol sydd bellach ar gael hefyd yn golygu y byddwn yn dyrannu £1.98m yn 2019-20 i adfer cyllid ar gyfer Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru gyfan. Mae'r rhaglen hon yn nodweddiadol o'n hagenda ataliol, gan

[10] https://gov.wales/topics/health/publications/healthier-wales/?lang=cy

ddarparu cymorth hanfodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, gan addysgu plant ar gamddefnyddio sylweddau a materion diogelwch personol ym mhob cam o'r cwricwlwm. Bydd y buddsoddiad hwn yn sicrhau y bydd arian cyfatebol o'r pedwar heddlu yn parhau ar y lefelau presennol.

*Llywodraeth Leol*

4.18 Mae llywodraeth leol ar flaen y gad o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, ymateb i anghenion lleol a helpu i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Mae'r awdurdodau lleol yn llunio ac yn darparu gwasanaethau lleol, gyda chanolbwynt ar anghenion pobl ym mhob cam o'u bywydau. Mae buddsoddi yn y gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt a buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf, neu waethygu ymhellach, yn rhan sylfaenol o'n nod ar gyfer llywodraeth leol gynaliadwy.

*Grant Cynnal Refeniw i'r awdurdodau lleol*

4.19 Pan gyhoeddwyd cynlluniau dangosol ar gyfer 2019-20, cydnabuwyd, er gwaethaf y mesurau yr oeddem wedi'u cymryd i amddiffyn llywodraeth leol rhag effaith lawn cyni, bod y setliad dangosol yn doriad ariannol mewn cyllid craidd ar adeg pan fo'r awdurdodau yn wynebu pwysau gwirioneddol, o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, cyflogau a phwysau eraill mewn perthynas â chwyddiant. Er gwaethaf y camau ychwanegol a gymerwyd yng Nghyllideb Derfynol 2018-19 i roi cyllid ychwanegol i Lywodraeth Leol o £60m dros ddwy flynedd, roedd llywodraeth leol yn dal i wynebu gostyngiad o 1% mewn arian parod yn 2019-20 o'i gymharu â 2018-19 (£43m).

4.20 Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym yn gwneud nifer o ddyraniadau ychwanegol trwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG), y mae rhai ohonynt yn ymwneud â'r costau ychwanegol y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu eleni - megis tâl athrawon a phrydau ysgol am ddim - sy'n golygu bod y gostyngiad dangosol mewn arian parod yn cael ei leihau. Mae dyraniadau ychwanegol trwy'r Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys:

- Swm ychwanegol o £23.5m dros ddwy flynedd £8.1m yn 2018-19 a £13.7m yn 2019-20) i gefnogi dyfarniad cyflog athrawon am y blynyddoedd meithrin hyd at flwyddyn 11. Mae hyn yn gyllid hanfodol i'n system addysg a bydd yn sicrhau ein bod yn gallu denu a chadw athrawon yng Nghymru a fydd, yn ei dro, yn cefnogi ein pobl ifanc i wireddu eu potensial. Ers 30ain o Fedi, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo’r cyfrifoldeb dros dâl ac amodau athrawon, ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2019-20 ymlaen. Caiff y cyllid ar gyfer 2018-19 ei gyfeirio trwy grant penodol i'r awdurdodau lleol tra caiff y cyllid ar gyfer 2019-20 ei ddyrannu trwy'r RSG.

- Mae cyflwyno'r Credyd Cynhwysol wedi cael effaith ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Daeth ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y meini prawf cymhwysedd diwygiedig i ben ar

14 Medi. Nid yw Llywodraeth y DU wedi trefnu bod cyllid ychwanegol ar gael i reoli effaith ei hagenda diwygio lles ar brydau ysgol am ddim. Yn unol â'r cynigion yn ein hymgynghoriad, rydym yn rhoi £7m yn ychwanegol i'r awdurdodau lleol am brydau ysgol am ddim yn 2019-20, ar sail y rhagolygon diweddaraf. Byddwn hefyd yn darparu cyllid ychwanegol o £4m i'r awdurdodau lleol yn 2018-19 ar gyfer prydau ysgol am ddim trwy gynllun grant. Bydd hyn yn cefnogi'r awdurdodau lleol wrth fodloni'r costau sy'n gysylltiedig â'r trothwy arfaethedig a'r mesurau diogelu trosiannol. Mae'r dull gweithredu hwn yn hollol wahanol i'r dull gweithredu yn Lloegr, lle mae'r Adran Addysg wedi gorfod dod o hyd i'r adnoddau ychwanegol o fewn ei chyllideb ei hun.

- I gydnabod y rôl bwysig sydd gan yr awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol craidd a'r dull gweithredu ataliol sydd wrth wraidd cyflenwi, i helpu i liniaru'r pwysau rydym yn buddsoddi £20m trwy'r RSG yn 2019-20. Ynghyd â'r cyllid wedi'i dargedu o £30m ar gyfer gofal cymdeithasol yn unol â *Cymru Iachach*, mae hyn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad ychwanegol mewn gofal cymdeithasol yn 2019-20 i £50m, o'i gymharu â'r cynlluniau a gyhoeddwyd gynt ar gyfer y flwyddyn .

*Cyllid arall i'r awdurdodau lleol*

4.21 Er mai'r RSG heb ei neilltuo yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf sydd ar gael i lywodraeth leol oddi wrth Lywodraeth Cymru nid dyma'r unig ffynhonnell. Mae llywodraeth leol yn elwa ar ffynonellau ariannu eraill, gan gynnwys grantiau penodol a ffrydiau ariannu oddi wrth adrannau Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol.

4.22 Adlewyrchir pwysigrwydd addysg i'r llywodraeth hon gyda swm ychwanegol o £15m, a ddyrennir trwy'r MEG Addysg, i ysgolion. Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn codi safonau ysgolion a chwalu rhwystrau dysgu i gefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial.

4.23 Rydym yn dyrannu cyllid tuag at gefnogi dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2019-20. Ar ôl gwrando ar safbwyntiau'r rhai y mae ein penderfyniad y llynedd i leihau'r Grant Gwella Addysg i flaenoriaethu cyllid i lywodraeth leol wedi effeithio arnynt, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror y byddai'r cyllid ychwanegol o £8.7m ar gael yn 2018-19. Yn y Gyllideb ddrafft hon, rydym yn darparu swm ychwanegol o £8.7m yn 2019-20 i gadw cyllid ar lefelau 2018-19 er mwyn cefnogi llywodraeth leol i symud at fodel ariannu mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

4.24 Rydym yn dyrannu cyfanswm o £13.4m i adfer toriadau a gynlluniwyd gynt i'r rhaglenni sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth trwy ddefnyddio £5m a glustnodwyd gynt ar gyfer y cynnig gofal plant, a dyrannu £8.4m yn ychwanegol. Rydym wedi cytuno i symud at drefniant grant tai a grant heb fod yn dai i gynnig sefydlogrwydd i'r sector tai, gan gadw'r ymrwymiad yr un pryd tuag at alinio ac integreiddio.

4.25 Rydym yn dyrannu swm ychwanegol o £3.554m yn y Gyllideb ddrafft hon i gynnal ac ehangu ymhellach y Grant Datblygu Disgyblion newydd – cronfa Mynediad, sy'n darparu cymorth hanfodol i rieni a theuluoedd ledled Cymru i helpu i dalu rhai o'r costau bob dydd sy'n gysylltiedig â'r ysgol - megis cost gwisg ysgol, gwisg chwaraeon neu offer ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. Mae'r gronfa'n agwedd allweddol ar ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi plant ac anfantais a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfle i wireddu eu llawn botensial ym myd addysg a'r tu hwnt.

4.26 Er mwyn adfer y cyllid i chweched dosbarth mewn ysgolion i lefelau 2018-19, rydym yn dyrannu £9.827m yn ychwanegol drwy gyfuniad o gyllid canolog a thrwy ddefnyddio cyllid Ffyniant i Bawb a ddyrannwyd i'r MEG Addysg yng Nghyllideb derfynol 2018-19.

4.27 O ganlyniad i'r penderfyniadau buddsoddi hyn, bydd yr awdurdodau lleol yn elwa'n uniongyrchol ar fwy na £84m o gyllid refeniw ychwanegol yn 2019-20 ar draws ystod o bortffolios y llywodraeth. Ceir dadansoddiad yn nhabl 4.1 isod.

**Tabl 4.1 : Newidiadau cyllido llywodraeth leol heb gynnwys RSG**

| **Gweithgarwch** | **MEG** | **£'000oedd** |
|---|---|---|
| Gofal cymdeithasol | Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol | 30,000 |
| Ysgolion | Addysg | 15,000 |
| Grant ymyrryd yn gynnar, atal problemau a chymorth | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 13,400 |
| Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Addysg | 8,700 |
| PDG – Cronfa fynediad | Addysg | 3,554 |
| Gwastraff | Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,800 |
| Chweched Dosbarth Ysgolion | Addysg | 9,827 |
| Tâl athrawon blynyddoedd 12 a 13 | Addysg | 1,074 |

*Buddsoddi cyfalaf sy'n cefnogi darparu gwasanaethau lleol*

4.28 Gan adeiladu ar y buddsoddiad o £30m i'r awdurdodau lleol yn 2017-18 i gynnal a chadw ac atal dirywiad y rhwydwaith ffyrdd lleol, rydym yn darparu cyfalaf pellach o £60m dros dair blynedd £20m ym mhob un o 2018-19, 2019-20 a 2020-21) i gefnogi rhaglen gan lywodraeth leol i ailwampio ffyrdd. Byddwn hefyd yn buddsoddi cyfalaf ychwanegol o £78m dros dair blynedd (£26m ym mhob un o'r blynyddoedd 2018-19, 2019-20 a 2020-21) i gefnogi'r Gronfa Trafnidiaeth Leol. Bydd hyn yn cefnogi gwell cysylltiadau trafnidiaeth, cysylltu pobl, cymunedau, busnesau a gwasanaethau i ysgogi ffyniant.

4.29 Mae'r Gyllideb Ddrafft yn darparu cyfalaf ychwanegol o £50m dros ddwy flynedd (£20m yn 2019-20 a £30m yn 2020-21), fel y cyhoeddwyd ym mis

Mai, i gefnogi'r Gronfa Teithio Llesol. Rydym yn gwybod bod cynnwys ymarfer corff yn ein bywyd bob dydd yn cael manteision pellgyrhaeddol. Mae'n cyfrannu at ein dull gweithredu ataliol gyda'r buddion mewn iechyd a llesiant, lleihau pwysau ar y system iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd â buddion wrth leihau llygredd aer. Bydd y cynlluniau teithio llesol yn cysylltu ardaloedd preswyl â safleoedd cyflogaeth ac addysg allweddol a gwasanaethau, gan alluogi llawer mwy o deithiau bob dydd i gael eu gwneud trwy gerdded a beicio.

4.30 Mae gennym hanes blaenorol cryf o gynyddu cyfraddau ailgylchu ledled Cymru ac rydym yn buddsoddi £4.5m yn 2019-20 a £4.5m yn 2020-21 i helpu Cymru i ymateb her strategaeth dim gwastraff. Rydym hefyd yn dyrannu £8m yn 2019-20 ac £8m yn 2020-21 i ariannu'r rhaglen newid gydweithredol. Mae hynny'n golygu £25m o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol ar gyfer ailgylchu gwastraff a newid cydweithredol i gefnogi ein rhaglen ddatgarboneiddio a chefnogi ymrwymiad Ffyniant i Bawb i symud tuag at economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau.

4.31 Gyda'i gilydd bydd y dyraniadau yr ydym yn eu gwneud yn y Gyllideb ddrafft hon trwy'r RSG a thrwy ffrydiau ariannu eraill yn arwain at setliad gwell i lywodraeth leol yn 2019-20 at ei gilydd na'r cynlluniau a gyhoeddwyd gynt. Caiff manylion pellach am setliad dros dro llywodraeth leol ar gyfer 2019-20 eu cyhoeddi ar 9 Hydref.

### *Cefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed*

4.32 Byddwn yn darparu £2m yn ychwanegol yn 2019-20 i fodloni'r galw cynyddol ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r gronfa yn cynnig taliadau, neu gymorth mewn nwyddau, i ddarparu cymorth brys i bobl lle nodwyd bod angen diogelu iechyd a llesiant.

4.33 Ynghyd â'r cyllid ychwanegol yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer prydau ysgol am ddim ac i barhau â PDG – Cronfa fynediad, a'i hestyn, rydym yn darparu mwy na £12.5m yn 2019-20 ar gyfer pecyn o fesurau sydd wedi'u targedu'n benodol i helpu rhai o'r bobl dlotaf yn ein cymunedau, gan gynnwys plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.

### *Cefnogi ein busnes a chymunedau trwy ansicrwydd Brexit*

4.34 Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi11 yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer ein gwaith gyda busnes. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r contract economaidd, y meysydd gweithredu a chronfa dyfodol yr economi - mae pob un wedi'i dylunio i ysgogi twf cynhwysol, diogelu busnes a'r economi at y dyfodol, a chyflenwi buddsoddiad cyhoeddus gyda diben cymdeithasol.

4.35 Trwy Gronfa Bontio'r UE, sy'n werth £50m, rydym yn cymryd camau penodol i helpu busnesau a sefydliadau o Gymru i baratoi ar gyfer Brexit. Lle y

[11] https://gov.wales/topics/businessandeconomy/economic-action-plan/?lang=cy

cytunwyd ar gynigion ar gyfer prosiectau pontio'r UE fel rhan o'r don gyntaf o fuddsoddi, rydym wedi dyrannu cyllid o gronfeydd wrth gefn yn 2019-20 i'r MEGs perthnasol. Mae hyn yn cynnwys £3.5m o gymorth i brifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol ac i hyrwyddo Cymru fel man astudio ar ôl Brexit a mwy na £6m ar gyfer cymorth i fusnesau i baratoi ar gyfer Brexit.

4.36 Bydd cyllid ar gyfer y cam nesaf o brosiectau'n cael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn nes y cytunir ar broffiliau'r costau, gan ddisgwyl y gwneir dyraniadau yn y Gyllideb Derfynol. Yn ogystal â chymorth i sefydliadau a busnesau i helpu i baratoi ar gyfer Brexit, mae £11m yn cael ei glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer gofynion staffio Llywodraeth Cymru nes y cadarnheir y swm canlyniadol a ragwelir ar gyfer 2019-20 mewn perthynas â chyhoeddiad Llywodraeth y DU o £3bn ar gyfer Brexit dros ddwy flynedd.

4.37 Rydym yn buddsoddi £3m yn 2019-20, fel rhan o becyn o £5m y cytunwyd arno â Phlaid Cymru yng nghytundeb y gyllideb ar gyfer y llynedd i gefnogi parodrwydd ar gyfer Brexit, gan gynnwys cyllid ar gyfer Porthol Busnes Brexit, pecyn cymorth i ddarparu cyngor a chanllawiau i fentrau bach a chanolig eu maint ynghylch sut y gallant baratoi ar gyfer Brexit.

4.38 Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer ymadael â'r UE, rydym hefyd yn ymgynghori ar ddau gynllun mawr a hyblyg i ddisodli Cynllun y Taliad Sylfaenol a Glastir a rhannau eraill o'r Rhaglen Datblygu Gwledig:

- Bydd y Cynllun Cadernid Economaidd yn targedu buddsoddiad at reolwyr tir a'u cadwyni cyflenwi. Bydd yn darparu buddsoddiad i gynyddu cystadleurwydd ac i wneud gwelliannau mewn cadernid a chynhyrchiant ar gyfer cynhyrchu bwyd o ansawdd uchel.

- Bydd y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn darparu ffrwd incwm newydd i reolwyr tir sy'n cyflenwi nwyddau cyhoeddus o'r tir. Bydd yn eu galluogi i helpu i fynd i'r afael â heriau megis lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd, ansawdd aer a dŵr gwael.

4.39 Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ymrwymo 100% o gyllid presennol yr UE sydd ar gael i Gymru. Ar ddiwedd Awst 2018, roeddem wedi buddsoddi £1.673bn (81%) o'r dyraniad Cronfeydd Strwythurol o £2bn gan yrru cyfanswm dyraniad o fwy na £3bn (ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gynllunio o €1.17: £1). Rydym yn gwneud cynnydd da gyda rhaglenni cyllid eraill yr UE - dengys y data diweddaraf fod sefydliadau o Gymru wedi elwa ar €96m o gronfeydd Horizon 2020.

*Blaenoriaethau gwario eraill*

4.40 Yn wyneb cyni a chyfyngiadau parhaus ar wario cyhoeddus, mae ein ffocws parhaus ar flaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn golygu yn anochel bod rhai meysydd yn wynebu mwy o ostyngiadau nag eraill. Rydym wedi achub y cyfle cyfyngedig sydd gennym eleni i adfer cyllid mewn rhai meysydd i gydnabod pwysau ac effaith gostyngiadau.

4.41 Rydym yn dyrannu cyfanswm o £473,000 i awdurdodau'r parciau cenedlaethol a £700,000 i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan adlewyrchu pwysigrwydd gwarchod a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol i iechyd a llesiant y genedl. Rydym hefyd yn dyrannu cyf o £1.522m i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn, gan sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaethau cadarn i amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a chefnogi safonau addysgol.

## ***Ffyniant i Bawb* – meysydd blaenoriaeth**

4.42 Meysydd yw'r rhain lle y dangoswyd y gall ymyrryd yn gynnar a chydgysylltu ar draws gwasanaethau gael effaith sylweddol. Y chwe maes yw: y blynyddoedd cynnar; gofal cymdeithasol; gwell iechyd meddwl; cyflogadwyedd a sgiliau; a datgarboneiddio.

### *Y Blynyddoedd Cynnar*

4.43 Rydym am i blant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd. Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i wireddu eu llawn botensial a manteisio ar y cyfle i fyw bywyd iach a ffyniannus fel oedolyn, gan eu galluogi i chwarae rhan lawn yn eu cymunedau a chyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol.

4.44 Rydym yn gwneud cynnydd da wrth gyflenwi ein cynnig gofal plant. Ers inni bennu ein cynlluniau dangosol y llynedd, rydym wedi ehangu'r cynnig. Gall rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed mewn 14 o ardaloedd awdurdodau lleol gael mynediad i 30 awr o addysg gynnar a gofal plant sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth. Mae'r cynlluniau ar gyfer rhoi'r drefn hon ar waith yn llawn erbyn 2020 yn mynd rhagddynt yn dda. Caiff adroddiad gwerthuso'r flwyddyn gyntaf ei chyhoeddi yr hydref hwn ond mae adborth cynnar yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar helpu rhieni i gydbwyso gofynion gwaith a bywyd teuluol.

4.45 Gan mai rhaglen sy'n cael ei harwain gan y galw yw hon mae ein hamcanestyniad diweddaraf o'r nifer a fydd yn manteisio arni - amcanestyniad y byddwn yn parhau i'w fonitro - wedi ein galluogi i ail-flaenoriaethu cyllid i gefnogi ymyriadau ehangach ym maes y blynyddoedd cynnar. Y cyllid i gefnogi'r cynnig gofal plant yn y gyllideb ddrafft hon yw £40m yn 2019-20, sef gostyngiad o £5m ar gynlluniau a gyhoeddwyd gynt. Trwy ddefnyddio'r £5m a glustnodwyd gynt ar gyfer y cynnig gofal plant a dyrannu £8.4m yn ychwanegol, byddwn yn buddsoddi £13.4m i wrthbwyso toriadau a gynlluniwyd gynt i raglenni sy'n cefnogi ymyrryd yn gynnar, atal a chymorth. Mae meithrin cadernid ymhlith unigolion a chymunedau, trwy ymyrryd mor gynnar â phosibl i atal problemau rhag cynyddu, wrth wraidd nodau'r rhaglenni hyn. Am weddill tymor y Cynulliad rydym wedi cytuno i symud at drefniant grant tai a grant heb fod yn dai i gynnig sefydlogrwydd i'r sector tai, gan gadw'r ymrwymiad yr un pryd tuag at gysoni ac integreiddio.

4.46 Byddwn hefyd yn buddsoddi £10m yn 2019-20 trwy'r cyllid ar gyfer *Cymru Iachach* mewn cynlluniau atal a fydd yn cynnwys cymorth i'r blynyddoedd cynnar.

4.47 Mae ein buddsoddiad ychwanegol o £8.7m i ddysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ynghyd â chyllid o £7m i gefnogi cymhwyster estynedig ar gyfer prydau ysgol am a £3.554m ar gyfer PDG - Cronfa fynediad, yn cefnogi ein huchelgais i sicrhau bod gan blant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

*Tai*

4.48 Rydym am i bawb fyw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac sy'n eu helpu i fyw bywydau iach, llwyddiannus a ffyniannus. Cartrefi o ansawdd da yw conglfeini cymunedau da, ac maent yn rhoi sylfaen i unigolion a theuluoedd fedru ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau.

4.49 Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i darged uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Cynulliad hwn ac yn ôl y rhagolygon bydd yn bodloni'r targed hwn. I gynnal y momentwm hwn, rydym yn darparu cyfalaf ychwanegol o £35m yn 2019-20 i gefnogi'r Grant Tai Cymdeithasol.

4.50 Rydym hefyd yn parhau â'n cynlluniau a gyhoeddwyd gynt i ddarparu £20m yn ychwanegol i fynd i'r afael â digartrefedd yn 2019-20, gan gynnwys £10m yn benodol i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Rhan allweddol o hyn fydd hyrwyddo gwell arferion ar lefel leol i ymyrryd yn gynnar ac atal digartrefedd. Mae'r cyllid yn cael ei dargedu drwy gyllid ychwanegol yn yr RSG a thrwy gyllid uniongyrchol i brosiectau cenedlaethol a'r trydydd sector yng Nghymru - i gefnogi'r ardaloedd mwyaf anghenus.

4.51 Yn unol â'n cytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru rydym yn cynnal y lefelau cyllido ar gyfer Cefnogi Pobl. Gwnaed yr ymrwymiad hwn i gydnabod y cyfraniad y mae Cefnogi Pobl yn ei wneud ar draws ystod o amcanion polisi. Mae Cefnogi Pobl yn helpu 57,000 o bobl i gadw eu hannibyniaeth a tho dros eu pen gydag ystod o ymyriadau, o wasanaethau larwm i bobl eiddil o gymorth dwys un-i-un i bobl agored i niwed â phroblemau iechyd meddwl. Mae gwariant wedi cael ei gynnal am ei bod yn gwneud synnwyr i barhau i ariannu gwasanaethau atal sy'n lleihau'r baich ar rai o feysydd eraill gwariant cyhoeddus, megis iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynnal cartref sefydlog yn sylfaenol nid yn unig o ran ansawdd bywyd unigolion; mae hefyd yn darparu'r sylfaen i ymyriadau eraill gael llwyddo. Er enghraifft, trin camddefnyddio sylweddau, mynediad i ddysgu a gwaith, gofal cymdeithasol neu ddiogelwch cymunedol.

4.52 Ystyriaeth bwysig yn ein dull gweithredu o ran hybu datblygiadau tai newydd yw ein penderfyniad i geisio trosglwyddo pwerau o San Steffan i alluogi Cymru i gyflwyno treth ar dir gwag. Gallai treth ar dir gwag helpu i roi terfyn ar

yr arfer o ddal gafael ar dir sydd wedi'i nodi fel tir sy'n addas i'w ddatblygu ac fe allai ychwanegu at y cymhellion i hybu datblygu.

### *Gofal Cymdeithasol*

4.53 Mae gofal urddasol a thosturiol yn rhan hanfodol o gymunedau cryf, gan helpu pobl i aros yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hwy, ac mae'n sector economaidd pwysig ynddo'i hun.

4.54 Rydym yn darparu £50m yn y Gyllideb ddrafft i gefnogi gofal cymdeithasol – buddsoddiad wedi'i dargedu o £30m trwy'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £20m trwy'r RSG i lywodraeth leol.

4.55 Yn ogystal â'r cyllid a nodwyd ar gyfer gofal cymdeithasol, mae ein cynigion ar gyfer y gyllideb yn darparu ar gyfer cynnydd mewn cyllid i gyflenwi Cymru Iachach, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Gan adeiladu ar gynlluniau a gyhoeddwyd gynt i ddyrannu 100m dros ddwy flynedd (£50m ym mhob un o'r blynyddoedd 2018-19 a 2019-20) ar gyfer ein Cronfa Trawsnewid, byddwn bellach yn buddsoddi bron £250m yn 2019-20 i gefnogi *Cymru Iachach*.

4.56 Rydym yn dyrannu cyfalaf ychwanegol o £4.5m i gefnogi ein cynlluniau i ddarparu 19 o ganolfannau iechyd a gofal integredig. Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid a gadarnhawyd gynt ar gyfer Canolfan Gofal Integredig Aberteifi, a oedd yn rhan o'r cytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb Byddwn yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gyflwyno buddsoddiadau pellach, a fydd yn dod â gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol ynghyd o dan un to.

4.57 Gan fod y boblogaeth yn heneiddio, mae'r galw am ofal cymdeithasol yn cynyddu, ynghyd â'r gost o'i ddarparu. Nid yw'r her o dalu am ofal wedi'i datrys ar lefel y DU, ac mae trethi yn un ymateb posibl. Byddwn yn parhau i weithio drwy gydol tymor presennol y Cynulliad i weld a fyddai modd defnyddio ardoll gofal cymdeithasol penodedig i gyllido gofal cymdeithasol yn y tymor hir yma yng Nghymru.

### *Gwell iechyd meddwl*

4.58 Bydd problemau iechyd meddwl yn effeithio ar un o bob pedwar o bobl Cymru ar ryw adeg yn ystod eu bywydau. Mewn nifer o'r achosion gall cael y driniaeth gywir yn y dyddiau cynnar, ynghyd â chodi mwy o ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, atal effeithiau niweidiol yn y tymor hir.

4.59 Rydym yn cynnal ein hymrwymiad fel rhan o'r cytundeb dwy flynedd gyda Phaid Cymru ar y Gyllideb i ddarparu £20m yn ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

4.60 Rydym hefyd yn sicrhau bod £2.5m yn ychwanegol ar gael yn 2019-20 drwy'r MEG Addysg wedi'i dargedu'n benodol at wella gwasanaethau iechyd meddwl

i bobl ifanc.  Yn sail i'r ddarpariaeth hon bydd y dull o ddefnyddio addysgeg ar gyfer gwaith ieuenctid, sydd â'r nod o gefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc, ac mae mewn sefyllfa dda i helpu i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant sy'n codi. Bydd yn rhan o'n dull strategol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i ddatblygu ar y cyd gyda phobl ifanc a'r sector drwy ein Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim.

4.61 O ran yr arian ychwanegol ar gyfer rhaglen *Cymru Iachach*, bydd £15m yn cael ei roi i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gan gynnwys cyllid ar gyfer rhaglenni mewn ysgolion, cymorth iechyd meddwl cofleidiol i'r digartref a gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

4.62 Felly yn y Gyllideb ddrafft hon ceir cyfanswm o £37.5m yn ychwanegol i gefnogi gwell iechyd meddwl.

4.63 Bydd creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd fel rhan o'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De – *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*[12]– yn helpu i wella mynediad at yr amgylchedd naturiol. Mae creu cymunedau iachach ac amgylcheddau gwell gan hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb ar yr un pryd wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer y Cymoedd. Dyrannwyd cyllid cyfalaf gwerth £7m (£3.5m yn 2019-20 a £3.5m yn 2020-21) er mwyn sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

### *Sgiliau a Chyflogadwyedd*

4.64 Rydym yn awyddus i'n heconomi fod yn un sy'n seiliedig ar sgiliau o ansawdd uchel, sy'n darparu'r adnoddau y mae eu hangen ar fusnesau i dyfu ac i arloesi, ac sy'n galluogi pobl i ffynnu.  Dylai pob unigolyn feddu ar sgiliau y mae eu hangen arno i ddod o hyd i swydd, a dylai gael y cyfle i feithrin sgiliau newydd drwy gydol ei fywyd gwaith.

4.65 Rôl hollbwysig llywodraeth yw cael gwared ar y rhwystrau y mae llawer yn eu hwynebu wrth gael swydd ac wrth gadw'r swydd honno. Rydym yn gwybod bod cyflogaeth ddiogel yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd unigolion a'u llesiant economaidd. Sgiliau yw un o'r prif rwystrau rhag cyflogaeth. Mae'r cynllun gweithredu newydd ar gyflogadwyedd, a gyhoeddwyd yn yr hydref, yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a busnesau ledled Cymru.

4.66 Rydym wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oedran dros dymor presennol y Cynulliad. Byddwn yn buddsoddi £115m yn 2019-20 er mwyn parhau i ddarparu'r ymrwymiad hwn.

4.67 Yn unol â'n cytundeb dwy flynedd a wnaed y llynedd gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb, rydym yn parhau i ddarparu £20m yn ychwanegol yn ystod 2019-20

---

[12] https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/170720-our-valleys-our-future-cyv2.pdf

ar gyfer addysg bellach ac uwch. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw addysg bellach er mwyn helpu i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn gweithio nac yn dilyn cwrs addysg na hyfforddiant, ac er mwyn creu system addysg uwch lewyrchus ac arloesol a fydd yn helpu i adeiladu economi Cymru ac arfogi pobl â sgiliau o'r radd flaenaf.

4.68 Mae sgiliau da yn helpu busnesau i dyfu ac arloesi, felly mae angen iddynt fedru cyflogi gweithwyr sydd â'r sgiliau cywir. Yn y gorffennol mae'r cynlluniau a gyhoeddwyd gennym wedi cynnwys cyllid cyfalaf gwerth £10m dros ddwy flynedd er mwyn i sefydliadau addysg bellach ei fuddsoddi mewn cyfarpar hyfforddi o safon y diwydiant i sicrhau bod yr hyfforddiant yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn bodloni anghenion cyflogwyr lleol.

4.69 Ym mis Mai fe wnaethom gyhoeddi dyraniad cyfalaf gwerth £31.5m dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer cam 2 mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf. Wrth gael mynediad i fand eang cyflym a dibynadwy, mae mwy o bobl yn gallu gweithio gartref ac mae modd cynnal mwy o fusnes drwy ddefnyddio technoleg yn hytrach na chyfarfod wyneb yn wyneb, gan leihau'r angen i deithio ac allyriadau carbon.

4.70 Mae cynllun y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn enghraifft o weithio trawslywodraethol er mwyn cyfeirio cyllid i gefnogi dull strategol o weithredu i adfywio cymunedau'r Cymoedd. Un elfen amlwg o'r cynllun yw cryfhau'r saith canolbwynt strategol er mwyn ysgogi ffyniant a chreu cyfleoedd cyflogi. Mae cyllid cyfalaf gwerth £25m (£9m yn 2019-20 a £16m yn 2020-21) yn cael ei ddyrannu i ardaloedd penodol ar draws y Cymoedd.

## Datgarboneiddio

4.71 Mae datgarboneiddio yn gwarchod ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a byddant yn cyflawni cyfleoedd economaidd, swyddi o ansawdd gwell, cartrefi mwy cyfforddus ac effeithlon a gwelliannau i'n hiechyd a'n llesiant.

4.72 Rydym yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer ailgylchu gwastraff a newid cydweithredol i gefnogi'n rhaglen ddatgarboneiddio a chefnogi'n hymrwymiad yn *Ffyniant i Bawb* i symud tuag at economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau. Rydym yn dyrannu refeniw ychwanegol gwerth £4.3m yn 2019-20 ar gyfer y rhaglen wastraff a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau er mwyn cynnal effeithlonrwydd adnoddau a datblygu'r economi gylchol. Ar y cyd â'r cyfalaf gwerth £25m dros y ddwy flynedd nesaf (£12.5m yn 2019-20 a £12.5m yn 2020-21) i ariannu'r rhaglen newid gydweithredol a'r rhaglen caffael gwastraff, mae hyn yn rhoi buddsoddiad o fwy na £29m yn y Gyllideb ddrafft hon i gefnogi datgarboneiddio.

4.73 Mae troseddau gwastraff yn fygythiad difrifol i'r amgylchedd, gan halogi tiroedd ac afonydd gydag olew a chemegion gwenwynig. Gall safleoedd gwastraff anghyfreithlon hefyd fod yn beryglus i iechyd pobl a difetha

cymunedau, gan fygwth ansawdd yr aer gyda mygdarth gwenwynig o ganlyniad i losgi deunyddiau'n anghyfreithlon ac achosi problemau o ran sŵn ac arogl oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud ger cartrefi ac ysgolion. Byddwn yn dyrannu £296,000 yn ystod 2019-20 er mwyn mynd i'r afael â throseddau gwastraff. Bydd y cyllid hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflogi swyddogion penodedig sydd â sgiliau penodol i ymyrryd yn gynnar ac yn gadarn ar safleoedd anghyfreithlon. Bydd hefyd yn caniatáu i ddulliau gorfodi newydd gael eu defnyddio, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer atal mynediad i safleoedd sydd mewn perygl.

4.74 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd ehangach i iechyd a llesiant da. Rydym yn darparu dyraniadau ychwanegol i gefnogi ansawdd aer. Bydd cyllid cyfalaf gwerth £6.475m yn 2019-20 a £2.815m yn 2020-21 yn cefnogi'n huchelgais wella ansawdd yr aer yng Nghymru.

4.75 Byddwn yn buddsoddi £2m mewn pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan dros gyfnod o ddwy flynedd (£1m yn 2018-19 ac £1m yn 2019-20), fel y nodwyd yn y cytundeb dwy flynedd gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb. Bydd y cyllid hwn yn sefydlu rhwydwaith gwefru cenedlaethol sy'n cynnwys yn bennaf pwyntiau gwefru cyflym ledled Cymru a fydd yn helpu i gynyddu nifer y ceir trydan ar y ffordd ac yn sicrhau bod pobl yn gallu teithio'n bellach mewn ceir trydan.

4.76 Roedd effaith y cynigion buddsoddi o ran carbon yn ystyriaeth allweddol wrth i ni ystyried sut i ddyrannu cyllid cyfalaf ar adeg cyhoeddi adolygiad canol cyfnod y *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* ym mis Mai. Roedd y buddsoddiadau a gadarnhawyd yn cynnwys:

- £60m dros gyfnod o dair blynedd i gyflymu'r gwaith o greu llwybrau teithio llesol er mwyn cysylltu ardaloedd preswyl â safleoedd a gwasanaethau allweddol o ran gwaith ac addysg, gan gefnogi'n hymdrechion i leihau allyriadau carbon a gwella ansawdd aer;
- £60m dros dair blynedd ar gyfer rhaglen gyfalaf i Gymru gyfan y GIG, gan gynnwys cefnogi'r prosiect i gael cerbydau mwy modern sy'n cynhyrchu llai o garbon, yn lle'r fflyd ambiwlansys presennol;
- £25m dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y rhaglen Cymoedd Technoleg yng Nghymoedd y De – rhaglen lle mae twf, gwaith teg a datgarboneiddio yn ganolog i ddatblygiad economaidd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

4.77 Cafodd cyfres o weithdai ei chynllunio a'i darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a WWF Cymru, sy'n rhan o brif sefydliad cadwraeth annibynnol y byd. Yn y gweithdai tynnwyd ynghyd uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch gynrychiolwyr o'r trydydd sector a sefydliadau anllywodraethol. Nodwyd meysydd allweddol ar gyfer cynnydd, gan gynnwys caffael, meithrin a datblygu gallu ac ystod o ffactorau eraill, sy'n allweddol o ran sut y gellir mynd ati i sicrhau bod llywodraeth gyfan yn newid mewn ymateb i'r Ddeddf. Mae adroddiad yn cael ei lunio ar hyn o bryd a fydd yn cynnwys canlyniadau'r gweithdai hyn er mwyn bod yn sail i gamau gweithredu'r dyfodol.

4.78 Y llynedd, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ganolbwyntio ar dri maes penodol wrth baratoi'r gyllideb - cyllidebu cyfranogol, datgarboneiddio a chaffael. Mae'r meysydd hyn yn cynnig cyfleoedd i feddwl yn wahanol am y ffordd yr ydym yn defnyddio'n hadnoddau i gefnogi blaenoriaethau. Mae'r astudiaethau achos yn tynnu sylw at sut y cyflawnwyd hyn drwy weithgareddau penodol.

***Cyllidebu cyfranogol***

4.79 Rydym yn sylweddoli bod y gyllideb yn gallu bod yn gymhleth a bod angen i ni wneud mwy i wella dealltwriaeth gyffredinol pobl o'r gyllideb a'r broses sy'n sail iddi. Rydym yn ymgysylltu â grwpiau gwahanol, pan ddaw cyfle, er mwyn codi ymwybyddiaeth am broses y gyllideb. Rydym wedi ehangu'n dulliau cyfathrebu digidol, gan gynnwys datblygu efelychydd y gyllideb a ddatblygwyd i ddechrau fel rhan o gytundeb 2016 gyda Phlaid Cymru ar y Gyllideb.

4.80 Ar draws y Llywodraeth, mae gennym sawl rhaglen lle mae cymunedau a grwpiau'n cael eu cynnwys er mwyn trafod a phenderfynu ar sut y dylai cyllid y llywodraeth gael ei flaenoriaethu a'i ddyrannu. Mae'r dull cyllidebu cyfranogol o weithredu yn grymuso cymunedau i ddylanwadu'n uniongyrchol ar sut y caiff arian ei wario yn eu hardal leol, gan sicrhau bod penderfyniadau gwell yn cael eu gwneud a bod adnoddau'n cael eu targedu'n fwy effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

4.81 Mae dull gweithredu o'r fath yn ganolog i waith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ac yn cynnig amryfal gyfleoedd i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau o ran buddsoddi.

**Astudiaeth Achos: Ymgysylltu gan y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De**

Mae grymuso pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De yn hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant hirdymor y cynllun *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* i gyflawni newid gwirioneddol a hirdymor ar draws y rhanbarth. Roedd y tasglu'n glir bod yn rhaid i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd gael llais sy'n cael ei glywed a'i ddeall a bod rhywun yn ymateb i'r llais hwnnw.

Datblygwyd y cynlluniau gweithredu a chyflawni ar ôl ymgysylltu'n helaeth gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd ac ar ôl cael eu hadborth. Mae'r ymgysylltu wedi parhau wrth i'r cynllun esblygu. Mae gwaith ymgysylltu wedi amrywio o arolwg ar-lein i gyfarfodydd cyhoeddus, grwpiau ffocws a gweithdai gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Datblygu'r cynllun oedd cychwyn y trafodaethau parhaus gyda chymunedau'r Cymoedd i lunio'r gwaith a chanolbwyntio'n hymdrechion ar yr ardaloedd a'r blaenoriaethau sydd bwysicaf i'r bobl sy'n byw yn y Cymoedd.

Defnyddiwyd y gwaith ymgysylltu hwn i nodi heriau a chyfleoedd gan gynnwys sut i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus yn well, blaenoriaethu gwariant a buddsoddi mewn mentrau uchelgeisiol newydd, gan gynnwys datblygu canolbwyntiau strategol a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

O ganlyniad sefydlwyd rhwydwaith cyfathrebu ac ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd, gyda dros 250 o aelodau o sefydliadau ledled y Cymoedd. Caiff datblygiadau'r Tasglu eu trafod yn rheolaidd gyda'r grŵp er mwyn craffu arnynt a'u cefnogi. Sefydlwyd grŵp cyflenwi o randdeiliaid, a fu'n craffu ar y cynigion ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd ac sydd wedi chwarae rhan amlwg yn y gwaith o ddatblygu'r cysyniad.

Yn ddiweddar, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gyfweliad byw ar gyfer Facebook, gan ateb cwestiynau oddi wrth y cyhoedd. Edrychwyd ar y cyfweliad fwy na 17,000 o weithiau yn ystod mis Gorffennaf.

4.82 Mae mentrau eraill lle defnyddiwyd dulliau ymgysylltu yn helaeth yn cynnwys y rhaglen grant cyfalaf Cyfleusterau Cymunedol. Un o'r gofynion sylfaenol yw bod y gymuned leol yn cael ei chynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig cyllido a'i bod yn parhau wedi hynny i fod yn rhan o'r gwaith o weithredu'r cyfleuster cymunedol.

4.83 Rydym hefyd wedi estyn y gefnogaeth i Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru gyda buddsoddiad gwerth £210,000 yn 2018-19 a 2019-20. Un o'r ystyriaethau allweddol i'r Ardaloedd Gwella Busnes yw i fusnesau benderfynu ar y trywydd i'r ardal leol ar gyfer y dyfodol a phenderfynu ar ba bethau i roi blaenoriaeth iddynt. O ganlyniad, mae busnesau, masnachwyr lleol, siopwyr a phreswylwyr, ymhlith eraill, wedi bod yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar y gwelliannau i'w gwneud i ganol trefi a dinasoedd.

4.84 Byddwn yn parhau i gydweithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a phartneriaid trydydd sector i edrych ar gyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu yn yr hirdymor ac i fwrw cyllidebu cyfranogol ymlaen ar draws rhagor o raglenni'r llywodraeth.

***Datgarboneiddio***

4.85 Mae datgarboneiddio yn rhan annatod o *Ffyniant i Bawb* ac wedi'i nodi fel maes â blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae wrth wraidd y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, sy'n pennu contract newydd ar gyfer cefnogi busnes. Bydd hyn yn help i anfon y signalau cywir i sicrhau bod Cymru'n rhoi ei hunan yn y lle gorau i gael y buddiannau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol mwyaf y gall datgarboneiddio eu cynnig.

4.86 Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Datgarboneiddio a strwythur llywodraethu trawslywodraethol er mwyn cefnogi'r gwaith hwn. Mae'r grŵp yn llywio'r gwaith o wella a datblygu camau datgarboneiddio trawslywodraethol er mwyn cyflawni'n cyllidebau carbon. Fel rhan o'r gwaith hwn, cytunwyd y bydd y cylch cyllidebu carbon yn cyd-fynd â chylch y gyllideb. Bydd hyn yn helpu ac

yn cefnogi Ysgrifenyddion y Cabinet a’r Gweinidogion i ystyried goblygiadau polisïau ac ymyraethau datgarboneiddio ar y gyllideb.

4.87 Bydd y ffordd hon o weithio yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r canlyniadau i'w cyflawni drwy'r cynllun carbon trawslywodraethol ynghyd â dealltwriaeth well o ganlyniadau ariannol y polisïau sy'n cael eu hystyried. Bydd eglurder ynghylch effaith ariannol datgarboneiddio yn helpu i flaenoriaethu'r camau y gellir eu cyflawni gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

4.88 Er mwyn cyrraedd y targed deddfwriaethol o gyflawni lleihad o o leiaf 80% mewn allyriadau erbyn 2050, fel y nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio rhaglen datgarboneiddio. Er mwyn cyrraedd ein targedau o ran datgarboneiddio, mae'n rhaid i ni droi yn economi carbon isel. Bydd hyn yn creu cyfleoedd o ran twf gwyrdd, swyddi newydd o ansawdd a darparu manteision ehangach, gan gynnwys mannau gwell i fyw a gweithio; aer a dŵr glân a chanlyniadau gwell o ran iechyd. Byddwn yn ceisio buddsoddi mewn rhaglenni carbon isel ac yn cymryd camau i sicrhau bod y penderfyniadau rydym yn eu gwneud nawr ynghylch ein seilwaith hirdymor yn cefnogi'n fframwaith o ran lleihau allyriadau.

4.89 Mae cydweithio a chynnwys wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith drwy gydol y broses. Mae’r rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'n sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth o'r cyd-destun Cymreig, ac mae hynny wedi llywio'n penderfyniadau o amgylch ein fframwaith deddfwriaethol. Mae'n rhanddeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant, busnes, y trydydd sector, y sector cyhoeddus, y byd academaidd a'r gymdeithas sifil.

4.90 Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwreiddio'r ffyrdd o weithio a'n hymrwymiadau llesiant ehangach yn ein rhaglen datgarboneiddio ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd. Mae'r Comisiynydd wedi nodi newid hinsawdd fel un o'i blaenoriaethau allweddol a byddwn yn cydweithio er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda bwysig hon gan gynnwys sicrhau bod y cylch cyllidebu carbon yn cyd-fynd â chylch y gyllideb ariannol ac o ran sut yr ydym yn caffael nwyddau a gwasanaethau.

4.91 Rydym eisiau sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle i ddweud wrthym am effaith unrhyw gamau arfaethedig yn y dyfodol i fynd i'r adael â newid hinsawdd arnynt a’r rhesymau dros hynny. Mae rhai o'r syniadau hyn yn deillio o’r gwaith y mae’r rhanddeiliaid wedi bod yn rhan ohono.

**Astudiaeth Achos: Cynnwys pobl ifanc mewn unrhyw gamau gweithredu o ran datgarboneiddio**

Caiff y newid yn yr hinsawdd ei gydnabod fel y bygythiad mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Ar draws y byd, y plant fydd yn dioddef fwyaf o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd oherwydd bod mwy o risg o ddioddef problemau iechyd, diffyg maeth ac effeithiau ymfudo. Er mwyn i Gymru fod yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, mae'n bwysig ein bod yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth inni fwrw ymlaen â chamau datgarboneiddio yng Nghymru.

Yn ogystal â'n cyfrifoldebau i genedlaethau'r dyfodol, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rydym am i blant gael addysg sy'n eu helpu i ddeall y problemau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Hynny er mwyn iddynt allu defnyddio'r wybodaeth yn eu bywyd pob dydd a buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer economi carbon isel.

Drwy godi ymwybyddiaeth am faterion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a chynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu polisi, rydym yn nodi ac yn datrys materion a phroblemau er mwyn eu hatal rhag gwaethygu.

Y cam cyntaf, oedd lansio cystadleuaeth fideo i blant 8 i 11 oed, drwy ddefnyddio'r rhwydwaith Eco-ysgolion, gan ofyn iddynt sut fath o le fydd yng Nghymru yn 2050. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar y cyd gyda Chadwch Gymru'n Daclus.

Cynlluniwyd y gystadleuaeth i godi ymwybyddiaeth o ddatgarboneiddio mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb y bobl ifanc, gan eu cynnwys yn y gwaith o ddod o hyd i atebion o ran datgarboneiddio a buddsoddi mewn mentrau carbon isel mewn ysgolion drwy'r gronfa wobrau, a oedd yn hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni pellach.

Yn eu fideos, anogwyd disgyblion i siarad am eu syniadau ynghylch sut gall Cymru sicrhau ynni, aer a dŵr glanach, bwyd iachach a llai o lygredd. Roedd yr ymatebion i'r gystadleuaeth yn cynnwys defnyddio papur fel tanwydd i gynhyrchu trydan a rhoi planhigion a choed mewn adeiladau cynaliadwy i ddal carbon. Roedd y gystadleuaeth yn llwyddiant o ran creu sgiliau newydd a chodi ymwybyddiaeth am ddatgarboneiddio.

Cafodd Ysgol Gynradd y Gaer, yng Nghasnewydd, sef yr ysgol fuddugol wobr gwerth £1,000 a chafodd y ddwy ysgol a oedd yn agos i'r brig, sef Ysgol Gynradd Fochriw, Bargoed ac Ysgol Gynradd Sandfields, Port Talbot wobrau gwerth hyd at £500 yr un. Bydd y gwobrau yn cael eu defnyddio i ariannu prosiectau datgarboneiddio yn yr ysgolion a bydd gwaith y plant yn cael ei hyrwyddo ar wefannau, cyhoeddiadau a sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus.

Er mwyn parhau i gydweithredu gyda phobl ifanc a'u cynnwys ar ddechrau'r gwaith o ddatblygu ein camau gweithredu ar ddatgarboneiddio, rydym wedi llunio dogfen ymgynghori sy'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, sydd â chwestiynau sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar eu cyfer. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar gamau gweithredu hyd at 2030. Wrth ystyried yr effaith a thrwy ymgysylltu gyda phobl ifanc nawr o ran ein targedau hirdymor ar gyfer 2030 a 2050, rydym yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fynegi barn am y wlad y byddant yn dod yn oedolion ynddi.

### *Caffael*

4.92 Mae'r newidiadau a ddaw o ganlyniad i Brexit yn golygu bod angen mynd ati i gaffael mewn ffordd wahanol.

4.93 Er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn, rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector cyhoeddus a busnes i adolygu prosesau caffael ac egluro'r blaenoriaethau ar gyfer sicrhau mwy o werth i wariant caffael blynyddol y sector cyhoeddus, sy'n werth £6bn.

4.94 Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad ym mis Medi a byddwn yn cydweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn trosglwyddo i ffordd newydd o gaffael cydweithredol, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar flaenoriaethau llesiant rhanbarthol a lleol. Byddwn hefyd yn cryfhau'n rhaglenni ar gyfer datblygu polisi a meithrin gallu. Bydd y rhaglen trawsnewid caffael yn symud ymlaen mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o ddull strategol o weithredu i edrych ar sut y gallwn ddefnyddio cyllid cyhoeddus i adeiladu ymhellach ar gyfoeth economaidd a chymunedol ym mhob rhan o Gymru.

4.95 Gall caffael cyhoeddus effeithio'n ddwys ar greu a chynnal cyflogaeth hirdymor. Mae modd defnyddio ein dull o gaffael i gefnogi busnesau bach a chanolig i ennill mwy o gontractau, gan gadw'r gwerth yng Nghymru. Mae'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* yn nodi'r ymrwymiadau i rannu contractau mwy yn lotiau llai o faint. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i fusnesau llai a lleol yng Nghymru Bydd yn sbardun i greu marchnadoedd cryf yng Nghymru a meithrin gallu, a fydd yn helpu i osgoi'r risg o weld contractau'n cael eu hennill gan nifer fach o fusnesau mawr. Er mwyn rhoi rhagor o gefnogaeth i gwmnïau bach ac isgontractwyr, ers mis Ionawr 2018 rydym wedi rhoi polisïau a chanllawiau yn eu lle i gefnogi taliadau teg a phrydlon drwy gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, a hynny drwy bolisi cyfrifon banc prosiectau newydd.

4.96 Rydym yn parhau i weithio gyda phrosiectau i weithredu'n polisi budd i'r gymuned ac i feddwl yn fwy arloesol er mwyn ehangu cwmpas y gwerth cymdeithasol a roddir i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adnodd e-ddysgu i roi cymorth ac i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fudd i'r gymuned.

4.97 Ym mis Gorffennaf, aethom hefyd ati i sefydlu Comisiwn Gwaith Teg. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion i hyrwyddo ac annog gwaith teg yng Nghymru. Caffael yw un o'r prif ysgogwyr sy'n gallu helpu i gefnogi cyflogaeth deg a moesegol, gan wella amodau i weithwyr yng Nghymru ac ar draws y byd. Rydym eisiau gweld Cymru yn wlad sy'n cynnig gwaith teg, sydd ag economi lle mae pobl yn gallu cael gafael ar swyddi gwell sy'n nes at eu cartrefi gydag incwm diogel a lle gallant ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd heb dlodi a heb i neb gamfanteisio arnynt. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cyfleoedd i annog a hwyluso gwaith teg yn nes ymlaen eleni fel rhan o'r rhaglen trawsnewid caffael.

4.98 Bydd y comisiwn yn ystyried a ellid datblygu ymhellach y mesurau i hyrwyddo gwaith teg sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru, gan nodi pa gamau newydd neu ychwanegol y gellid eu cymryd, gan gynnwys deddfwriaeth newydd, ac yn gwneud argymhellion. Mae disgwyl i'r comisiwn gyflwyno adroddiad erbyn mis Mawrth 2019.

4.99 Ers ei lansio ym mis Mawrth 2017, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i gynyddu nifer y sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r *Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi*. Mae dros 100 o sefydliadau wedi ymrwymo i'r cod erbyn hyn ac rydym yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau i gynyddu'r nifer hwn.

4.100 Mae un o'r contractau mwyaf erioed a ddyfarnwyd yng Nghymru yn cyflawni'r ymrwymiad o ran gwasanaethau rheilffordd a nodwyd yn *Symud Cymru Ymlaen*, sef rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r contract yn cynnwys ymrwymiadau sy'n cyflawni'r pedair strategaeth drawsbynciol yn *Ffyniant i Bawb*, yr amcanion yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*, y blaenoriaethau yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, ac mae'n gwreiddio'r egwyddorion a'r nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Astudiaeth Achos: gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru**

Ym mis Mai 2018, dyfarnodd Llywodraeth Cymru y contract ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru. Wrth fynd ati i gaffael y contract, roeddem yn cydnabod bod hyn yn gyfle i greu system drafnidiaeth fodern sy'n edrych tua'r dyfodol a hybu datblygiad Cymru.

Datblygwyd dull manwl-gywir o fynd ati i gaffael, ar sail deialog gystadleuol, o dan Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016, er mwyn llunio contract arloesol ac integredig o ansawdd uchel ar gyfer y gwasanaeth rheilffyrdd a Metro De Cymru. Y nod oedd creu contract gwasanaethau rheilffyrdd newydd a allai helpu hefyd i fynd i'r afael â thagfeydd a llygredd, cefnogi camau ehangach Llywodraeth Cymru i ysgogi twf economaidd a chyflogaeth a gwella mynediad at wasanaethau.

Roedd ein dull gweithredu blaengar ar gyfer caffael yn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o roi cynlluniau masnachfraint a seilwaith rheilffyrdd ar waith yn y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Newidiwyd y pwyslais, gan symud oddi wrth yr hen fodel o berchnogi rheilffyrdd ac edrych yn fanylach ar y modd y gallai'r rhwydwaith rheilffyrdd helpu cenedlaethau'r dyfodol.

Rhoddwyd blaenoriaethau teithwyr wrth wraidd y broses gaffael a gosodwyd her i'r ymgeiswyr i fynd i'r afael â phryderon teithwyr ynghylch capasiti, amseroedd teithio ac amlder y gwasanaethau. Dywedodd teithwyr hefyd eu bod am gael prisiau fforddiadwy a threnau mwy newydd a glân. Cynhaliwyd nifer fawr o brosesau ymgynghori a digwyddiadau ymgysylltu drwy Gymru yn 2016 a 2017, gan gynnwys grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl gyda theithwyr, er mwyn datblygu'r safonau ansawdd yr oedd y cyhoedd am eu gweld. Derbyniwyd nifer sylweddol o gyfraniadau, gan gynnwys mwy na 1,300 o ymatebion ysgrifenedig, a ddefnyddiwyd i lywio proses y ddeialog gystadleuol.

Cynhaliwyd trafodaethau helaeth â'r diwydiant hefyd ynglŷn â'r canlyniadau yr oeddem yn awyddus i'w gweld. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau â'r cwmnïau trenau, y cwmnïau seilwaith a'r cwmnïau gweithgynhyrchu, ac roedd yr adborth bron yn ddiethriad o blaid proses a fyddai'n annog arloesi. Cafodd tîm caffael Trafnidiaeth Cymru gymorth gan unigolyn a oedd ar secondiad o Gyd-fwrdd Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Caerdydd.

Sefydlwyd panel i gynghori ar gaffael cynaliadwy a moesegol wrth gynnal y broses gaffael, a hynny'n cynnwys y gadwyn gyflenwi, sgiliau, a materion amgylcheddol a diwylliannol. Roedd hyn yn golygu bod cynaliadwyedd a moeseg yn ganolog i'r strategaeth gaffael ac yn rhoi'r cyfle i sicrhau gwerth gwirioneddol am arian, gan gymryd y materion ehangach i ystyriaeth.

Roedd y dull hwn yn caniatáu inni gynnal deialog â chynigwyr er mwyn datblygu ateb hyfyw, addas i'r diben i gyflawni ein hamcanion, yn hytrach na manylu ar hyn ar y dechrau. O ganlyniad, fe wnaeth ein cynlluniau ar gyfer Metro De Cymru greu cyfle i estyn y rheilffordd o Coryton i'r ganolfan trin canser sydd wedi'i chynllunio ar gyfer Felindre. Fe gododd hyn gyfleoedd hefyd i defnyddio'r gwelliannau i wasanaethau yn sgil Metro De Cymru i ddatblygu'r hybiau strategol ar draws Cymoedd y De. Rydym hefyd yn gweithio gyda landlord tai cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu cynllun tai fforddiadwy mewn safle parcio a theithio Metro ym Mro Morgannwg.

Mae'r contract hwn yn golygu buddsoddiad o £5bn i drawsnewid y cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a'r Gororau a'i gilydd ac i ysgogi ffyniant. Mae'n rhoi sicrwydd tymor canolig, gan mai contract 15 mlynedd ydyw. Mae hyn wedi'i gynllunio i annog buddsoddi parhaus yn y gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw, gan feithrin cydnerthedd a llywio'r cynllunio at y tymor hwy.

Bydd yn cynyddu symudedd cymdeithasol ac yn ehangu mynediad, gan gysylltu pobl â swyddi, addysg, iechyd a hamdden ar drenau modern sy'n defnyddio cysylltedd digidol y genhedlaeth nesaf. Bydd y gwasanaeth newydd yn atal sefyllfa lle mae trenau'n orlawn ac yn mynd i'r afael â'r dirywiad yn ansawdd y stoc cerbydau. Bydd wedi'i gynllunio i integreiddio â dulliau teithio eraill megis gwasanaethau bysiau, a bydd yn darparu opsiynau tocynnu hyblyg gan alluogi pobl i deithio'n hwylusach drwy'r De.

Bydd teithwyr a rhanddeiliaid yn y diwydiant yn parhau'n rhan o'r broses o reoli'r gwasanaeth newydd; mae hyn yn cynnwys adeiladu ar y fforwm trawsffiniol presennol er mwyn sicrhau bod barn teithwyr yn Lloegr yn cael ei hystyried. Byddwn yn estyn ein dull o weithio mewn partneriaeth, gan alluogi Trafnidiaeth Cymru i gydweithio ag awdurdodau lleol ac eraill wrth reoli'r gwasanaeth newydd ac i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n codi yn sgil y contract. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a hybu cadwyni cyflenwi lleol drwy weithio gyda mentrau bach a chanolig eu maint a'r trydydd sector.

### ***Atal***

4.101 Mae *Ffyniant i Bawb* yn cydnabod bod adnoddau cyfyngedig a galw cynyddol am wasanaethau yn golygu bod rhaid inni i gyd weithio mewn ffordd wahanol a gwneud i'n hadnoddau weithio i'r eithaf i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth. Un o'r ystyriaethau allweddol yw sut y gallwn weithredu nawr i helpu i atal problemau rhag digwydd, gwaethygu, neu godi yn y dyfodol; gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

4.102 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwariant ataliol, ac wedi bod yn cydweithio â'r trydydd sector a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi cytuno i edrych sut y gellir dyrannu adnoddau i atal problemau rhag digwydd ac i liniaru'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar.

4.103 Sefydlwyd gweithgor ar y cyd â'r trydydd sector i ddatblygu diffiniad o atal. Buom yn cydweithio'n agos hefyd â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i brofi'r diffiniad ac i ystyried sut y gallwn symud y gwaith o'r cysyniad i'r ymarferol, er mwyn cefnogi penderfyniadau gwario ataliol.

4.104 Bwriad y diffiniad yw helpu penderfyniadau polisi er mwyn gwella canlyniadau i drigolion Cymru, gan hybu llesiant a galluogi arbedion cyllidebol yn y dyfodol. Drwy ddefnyddio diffiniad eang, rydym yn cydnabod na fydd popeth a wnawn yn golygu atal yn llwyr, ond y bydd deall achosion gwaelodol y problemau yn caniatáu inni gymryd camau i wella pethau drwy ganfod atebion arloesol ac ymyrryd yn gynnar fel y gallwn symud tuag at atal ar lefel sylfaenol.

**Atal** yw gweithio mewn partneriaeth i gydgynhyrchu'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu. Rhennir hyn yn bedair lefel a gall pob lefel leihau'r galw am yr un nesaf:

- **Atal sylfaenol** – meithrin cadernid – creu'r amodau fel nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Dull gweithredu cyffredinol.

- **Atal eilaidd** – targedu camau gweithredu mewn meysydd lle mae risg uchel y bydd problem yn digwydd. Dull gweithredu wedi'i dargedu sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*

- **Atal trydyddol** – ymyrryd pa fydd problem er mwyn ei rhwystro rhag mynd yn waeth ac i'w hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu sy'n ymyrryd.

- **Gwario acíwt** – gwario sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull gweithredu adferol.

***Cyffredinoliaeth gynyddol** yw bod yn benderfynol o ddarparu cymorth i bawb, rhoi llais a buddiant i bawb a phopeth, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gymorth ar y bobl neu'r meysydd hynny sydd â mwy o angen.

4.105 Mae gofal iechyd yn faes allweddol ar gyfer ymchwilio i atal. Dangosodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Ebrill 2017 mai 5.4% o'r holl gyllid gan lywodraeth ar gyfer iechyd yn y DU sy'n cael ei wario ar ofal iechyd ataliol[13]. Er mwyn dylanwadu ar gynyddu'r buddsoddi mewn camau gweithredu ataliol yng Nghymru, rydym wedi cynnal gweithdai gyda GIG Cymru mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio ar weithredu ataliol ar y cyd. Rydym hefyd yn bwriadu manteisio ar y cyfle i ddatblygu a gwreiddio atal o fewn GIG Cymru drwy'r gwaith blynyddol o ddiweddaru Fframwaith Cynllunio'r GIG. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried sut y gallwn symud oddi wrth wasanaethau acíwt at atal sylfaenol er mwyn gallu dysgu a rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith mewn gwasanaethau cyhoeddus. Bydd manylion pellach ynglŷn â'r modd y mae penderfyniadau gwario ataliol wedi'u gwneud ar draws y meysydd portffolio yn cael eu darparu fel rhan o'r Gyllideb ddrafft fanwl a gyhoeddir ar 23 Hydref.

[13] Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu amcangyfrifon blynyddol o wariant ar ofal iechyd fel y nodir o dan y System Cyfrifon Iechyd. Mae'r system hon yn adeiladu ar gysyniadau, ffiniau, diffiniadau a rheolau cyfrifo cyffredin ar gyfer mesur y defnydd o nwyddau a gwasanaethau gofal iechyd ar draws gwledydd Ewrop a'r OECD. Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod 5.4% o wariant y DU ar ofal iechyd yn 2016 wedi'i wario ar ofal ataliol. Ac eithrio Canada (6.2%), dyma'r ganran uchaf o blith nifer o wledydd Ewrop a'r OECD – tua 3% yw'r cyfartaledd. Mae data Cymru wedi'i gynnwys yn ffigurau'r DU, ond nid oes ystadegau ar wahân ar gael ar hyn o bryd oherwydd y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

**Astudiaeth Achos: *Cymru Iachach***

Mae *Cymru Iachach* yn nodi cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan roi pwyslais newydd ar lesiant, atal ac ymyrryd yn gynnar. Rydym yn dyrannu £192m yn y Gyllideb hon i fwrw ymlaen â rhoi *Cymru Iachach* ar waith er mwyn creu system iechyd a gofal cymdeithasol integredig a di-dor.

Cafodd ei ddatblygu yn dilyn proses eang o ymgysylltu a chydweithio â phartneriaid a'r cyhoedd. Bu Cyd-ffederasiwn GIG Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lunio cynnwys y cynllun. Casglwyd barn cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd drwy ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol, comisiynwyr statudol a phaneli dinasyddion.

Mae'r cynllun yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol, yn seiliedig ar athroniaeth arweiniol gofal iechyd darbodus:

-Dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach, a medru parhau i gadw'n brysur a bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosib.

-Byddwn yn edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol fel un system gyfan, gyda'r gwasanaethau yn un elfen yn unig wrth gefnogi pobl i fwynhau gwell iechyd a llesiant drwy gydol eu bywydau. Bydd mwy o bwyslais ar atal, gan helpu unigolion i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, i feithrin cydnerthedd ac i barhau'n annibynnol yn hirach;

-Bydd gwasanaethau a chymorth yn darparu'r un gofal o ansawdd uchel, ac yn cyflawni canlyniadau iechyd cyfartal, i bawb yng Nghymru.

-Bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch yr unigolyn a grwpiau o bobl, gan dargedu'r camau gweithredu at eu hanghenion unigryw hwy a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau o ran ansawdd a diogelwch;

-Ni fydd pobl yn mynd i ysbyty cyffredinol heblaw pan fo hynny'n hanfodol. Bydd symud adnoddau i'r gymuned yn golygu, pan fo angen gofal mewn ysbyty, y bydd modd cael gafael arno'n gynt;

-Oherwydd ei bwyslais ar ysgogi newid a gwelliannau, atal ac ymyrryd yn gynnar, ac ar ddefnyddio technoleg i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel, bydd y dull hwn o weithio ar sail y system gyfan yn fwy effeithiol, effeithlon a chyfartal, fel ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae'r cynllun yn cynnwys 10 o egwyddorion, gan gynnwys atal ac ymyrryd yn gynnar er mwyn galluogi ac annog iechyd a llesiant da a rhagweld a rhagfynegi iechyd gwael – a fydd yn arwain y broses o drawsnewid gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y tymor hwy. Bydd modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn cael eu cyflwyno fel un pecyn integredig o gymorth, gofal neu driniaeth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion a dewisiadau'r unigolion, hyd yn oed pan fo'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan nifer o wahanol ddarparwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £50m yn ychwanegol yn y gronfa trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yn 2019-20 er mwyn cyflymu a datblygu'r broses o roi modelau gofal newydd ar waith, gyda chymeradwyaeth y byrddau partneriaeth rhanbarthol.

## Deddfwriaeth

4.106 Caiff rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ei nodi mewn datganiad blynyddol gan Brif Weinidog Cymru ac mae'n cynnwys Biliau a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru i helpu i roi'r rhaglen lywodraethu ar waith. Caiff y cynigion eu llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u nod yw ceisio gwella Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Cânt eu datblygu gyda chyfraniad sylweddol gan randdeiliaid, a'u gwella ymhellach drwy broses graffu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

4.107 Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gwblhau Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol. Mae hwn yn ystyried y costau gweinyddu a chydymffurfio a'r costau eraill sy'n debygol o godi o'r ddeddfwriaeth, ynghyd ag unrhyw arbedion; yr amserlen debygol ar gyfer y rhain a phwy fydd yn ysgwyddo'r costau a'r arbedion. Mae'r asesiad yn dangos hefyd lle gallai fod costau anhysbys neu heb eu mesur ac yn nodi lle dibynnir ar dybiaethau a lle mae ansicrwydd yn bodoli.

4.108 Gan ymateb i argymhelliad gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, rydym wedi cytuno i ddarparu gwybodaeth i alluogi i gymhariaeth gael ei gwneud ynghylch i ba raddau y mae'r amcangyfrif o'r costau a'r arbedion a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu'r costau a'r arbedion gwirioneddol wrth i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith; bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r Gyllideb ddrafft fanwl ar 23 Hydref. Cynhwysir manylion y costau gweithredu ar gyfer y deddfau canlynol:

- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
- Deddf Anghenion Addysgol Arbennig a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

# Pennod 5: Cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru

## Cyllideb gwariant Cymru

5.1 Mae'r gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2019-20 yn cynnwys dyraniadau o £18.3bn i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru.

5.2 Mae Tabl 5.1 yn dangos cydrannau cyllideb gwariant Cymru, wedi'u dadansoddi yn ôl prif grŵp gwariant, a chyllidebau dangosol Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyllid cronfeydd wrth gefn heb eu neilltuo. Mae dyraniadau'r prif grwpiau gwariant yn adlewyrchu'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir ym mhennod pedwar. Cyflwynir ein Cyllideb ddrafft ar ffurf prif grwpiau gwariant gan mai'r rhain yw ein cyfansymiau rheolaeth ar gyfer rheoli'r gyllideb drwy'r flwyddyn.

**Tabl 5.1- Dyrannu Cyllideb Cymru**

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | | Cynlluniau dangosol 2019-20 yn ôl y Gyllideb Derfynol | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 7,977,718 | 369,684 | 8,347,402 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | | 5,267,269 | 122,730 | 5,389,999 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | | 1,279,460 | 30,674 | 1,310,134 |
| Addysg | | 2,490,667 | 77,303 | 2,567,970 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | | 332,756 | 33,910 | 366,666 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 314,227 | 3,638 | 317,865 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **17,662,097** | **637,939** | **18,300,036** |
| Adnoddau heb eu Dyrannu | Adnoddau Cyllidol | 140,392 | 6,739 | 147,131 |
| | Adnoddau Anghyllidol | 164,209 | -8,421 | 155,788 |
| Cyfalaf heb ei Ddyrannu | Cyffredinol | 438,636 | -246,754 | 191,882 |
| | Trafodiadau Ariannol | 194,452 | -3,709 | 190,743 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 56,914 | -500 | 56,414 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 4,480 | 0 | 4,480 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | | 7,261 | 0 | 7,261 |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 702 | 47 | 749 |
| **CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU** | | **18,669,143** | **385,341** | **19,054,484** |

## Categorïau gwariant

5.3 O fewn dyraniadau'r MEG mae mathau gwahanol o wariant a ddefnyddir at ddibenion gwahanol.

- Adnoddau Cyllidol
- Adnoddau Anghyllidol
- Cyfalaf traddodiadol
- Trafodiadau ariannol
- Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

5.4 Mae tablau 5.2a a 5.2b yn nodi'r dyraniadau MEG yn unol â'r categorïau hyn a hefyd yn ôl blwyddyn.

## Tabl 5.2a - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru – 2019-20

| CYFANSWM DYRANIADAU MEG CYLLIDEB DDRAFFT 2019-20 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adnoddau | | | Cyfalaf | | | Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) | | | Cyfanswm MEG |
| MEG* | Cyllidol | Anghyllidol | Cyfanswm Adnoddau | Cyfalaf traddodiadol | Trafodiadau ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | Adnoddau | Cyfalaf | Cyfanswm AME | |
| HSS | 7,623,206 | 190,000 | **7,813,206** | 369,096 | 4,000 | **373,096** | 161,100 | 0 | **161,100** | **8,347,402** |
| LGPS | 3,729,895 | 200 | **3,730,095** | 498,273 | 72,637 | **570,910** | 1,088,994 | 0 | **1,088,994** | **5,389,999** |
| E&T | 476,535 | 196,677 | **673,212** | 547,536 | 33,030 | **580,566** | 56,356 | 0 | **56,356** | **1,310,134** |
| Add | 1,554,850 | 107,154 | **1,662,004** | 206,674 | -191 | **206,483** | -101,985 | 801,468 | **699,483** | **2,567,970** |
| EPRA | 235,918 | 21,592 | **257,510** | 106,756 | 0 | **106,756** | 2,400 | 0 | **2,400** | **366,666** |
| CSA | 277,684 | 16,000 | **293,684** | 21,204 | 0 | **21,204** | 2,977 | 0 | **2,977** | **317,865** |
| **Cyfanswm** | **13,898,088** | **531,623** | **14,429,711** | **1,749,539** | **109,476** | **1,859,015** | **1,209,842** | **801,468** | **2,011,310** | **18,300,036** |

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS); Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS); Yr Economi a Thrafnidiaeth (E&T); Addysg (Add); Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA)

## Tabl 5.2b - Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru 2020-21

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | CYFANSWM DANGOSOL DYRANIADAU CYFALAF MEG 2020-21 £000oedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfalaf | | | CYFANSWM Y DYRANIAD CYFALAF MEG |
| | Cyffredinol | Trafodiadau Ariannol | Cyfanswm Cyfalaf | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 334,488 | 4,000 | **338,488** | **338,488** |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 469,951 | 43,505 | **513,456** | **513,456** |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 602,612 | 10,580 | **613,192** | **613,192** |
| Addysg | 179,750 | -195 | **179,555** | **179,555** |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 92,836 | 2,000 | **94,836** | **94,836** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 17,648 | 0 | **17,648** | **17,648** |
| **CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU** | **1,697,285** | **59,890** | **1,757,175** | **1,757,175** |

**Tabl 5.3 Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru**

| DYRANIADAU CYLLIDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | |
| | **Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,337,701 | 285,505 | 7,623,206 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 3,671,524 | 58,371 | 3,729,895 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 440,481 | 36,054 | 476,535 |
| Addysg | 1,516,870 | 37,980 | 1,554,850 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 229,489 | 6,429 | 235,918 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 274,046 | 3,638 | 277,684 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyllidol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **13,470,111** | **427,977** | **13,898,088** |

| DYRANIADAU ANGHYLLIDOL | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | |
| | **Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 190,779 | -779 | 190,000 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 400 | -200 | 200 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 195,898 | 779 | 196,677 |
| Addysg | 107,039 | 115 | 107,154 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 13,086 | 8,506 | 21,592 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Anghyllidol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **523,202** | **8,421** | **531,623** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Adnoddau i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **13,993,313** | **436,398** | **14,429,711** |

**Tabl 5.4 Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru**

| DYRANIADAU CYFALAF CYFFREDINOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
| | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft | Dyraniadau 2020-21 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2020-21 | Cynlluniau newydd 2020-21 Y Gyllideb Ddrafft |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 328,138 | 40,958 | 369,096 | 309,988 | 24,500 | 334,488 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 430,773 | 67,500 | 498,273 | 430,451 | 39,500 | 469,951 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 455,514 | 92,022 | 547,536 | 496,969 | 105,643 | 602,612 |
| Addysg | 176,674 | 30,000 | 206,674 | 154,750 | 25,000 | 179,750 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 87,781 | 18,975 | 106,756 | 77,521 | 15,315 | 92,836 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 21,204 | 0 | 21,204 | 17,648 | 0 | 17,648 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Cyffredinol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,500,084** | **249,455** | **1,749,539** | **1,487,327** | **209,958** | **1,697,285** |

| DYRANIADAU CYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | | | | |
| | Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft | Dyraniadau 2020-21 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19 | Newidiadau 2020-21 | Cynlluniau newydd 2020-21 Y Gyllideb Ddrafft |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 4,000 | 4,000 | 0 | 4,000 | 4,000 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 73,067 | -430 | 72,637 | 44,700 | -1,195 | 43,505 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 32,700 | 330 | 33,030 | 8,000 | 2,580 | 10,580 |
| Addysg | 0 | -191 | -191 | 0 | -195 | -195 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf Trafodiadau Ariannol i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **105,767** | **3,709** | **109,476** | **54,700** | **5,190** | **59,890** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,605,851** | **253,164** | **1,859,015** | **1,542,027** | **215,148** | **1,757,175** |

**Tabl 5.5 –Newidiadau i Ddyraniadau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Prif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru**

| DYRANIADAU ADNODDAU AME | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | |
| | **Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 121,100 | 40,000 | 161,100 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,091,505 | -2,511 | 1,088,994 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 154,867 | -98,511 | 56,356 |
| Addysg | -126,399 | 24,414 | -101,985 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,400 | 0 | 2,400 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,977 | 0 | 2,977 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Adnoddau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,246,450** | **-36,608** | **1,209,842** |

| DYRANIADAU CYFALAF AME | | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | | |
| | **Dyraniadau 2019-20 yn ôl Cyllideb Derfynol 2018-19** | **Newidiadau 2019-20** | **Cynlluniau Newydd 2019-20 Y Gyllideb Ddrafft** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0 |
| Addysg | 816,483 | -15,015 | 801,468 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME Cyfalaf i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **816,483** | **-15,015** | **801,468** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Dyraniadau AME i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **2,062,933** | **-51,623** | **2,011,310** |

## Tabl 5.6 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf

| BENTHYCA UNIONGYRCHOL LLYWODRAETH CYMRU AT DDIBENION CYFALAF (1) | | |
|---|---|---|
| | £000oedd | |
| | 2019-20 | 2020-21 |
| Cyfanswm y benthyca nad yw wedi ei ad-dalu ar ddechrau'r flwyddyn (prifswm) | 136,090 | 257,943 |
| Benthyca cyfalaf arfaethedig i'w dynnu i lawr | 125,000 | 125,000 |
| Ad-daliadau'r prifswm | -3,147 | -6,210 |
| Benthyca cyfalaf crynswth nad yw wedi ei ad-dalu ar ddiwedd y flwyddyn (prifswm) | **257,943** | **376,733** |
| Llog | 4,295 | 6,984 |

(1) Arian a fenthycwyd o dan adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) a benthyciadau blaenorol o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gan yr hen Fwrdd Datblygu Cymru Wledig a Chorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru.

*Nodyn ar hyd telerau benthyciadau*

- Mae'r benthyciadau a gymerwyd gan yr hen Fwrdd Datblygu Cymru Wledig a Chorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru i fod i gael eu had-dalu erbyn 2042.
- Tybir bod benthyca cyfalaf o dan adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd) am gyfnod o 30 mlynedd, felly bydd arian a fenthycir yn 2018-19 yn cael ei ad-dalu yn 2048-49, bydd arian a fenthycir yn 2019-20 yn cael ei ad-dalu yn 2049-50 ac yn y blaen.

## Tabl 5.7 – Benthyca uniongyrchol at ddibenion cyfalaf, amserlen ad-dalu

| BENTHYCA UNIONGYRCHOL AT DDIBENION CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU – AD-DALIADAU | | | |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | | |
| | Symiau sy'n daladwy o fewn 1 flwyddyn | Symiau sy'n daladwy o fewn 1-5 mlynedd | 2020- Symiau sy'n daladwy ar ôl 5 mlynedd |
| Prifswm | 3,147 | 34,848 | 348,094 |
| Llog | 4,295 | 35,322 | 124,402 |
| | | | |

## Atodiad A: Cysoni'r gyllideb weinyddol a dyraniad yr adnoddau yng nghynnig y Gyllideb flynyddol

| CYLLIDEB DDRAFFT 2019-20 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | | | | | | |
| | HSS | LGPS | E&I | Add | EPRA | CSA | CYFANSWM |
| Adnoddau | 7,813,206 | 3,730,095 | 673,212 | 1,662,004 | 257,510 | 293,684 | **14,429,711** |
| Cyfalaf | 373,096 | 570,910 | 580,566 | 206,483 | 106,756 | 21,204 | **1,859,015** |
| AME Adnoddau | 161,100 | 1,088,994 | 56,356 | -101,985 | 2,400 | 2,977 | **1,209,842** |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 801,468 | 0 | 0 | **801,468** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR** | **8,347,402** | **5,389,999** | **1,310,13** | **2,567,970** | **366,666** | **317,865** | **18,300,036** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | | | | | | | |
| Defnydd Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | -250 | -200 | -6,281 | -305 | -12,400 | | **-19,436** |
| Benthyca â chymorth | | -88,800 | | | | | **-88,800** |
| Costau casglu derbyniadau o'r gronfa Yswiriant Gwladol | -906 | | | | | | **-906** |
| Ardrethi annomestig cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu) | | -1,066,172 | | | | | **-1,066,172** |
| Menter Cyllid Preifat | | | | | | -4,295 | **-4,295** |
| PFI | | | -8,982 | | | | **-8,982** |
| **ADNODDAU SY'N OFYNNOL** | **8,346,246** | **4,234,827** | **1,294,87** | **2,567,665** | **354,266** | **313,570** | **17,111,445** |

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS); Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS); Yr Economi a Thrafnidiaeth (E&T); Addysg (Add); Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA)

## Atodiad B: Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

| ADNODDAU – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Cyllideb Atodol Mehefin 2018 | Cynlluniau newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,795,872 | 8,347,402 | 7.07% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 5,405,117 | 5,389,999 | (0.28)% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,150,136 | 1,310,134 | 13.91% |
| Addysg | 2,416,879 | 2,567,970 | 6.25% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 353,854 | 366,666 | 3.62% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 324,048 | 317,865 | (1.91)% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Adnoddau i MEG Llywodraeth Cymru** | **17,445,906** | **18,300,036** | |

| ADNODDAU – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn – termau real | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | |
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | Cyllideb Atodol Mehefin 2018 | Cynlluniau newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 7,795,872 | 8,347,402 | 5.4% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 5,405,117 | 5,389,999 | (1.8)% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,150,136 | 1,310,134 | 12.2% |
| Addysg | 2,416,879 | 2,567,970 | 4.6% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 353,854 | 366,666 | 2.0% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 324,048 | 317,865 | (3.4)% |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Adnoddau i MEG Llywodraeth Cymru** | **17,445,906** | **18,300,036** | |

| **CYFALAF – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn** | **£000oedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **2018-19** | **2019-20** | | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2018** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** |
| HSS | 364,663 | 373,096 | 2.31% | 338,488 | (9.28)% |
| LGPS | 609,285 | 570,910 | (6.30)% | 513,456 | (10.06)% |
| E&T | 467,879 | 580,566 | 24.08% | 613,192 | 5.62% |
| Add | 203,627 | 206,483 | 1.40% | 179,555 | (13.04)% |
| EPRA | 105,634 | 106,756 | 1.06% | 94,836 | (11.17)% |
| CSA | 23,087 | 21,204 | (8.16)% | 17,648 | (16.77)% |
| **Cyfanswm y dyraniadau cyfalaf i MEG Llywodraeth Cymru** | **1,774,175** | **1,859,015** | | **1,757,175** | |

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS); Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS); Yr Economi a Thrafnidiaeth (E&T); Addysg (Add); Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA)

| CYFALAF – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn – termau real | £000oedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **2018-19** | **2019-20** | | **2020-21** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2018** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** |
| HSS | 364,663 | 373,096 | 0.7% | 338,488 | (10.8)% |
| LGPS | 609,285 | 570,910 | (7.7)% | 513,456 | (11.5)% |
| E&T | 467,879 | 580,566 | 22.2% | 613,192 | 3.9% |
| Add | 203,627 | 206,483 | (0.2)% | 179,555 | (14.5)% |
| EPRA | 105,634 | 106,756 | (0.5)% | 94,836 | (12.6)% |
| CSA | 23,087 | 21,204 | (9.6)% | 17,648 | (18.1)% |
| **Cyfanswm y dyraniadau cyfalaf i MEG Llywodraeth Cymru** | **1,774,175** | **1,859,015** | | **1,757,175** | |

*Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS); Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS); Yr Economi a Thrafnidiaeth (E&T); Addysg (Add); Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (EPRA); Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA)

| AME ADNODDAU – Canran y newid o flwyddyn i flwyddyn | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | 2018-19 | 2019-20 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2018 | Cynlluniau newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 117,000 | 161,100 | 37.69% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,076,422 | 1,088,994 | 1.17% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 26,632 | 56,356 | 111.61% |
| Addysg | (97,234) | (101,985) | 4.89% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,939 | 2,977 | 1.29% |
| **Cyfanswm y dyraniadau AME Adnoddau i MEG Llywodraeth Cymru** | **1,128,159** | **1,209,842** | |

| AME ADNODDAU – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn – termau real | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | 2018-19 | 2019-20 | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2018 | Cynlluniau newydd | % y newid |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 117,000 | 161,100 | 35.6% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 1,076,422 | 1,088,994 | (0.4)% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 26,632 | 56,356 | 108.3% |
| Addysg | (97,234) | (101,985) | 3.3% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 2,400 | 2,400 | (1.5)% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,939 | 2,977 | (0.3)% |
| **Cyfanswm y dyraniadau AME Adnoddau i MEG Llywodraeth Cymru** | **1,128,159** | **1,209,842** | |

| **AME CYFALAF – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **2018-19** | **2019-20** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2018** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00% |
| Addysg | 661,816 | 801,468 | 21.10% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm y dyraniadau AME Adnoddau i MEG Llywodraeth Cymru** | **661,816** | **801,468** | |

| **AME CYFALAF – Newid canrannol o flwyddyn i flwyddyn – termau real** | **£000oedd** | | |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **2018-19** | **2019-20** | |
| | **Cyllideb Atodol Mehefin 2018** | **Cynlluniau newydd** | **% y newid** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.00% |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 0 | 0 | 0.00% |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.00% |
| Addysg | 661,816 | 801,468 | 19.2% |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 0 | 0 | 0.00% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.00% |
| **Cyfanswm y dyraniadau AME Cyfalaf i MEG Llywodraeth Cymru** | **661,816** | **801,468** | |

# Atodiad C: Asesiad Effaith Strategol Integredig

## Cyflwyniad

1. Wrth ddatblygu'r Gyllideb ddrafft amlinellol, rydym wedi cadw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn cof trwy ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy a gweithredu'r bum ffordd o weithio trwy gydol y broses o lunio'r gyllideb. Nodir yr ystyriaethau hyn ym mhennod pedwar.

2. Mae meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fel gweinyddiaeth ddatganoledig wedi'u nodi mewn cyfraith. O fewn y meysydd hyn sydd wedi'u datganoli mae gennym nifer o ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn ogystal, mae gennym chwe phrif ymrwymiad mewn meysydd allweddol o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai a gofal plant. Mae'r dyletswyddau a'r ymrwymiadau hyn yn sail i'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud mewn perthynas â gwariant.

3. Fel rhan o'r broses o greu'r gyllideb, mae dyletswydd arnom i ystyried ein penderfyniadau o wahanol safbwyntiau er mwyn deall yr effaith maent yn ei chael. Mae dull integredig o weithredu yn ein galluogi i ddeall yn well effaith y penderfyniadau'n gyffredinol ar grwpiau gwahanol o bobl. Mae rhai o'n cyfrifoldebau yn rhai statudol ac yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol, sef cydraddoldebau a hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur gwledig, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Mae anfantais gymdeithasol-economaidd yn un o'r ystyriaethau sydd wrth wraidd y gwaith o asesu effaith penderfyniadau. Mae'r atodiad hwn yn nodi sut y mae'r ystyriaethau hyn wedi cyfrannu at ein dyraniadau cyllideb strategol er mwyn gwella lles economaidd, lles cymdeithasol, lles amgylcheddol a lles diwylliannol Cymru.

4. Yn unol â phroses dau gam y gyllideb, a gyflwynwyd yn 2017, bydd yr asesiad effaith integredig strategol hwn yn canolbwyntio ar y penderfyniadau a nodwyd yn ystod cam amlinellol y Gyllideb ddrafft. Mae'r cam hwn yn nodi ffynonellau'r cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pwerau benthyca a threthi Cymreig newydd, ynghyd â phenderfyniadau gwario a dyraniadau portffolio ar lefel uchel.

5. Dilynir y cam hwn ar 23 Hydref gan y cynigion gwariant portffolio manwl. Gan ymateb i adborth Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd hyn yn cynnwys asesiad effaith integredig ar wahân o'r cynigion gwariant.

6. Daw'r dystiolaeth a'r ystadegau o'r adroddiad Llesiant Cymru 2017-18[14] oni bai y nodir fel arall.

[14] https://gov.wales/statistics-and-research/well-being-wales/?lang=cy

## Y Sefyllfa Bresennol

### *Rhagolygon ariannol*

7. O ganlyniad i'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn parhau i ganlyn mesurau cyni, er gwaethaf y ffaith y gwelwyd rhywfaint o lacio ar hyn dros y misoedd diwethaf, mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn heriol. Nodir y rhagolygon ariannol cyffredinol ym mhenodau dau a thri o naratif y gyllideb. Yn sgil cyhoeddi Adolygiad o Wariant 2019 gan Lywodraeth y DU maes o law, ac ar adeg ysgrifennu hwn, ceir ansicrwydd o hyd ynghylch y fargen a gaiff ei sicrhau o ran Brexit ac effaith hyn ar wariant cyhoeddus, felly cyfyngir ar ein gallu i gynllunio y tu hwnt i'r tymor byr.

8. Un o brif effeithiau polisi hirdymor Llywodraeth y DU o ran cyni, yw'r newidiadau i'r system llesiant. Yn gynharach eleni cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad[15] sy'n nodi effaith gronnol y diwygiadau i dreth a llesiant ar draws y DU. Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y newidiadau i drethi, budd-daliadau, credydau treth a Chredyd Cynhwysol ers 2010 wedi bod yn atchweliadol, gyda'r rhai ar yr incymau isaf yn cael eu heffeithio fwyaf. Mae aelwydydd â phlant yn profi llawer mwy o golledion o ran incwm nag aelwydydd heb blant Yr un yw'r achos ar gyfer unig rieni a theuluoedd mawr yng Nghymru sy'n colli, ar gyfartaledd, tua £3,720 a £4,110 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae rhai grwpiau sy'n cael eu diogelu yn profi effaith anghymesur o negyddol ar eu hincymau, gan gynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig a menywod. Mae'r effaith yn arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol sy'n wynebu nifer o anfanteision.

### *Ffyniant i Bawb a Symud Cymru Ymlaen*

9. Mae *Ffyniant i Bawb*, y strategaeth genedlaethol, yn bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau sydd yn y rhaglen lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen*, ac yn eu gosod mewn cyd-destun mwy hirdymor. Mae'n nodi sut y byddant yn cael eu gwireddu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ar draws ffiniau traddodiadol, y tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth. Mae'r strategaeth yn nodi ein prif genhadaeth i sicrhau gwlad ffyniannus sy'n cynnig budd i bawb yng Nghymru, fel y gallant fwynhau bywyd o ansawdd da a byw mewn cymuned gref a diogel.

10. Mae *Ffyniant i Bawb* yn amlygu'r ffaith bod y ffordd yr ydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyflawni. Rydym wedi pennu amcan i weithio mewn ffordd cydgysylltiedig mewn pum maes y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar draws y llywodraeth, lle y gallwn gyflawni mewn ffordd fwy effeithiol trwy weithio mewn gwahanol ffordd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi dod yn fwy amlwg mai'r unig ffordd y bydd Cymru'n cyflawni ein targedau datgarboneiddio uchelgeisiol yw drwy sicrhau bod hon yn amcan a rennir ar

---

[15] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/cumulative-impact-tax-and-welfare-reform

draws y llywodraeth - felly ychwanegwyd datgarboneiddio fel chweched flaenoriaeth *Ffyniant i Bawb*.

11. Gyda'i gilydd, mae’r chwe maes blaenoriaeth yn feysydd lle y dangoswyd bod ymyrraeth gynnar a chydgysylltu ar draws gwasanaethau yn gallu cael effaith arwyddocaol a gwneud cyfraniad pwysig i nifer o'n hamcanion llesiant. Y chwe maes yw – y blynyddoedd cynnar; tai; gofal cymdeithasol; gwell iechyd meddwl; cyflogadwyedd a sgiliau; a datgarboneiddio.

12. Yn ystod pob blwyddyn pan fydd polisi cyni Llywodraeth y DU yn parhau a'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn parhau, mae'n gallu i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r economi yn dod dan fwyfwy o bwysau. Mae Ffyniant i Bawb yn cynorthwyo Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion i ystyried sut i ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig ac i flaenoriaethu rhwng galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwerth am arian ac yn cael yr effeithiau mwyaf cadarnhaol ar lesiant a ffyniant Cymru. Mae pennod pedwar o naratif y gyllideb yn nodi sut yr ydym wedi cymryd camau pellach, trwy gyfrwng proses y gyllideb i ddyrannu adnoddau ychwanegol, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r sialensiau mwyaf sylfaenol y mae Cymru yn eu hwynebu.

13. Yn ogystal, mae ein cynlluniau gwario yn adlewyrchu nifer o brosiectau a blaenoriaethau a rennir, yr ystyriwyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar bobl Cymru ac y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cytundeb Cyllideb dwy flynedd (2018-19 a 2019-20) gyda Phlaid Cymru. Fel rhan o'r cytundeb rydym wedi cyhoeddi rhagor o gyllid i gefnogi’r Gymraeg, trwy ddyraniad cyfalaf ychwanegol gwerth £2.75m i ddiweddaru gwersylloedd yr Urdd yng Nglan-llyn, ger y Bala ac yn Llangrannog.

## Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol

14. Mae'r tueddiadau demograffig, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd disgwyliedig a nodwyd yn adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol,* [16]a gyhoeddwyd yn 2017, yn nodi llawer o bwysau ar feysydd gwasanaeth cyhoeddus allweddol ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig.

15. Y chwe maes blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb* yw'r meysydd hynny lle y gall camau gweithredu trawslywodraethol wneud y cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant a llesiant hirdymor. Er enghraifft, mae pawb yn deall mai'r blynyddoedd cynnar yw'r pwysicaf o ran creu sylfaen gref ar gyfer llesiant gydol oes; mae nifer yr aelwydydd person sengl ac unedau teuluol nad ydynt yn rhai traddodiadol yn tyfu ac o ganlyniad mae'r angen a'r galw am dai yn newid hefyd; mae'r anghenion o ran gofal cymdeithasol yn datblygu wrth i natur clefydau, megis dementia, newid; wrth i salwch meddwl gael ei gydnabod a'i ddeall yn fwy ar hyd oes person mae angen canolbwyntio'n fwy ar atal a chael mynediad at ystod eang o wasanaethau; gallai datblygiad cudd-wybodaeth a rhagor o awtomatiaeth gael effaith sylweddol ar

[16] https://gov.wales/statistics-and-research/future-trends/?lang=cy

gyflogadwyedd a sgiliau; ac effaith y newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwy ac yn fwy amlwg ac mae fwyfwy o bwysau i arafu'r newid.

16. Rydym wedi ystyried ystod o dystiolaeth ar draws y chwe maes blaenoriaeth er mwyn adlewyrchu ar effaith ein penderfyniadau. Un o'r heriau allweddol yw bod y bwlch rhwng y cymunedau cyfoethocaf a'r cymunedau tlotaf yng Nghymru yn parhau yr un fath, ac mae hynny i'w weld mewn ystadegau allweddol megis canlyniadau iechyd, disgwyliad oes a chanlyniadau addysg.

17. Addysg yw un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gallwn eu gwneud i wella cyfleoedd bywyd plant, yn enwedig y rhai o gymunedau difreintiedig a'r rhai y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig, ac rydym wedi cydnabod hyn fel un o'n blaenoriaethau yn y gyllideb hon.

18. Mae'r economi yng Nghymru yn wynebu nifer o sialensiau sy'n bod ers tro, yn enwedig ynghylch codi lefelau cynhyrchiant a chyflogau a sicrhau cyflogaeth foddhaol i bawb sy'n dymuno manteisio ar hynny. Mae economi lwyddiannus yn bwysig ynddi ei hun ond hefyd, er mwyn sicrhau'r refeniw treth sy'n ofynnol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel. Dros yr hirdymor, mae cynyddu cynhyrchiant a chreu a denu swyddi cynhyrchiant uchel yn hollbwysig. Mae adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddwyd ar y cyd a'r gyllideb ddrafft amlinellol yn nodi, ymhlith ffactorau eraill "...y bydd llwyddiant polisïau er mwyn gwella lefelau addysg a sgiliau ac er mwyn helpu i gynyddu crynswth economaidd trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu, yn dyngedfennol er mwyn gwella perfformiad cynhyrchiant cymharol Cymru".

19. Mae adroddiadau blaenorol gan Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd wedi asesu'r her gyllido hirdymor ar gyfer GIG yng Nghymru, gan nodi fframwaith ar gyfer effeithlonrwydd a chynaladwyedd. Rydym wedi darparu'r cyllid ychwanegol a nodwyd yn yr adroddiadau hyn yn gyson er mwyn cynnal gwasanaethau iechyd, gan sicrhau y rhoddir cymorth i ofal cymdeithasol hefyd, yn unol â'n cefnogaeth hirdymor ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol.

20. Mae adroddiad *Llesiant Cymru 2017-18* yn adrodd am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn y nodau llesiant. Mae hwn yn sôn am sefyllfa Cymru gyfan – nid yw'n adroddiad am berfformiad unrhyw sefydliad, ond yn hytrach, y newidiadau ar y cyd yr ydym yn eu gweld yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn ffynhonnell gyfoethog o ddata sy'n sail i'n proses ni o wneud penderfyniadau

## Cynlluniau Gwario

### *Refeniw*

21. Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer Cyllideb eleni, rydym wedi adolygu'r dystiolaeth ac ystyried adborth o'r trafodaethau a gafwyd gyda rhanddeiliaid. Credwn fod y ffigurau dangosol a bennwyd y llynedd ar gyfer 2019-20 yn canolbwyntio ar y meysydd cywir. Mae cyfle gennym i ddarparu rhywfaint o gyllideb refeniw ychwanegol yn 2019-20 i gynorthwyo blaenoriaethau *Ffyniant*

*i Bawb* a'n hamcanion llesiant. Tynnir y cyllid hwn yn bennaf o daliad canlyniadol Barnett o benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu'r gwariant ar iechyd yn Lloegr a thrwy fanteisio ar gyllid ychwanegol o'r Gronfa wrth gefn newydd i Gymru. Eleni bydd ein buddsoddiad ychwanegol yn canolbwyntio ar dri maes eang - perfformiad, atal a chyflogau.

22. Dros yr haf, cynhaliodd yr Ysgrifennydd Parhaol adolygiad o'r cynlluniau gwario dangosol er mwyn ystyried effeithiau cronnol newidiadau cyllideb ar bartneriaid a rhanddeiliaid a nodi unrhyw feysydd a allai gael effaith anghymesur ar feysydd neu grwpiau gwariant tebyg. Roedd yr ymarfer hefyd yn ceisio edrych ar y meysydd gwariant hynny a oedd wedi profi effeithiau anghymesur o ganlyniad i leihau cyllidebau gydag amser. Gwnaeth yr ymarfer helpu i gryfhau'r camau yr ydym yn eu cymryd er mwyn ystyried yr effeithiau ar ein partneriaid cyflenwi, ond gwnaeth hefyd dynnu sylw at yr heriau o ran ystyried yr effaith ar gyrff y trydydd sector gan ystyried yr ystod o ffynonellau cyllido maent yn gallu manteisio arnynt.

23. Yn ogystal, rodd yn gyfle i edrych ar gyllid Llywodraeth Cymru ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru fesul rhanbarth. Gwahaniaethau bach sydd yn y dyraniadau fesul pen yn y boblogaeth ar gyfer iechyd a llywodraeth leol Ar y cyfan, mae'r dyraniadau hyn yn gyfystyr â bron i dri chwarter o gyllideb adnodd Llywodraeth y Cynulliad.

### *Cyfalaf*

24. Roedd Cyllideb 2018-19 yn nodi cynlluniau cyfalaf dangosol ar gyfer 2019-20 a 2020-21. Yn dilyn Cyllideb yr Hydref y DU yn 2017, cafodd Cymru daliad cyfalaf canlyniadol a chyhoeddwyd rhai penderfyniadau dyrannu cynnar ochr yn ochr â Chyllideb derfynol 2018-19 ym mis Ionawr 2018. Cyhoeddwyd y byddai £266m o fuddsoddiadau cyfalaf pellach yn cael ei neilltuo, law yn llaw â'r cam o gyhoeddi adolygiad hanner ffordd *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* ym mis Mai 2018 er mwyn cynorthwyo'r broses o gyflawni'n blaenoriaethau, gan gynnwys lleddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus, cynorthwyo ein blaenoriaeth datgarboneiddio a chynorthwyo'r gwaith o gyflawni *Ffyniant i Bawb*. Mae'r goblygiadau'r cyhoeddiadau hyn ar 2019-20 a 2020-21 wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb hon, ynghyd â nifer o ddyraniadau ychwanegol.

## **Ein blaenoriaethau buddsoddi**

### *Iechyd a gofal cymdeithasol*

25. Ein nod yw gwella iechyd a lles yng Nghymru - i unigolion, teuluoedd a chymunedau - gan gymryd camau arwyddocaol er mwyn symud ein dull gweithredu o weithgarwch trin i weithgarwch atal. Mae'r heriau hyn yn gofyn am amrediad o ymatebion, o'r cyfnod genedigaeth i henaint, gan wella iechyd a lles gymaint ag y bo modd trwy gydol bywydau pobl. Yn gyffredinol dros y tymor canolig gwelwyd gwelliannau yn y blynyddoedd diwethaf o ran nifer y blynyddoedd disgwyliedig ar gyfer oes iach, nifer y marwolaethau y gellid eu

hosgoi a rhai nodweddion o ffordd iach o fyw (ee lleihau ysmygu ac yfed). Fodd bynnag mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ffordd o fyw yn parhau i newid, er enghraifft mae gordewdra ymhlith plant yn parhau i fod yn her, a gwelwyd cynnydd yn y niferoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

26. Mae tystiolaeth yn dangos bod iechyd da yn bwysig iawn, nid yn unig ar gyfer helpu pobl i gael gwaith ond hefyd o ran y cynnydd maent yn ei wneud ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Mae iechyd corfforol a meddyliol da yn bwysig yn y farchnad lafur ac felly'n effeithio ar les o ganlyniad i'r effaith ar sefyllfa economaidd gymdeithasol unigolyn.

27. Nododd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru y dylai iechyd a gofal cymdeithasol ganolbwyntio ar ddatblygu un system ddi-dor o iechyd a gofal i Gymru. Mae dull gweithredu integredig o'r fath o ran iechyd a gofal yn cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn a phobl anabl, y mae'n llawer mwy tebygol y bydd gofyn iddynt gael gofal cymdeithasol, yn ogystal â phobl ifanc mewn gofal.

28. *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*[17] yw ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol. Mae'n nodi sut y byddwn yn cynorthwyo'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol i gydweithio. Mae'n nodi'r angen i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda gwasanaethau eraill, megis addysg a thai, er mwyn helpu pobl i gadw'n iach ac yn annibynnol am gymaint ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys symud rhagor o ofal allan o'r ysbytai ac i gymunedau lleol, adleoli gwasanaethau yn agosach i'r mannau lle y mae pobl yn byw a darparu rhagor o wasanaethau i helpu i atal pobl rhag mynd yn sâl.

29. Fodd bynnag, mae'r adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol* ac adroddiad *Llesiant Cymru* yn dangos bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu mwy fyth o alwadau gan boblogaeth sy'n tyfu ac sy'n heneiddio, a fydd yn gofyn am fwy o gyllid. Ceir cyswllt cryf rhwng iechyd gwael ac amddifadedd. Mae gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn effeithio ar y rhai mwyaf difreintiedig, boed hynny oherwydd henaint, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant. Diben sylfaenol *Cymru Iachach* yw cefnogi llesiant corfforol a meddyliol pob dinesydd yng Nghymru drwy sicrhau bod gwasanaethau a gofal iechyd o ansawdd uchel, sy'n effeithiol ac sydd o fewn cyrraedd, gan gynnwys gofal iechyd ataliol, yn parhau i fod ar gael, yn rhad ac am ddim wrth ei ddefnyddio, i bawb.

30. Am y rhesymau hyn byddwn yn dyrannu cyllid ychwanegol sy'n werth £287m i'r portffolio iechyd a gofal cymdeithasol, y bydd £94.6m ohono yn 2019-20 yn ariannu'r fargen gyflogau ar gyfer yr Agenda ar gyfer Newid. Mae'r cynnig yn targedu recriwtio a chadw staff ac yn sicrhau bod y GIG yn gallu parhau i recriwtio'r gweithlu sydd ei angen arno, gyda gweithwyr tosturiol sydd â'r sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith. Bydd hyn yn rhoi cytundeb cyflogau tair blynedd i staff sy'n gweithio'n galed yn y GIG, sy'n mynd y tu hwnt i'n hymrwymiad i argymhellion Living Wage Foundation i gefnogi pobl sydd ar

[17] https://gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf

incymau is a rhoi cyflog teg iddynt am eu gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn yn cyflwyno cyfradd newydd o £17,460 o 1 Ebrill 2018 ymlaen fel y gyfradd dalu sylfaenol isaf o fewn y GIG, a bydd y cyflog cychwyn isaf o fewn GIG yn codi i £18,005 yn 2020/21.

31. Bydd y £192m sy'n weddill yn fwrw ymlaen â *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* sy'n rhoi pwyslais newydd ar lesiant, atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r astudiaeth achos ym mhennod pedwar o naratif y gyllideb yn pennu'r weledigaeth sydd y tu ôl i'r cynllun. Ceir amrediad o gynigion, a byddant yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai mwyaf agored i niwed, yn enwedig y rhai ifanc iawn a'r henoed sydd ar y cyfan yn defnyddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fwyaf. Bydd y £60m a ddyrannwyd i ddatblygu cynlluniau tymor canolog integredig y GIG a'r £30 miliwn i gynyddu rôl y byrddau partneriaeth rhanbarthol - lle mae'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn cydweithio - yn cefnogi gwelliannau ac yn trawsnewid gwasanaethau. Bydd angen i'r GIG a'r awdurdodau lleol ystyried effeithiau wrth iddynt ddatblygu'u cynlluniau.

32. Rydym yn cyfeirio £30m yn benodol at ofal cymdeithasol, o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar yr ifanc, yr henoed a'r anabl. Bydd cyllid gwerth £15 miliwn yn cefnogi'r ddarpariaeth iechyd meddwl, yn enwedig ar gyfer pobol ifanc drwy'r agwedd ysgol gyfan, gan ddiwallu eu hawliau am ofal iechyd o ansawdd da o dan Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru o ddata gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn dangos bod lles meddyliol ar y cyfan yr un peth ar gyfer bechgyn a merched ym mlwyddyn 7 ond erbyn blwyddyn 10 mae lles meddyliol merched wedi gwaethygu'n fwy na lles meddyliol bechgyn.

33. Bydd £10m yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgarwch atal sylfaenol ac eilaidd, gan alluogi pobl i fyw bywyd iach am gyfnod hwy. Bydd y buddsoddiad yn cynorthwyo gwelliannau ym mherfformiad ein gwasanaeth iechyd ar adeg pan welir galw cynyddol a mwy o gymhlethdod o ran y triniaethau sydd ar gael.

34. O ran y naw nodwedd warchodedig, mae pedwar ohonynt yn arbennig o berthnasol i *Cymru Iachach* - oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, Beichiogrwydd a mamolaeth. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer fawr o sefydliadau'r sector gwirfoddol wedi dod i'r amlwg sy'n cynrychioli buddiannau pobl yr effeithir arnynt gan gyflyrau iechyd penodol. Gydag amser, crëwyd nifer o gyrff sylfaenol hefyd er mwyn hyrwyddo hawliau defnyddwyr y gwasanaeth. Mae mewnbwn gan randdeiliaid wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar rai o feysydd y cynllun ac o ganlyniad maent wedi llywio penderfyniadau o ran y gyllideb er mwyn cyflenwi'r cynllun.

35. Yn ogystal, rydym yn adfer y cyllid ar gyfer Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan i lefel 2018-19. Bydd hyn yn caniatáu i'r rhaglen barhau i addysgu plant am gamddefnyddio sylweddau a materion yn ymwneud â diogelwch personol yn ystod pob cyfnod allweddol o'r cwricwlwm, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru. Mae hon yn rhaglen ataliol sy'n canolbwyntio ar

ymyrraeth gynnar gyda phlant a phobl ifanc, ac mae'n cyfeirio elfen benodol o gyllid at dargedu'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd wedi ymddieithrio. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 33 CCUHP er mwyn diogelu plant rhag cyffuriau peryglus.

36. Er mwyn cefnogi cyllid refeniw rydym hefyd yn dyrannu cyllid cyfalaf. Rydym yn darparu cyfalaf ychwanegol gwerth £40 miliwn dros ddwy flynedd ar gyfer Rhaglen Iechyd Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglen i ddarparu fflyd ambiwlansys yn lle'r fflyd bresennol er mwyn darparu cerbydau mwy modern, i gynnig y gofal gorau posibl mewn argyfwng. Bydd y cerbydau newydd yn fwy effeithlon o ran tanwydd, yn cyrraedd y safonau allyriadau Euro 6 diweddaraf a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae gan wasanaethau cyhoeddus, er mai am 1% o allyriadau carbon Cymru y maent yn gyfrifol, rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o leihau allyriadau a gwella ansawdd yr aer.

37. Bydd cyllid cyfalaf ychwanegol gwerth £21m yn 2019-20 yn cefnogi ystod o flaenoriaethau clinigol, gan gynnwys Canolfan Ganser newydd Felindre, yng Nghaerdydd, a fydd yn darparu triniaeth o ansawdd uchel ar gyfer clefyd sy'n cael effaith ar gymaint o fywydau. Yn hanesyddol, mae'r nifer sy'n goroesi canser yng Nghymru wedi bod yn is na'r nifer yn y mwyafrif o wledydd Ewropeaidd eraill, gyda'r cyfraddau goroesi pum mlynedd, tua 4 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd Ewropeaidd. Rydym yn buddsoddi mewn gwasanaethau newyddenedigol ar draws nifer o safleoedd allweddol yng Nghymru er mwyn lleihau nifer y mamau a'r babanod sy'n cael eu trosglwyddo trwy ddarparu amgylcheddau arbenigol ac sy'n cydymffurfio gyda'r gofynion o ran lle, er mwyn sicrhau bod y gofal ar gyfer babanod yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar famau a babanod, ac yn eu galluogi i gael eu trin yn agosach i'w cartrefi a'u teuluoedd.

38. Caiff £4.5m ei neilltuo yn 2020-21 er mwyn parhau gyda'r buddsoddiad a gynlluniwyd gennym yn yr ystâd gofal sylfaenol - rhan annatod o wasanaeth iechyd a llesiant effeithiol. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl hynny sy'n ei chael hi'n anos teithio i ganolfannau gofal eilaidd, gan gynnwys yr henoed, y rhai sydd â phlant ifanc a'r anabl.

39. Bydd cyllid trafodion ariannol gwerth £8 miliwn ar gael dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn helpu i gynorthwyo datblygiad canolfannau arloesi iechyd er mwyn canolbwyntio ar atal, trin a rheoli cyflyrau cronig hirdymor. Y nod yw cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu triniaethau mwy effeithiol, galluogi amseroedd adfer cyflymach pan fo ail bwl o salwch yn digwydd a chefnogi ansawdd bywyd gwell i'r rhai sy'n byw gyda chyflwr cronig. Mae'r bwlch yn y cyfraddau cyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n 16 oed a throsodd rhwng y rhai sydd â chyflwr iechyd hirdymor a'r rhai sydd heb gyflwr o'r fath yn parhau yn 15.9 o bwyntiau canran.

### *Llywodraeth Leol*

40. Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n effaith ar fywydau pobl o ddydd i ddydd.

41. I gydnabod y galwadau y mae poblogaeth sy'n tyfu ac sy'n heneiddio yn eu rhoi ar ein darpariaeth gofal cymdeithasol, rydym yn darparu cyllid ychwanegol gwerth £20m er mwyn cynorthwyo gofal cymdeithasol trwy gyfrwng y grant cymorth refeniw i lywodraeth leol. Mae hyn ar ben y £30m ar gyfer gofal iechyd sy'n cael ei gyllido drwy'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn rhoi budd i bobl hŷn yn bennaf, ond bydd yn hefyd yn helpu'r rhai y mae angen iddynt gael gofal ychwanegol am gyfnod byr a'r rhai y mae angen iddynt gael help trwy gydol eu bywyd i fyw bywyd annibynnol oherwydd anghenion iechyd corfforol neu feddyliol neu anawsterau dysgu. I bobl ifanc, mae hyn yn cefnogi Erthygl 23 CCUHP, sy'n ei gwneud yn ofynnol i blant sydd ag unrhyw anabledd gael gofal a chymorth ariannol fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. Yn ogystal, mae'n cefnogi Erthygl 20, sy'n nodi bod yn rhaid i blant nad yw eu teulu yn gallu gofalu amdanynt gael gofal cywir, gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.

42. Mae gan addysg rôl sylfaenol o ran cyflawniad personol, datblygiad cymunedol a chreu cyfoeth. Lefelau sgiliau a chymhwyster yw'r ffactor sy'n dylanwadu fwyaf ar siawns pobl o gael gwaith ac ar lefel eu hincwm. Mae ymchwil ryngwladol yn dangos ei bod yn bwysicach mynd i'r afael â phobl sy'n brin eu sgiliau neu brin iawn eu sgiliau na cheisio cynyddu sgiliau uwch a'r man cychwyn ar gyfer hyn yw'r ystafell ddosbarth. Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol. TGAU a Safon Uwch wedi gwella dros y degawd diwethaf rydym eisiau gweld hynny'n parhau. I gefnogi hyn, rydym wedi dyrannu £15m ychwanegol ar gyfer ysgolion drwy'r MEG Addysg. Mae ein hymrwymiad i godi safonau ysgolion a chefnogi pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial wedi'i nodi yn *Cenhadaeth ein Cenedl 2017-21*

43. Mae'r cyllid ychwanegol ar gyfer cyflogau athrawon sydd werth £14.8m yn 2019-20 (£13.726m drwy'r grant cynnal refeniw a £1.075 ar gyfer chweched dosbarth drwy'r MEG Addysg) yn golygu na fydd rhaid i awdurdodau lleol wneud arbedion effeithlonrwydd na lleihau nifer yr athrawon er mwyn talu costau'r codiad cyflog.

44. Yn ogystal, rydym yn adfer y cyllid i'r lefelau blaenorol ar gyfer chweched dosbarth ysgolion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc ac mae'n cefnogi Erthygl 28 CCUHP sy'n nodi bod gan blant yr hawl i gael addysg. Mae codi cyrhaeddiad addysgol a sgiliau ar bob lefel yn hollbwysig er mwyn torri cylch anfantais. Er bod cyrhaeddiad yn gwella'n gyson ar draws pob grŵp disgyblion, mae canlyniadau'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn waeth ym mhob cyfnod allweddol.

45. Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn angenrheidiol er mwyn dod â phobl, cymunedau, busnesau a gwasanaethau at ei gilydd. Er mwyn cynnal rhwydwaith y ffyrdd lleol a'u hatal rhag gwaethygu, byddwn yn darparu swm cyfalaf ychwanegol o £60m dros gyfnod o dair blynedd (£20m yr un yn 2018-19, 2019-20, a 2020-21) er mwyn cynorthwyo rhaglen gan lywodraeth leol i adnewyddu'r ffyrdd. Yn ogystal, byddwn yn buddsoddi swm cyfalaf ychwanegol o £78m dros dair blynedd (2018-19 i 2020-21) er mwyn cefnogi'r gronfa trafnidiaeth lleol. Mae'r gronfa hon yn galluogi buddsoddiad wedi'i

dargedu er mwyn gwella llif y traffig mewn mannau cyfyng a llwybrau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynorthwyo cynaladwyedd amgylcheddol drwy wneud y gorau o'r defnydd a wneir o injans ac annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

*Helpu pobl agored i niwed*

46. Cyhoeddodd Plant yng Nghymru ganlyniadau eu harolwg Plant a Theuluoedd 2018 am dlodi yn gynharach eleni. Tynnwyd sylw at effaith negyddol cyflogau isel a chostau byw cynyddol sy'n gorfodi teuluoedd i wneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i wario eu harian. Dau faes penodol fu'n destun sylwadau oedd costau ychwanegol addysg a thlodi bwyd. Tynnwyd sylw at y materion hyn hefyd yn ymatebion y bobl ifanc i'r arolwg.

47. Yn unol â'r cynigion yn ein hymgynghoriad ar feini prawf newydd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar ôl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, byddwn yn sicrhau bod £7m arall ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2019-20 drwy'r Grant Cynnal Refeniw, yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf. Mae darparu pryd iach am ddim yn cefnogi Erthyglau 6 a 24 CCUHP, sef yr hawl i blant ddatblygu a manteisio ar fwyd maethlon. Mae'n cefnogi Erthygl 26 hefyd, y dylai llywodraethau ddarparu arian ychwanegol i deuluoedd plant sydd mewn angen. Disgwyliwn i blant a rhieni y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig penodol (anableddau, y rhai nad ydynt mewn grŵp ethnig gwyn, a Mwslimiaid, Siciaid a'r rhai heb grefydd) gael mwy o fudd o'n meini prawf arfaethedig na grwpiau eraill.

48. Yn ogystal, byddwn yn darparu £2m ychwanegol yn 2019-20 er mwyn bodloni'r galw cynyddol ar y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r gronfa hon yn cynnal dau grant nad oes yn rhaid eu talu'n ôl, i helpu pobl ar incwm isel â chostau hanfodol yn dilyn argyfwng neu drychineb megis llifogydd neu dân neu helpu rhywun i fyw bywyd annibynnol.

49. Yn dilyn adolygiad o effaith y grant gwisg ysgol, rydym wedi darparu £3.554m o gyllid i gynnal ac ehangu cronfa mynediad y Grant Datblygu Disgyblion. Bydd yn targedu dysgwyr difreintiedig ac yn helpu teuluoedd i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r ysgol o ddydd i ddydd. Yn ogystal â chael ei defnyddio ar gyfer gwisg ysgol, gellir defnyddio'r gronfa hon i dalu am offer, dillad chwaraeon ac offer ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

50. Dangosodd yr astudiaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod[18] bod cysylltiadau cryf rhwng cymryd rhag chwaraeon yn ystod plentyndod a llai o salwch meddwl yn ystod oes rhywun. Mae plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gymwys i gael y grant hwn. Mae'n cefnogi Erthyglau 26, 27 a 30 CCUHP, gan ddarparu cyllid i deuluoedd fel na chaiff plant eu diffinio gan yr hyn y maent yn ei wisgo neu'r cyfarpar sydd ganddynt, ac na fyddant yn cael eu hatal rhag manteisio ar ystod eang o weithgareddau yn sgil rhwystrau ariannol rhag cymryd rhan.

[18] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88520

*Blaenoriaethau gwario eraill*

51. Gallwn ddadwneud y gostyngiadau a wnaethpwyd yng nghyllideb 2018-19 i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau sy'n cael eu harolygu gan y cyrff hyn, yn enwedig yr henoed, y rhai agored i niwed mewn cymdeithas a phobl ifanc.

52. Yn ogystal, rydym yn adfer cyllid i awdurdodau parciau cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni rôl bwysig wrth gynnal a datblygu ein cynaladwyedd amgylcheddol.

53. Mae hyrwyddo teithio llesol yn dda i iechyd unigolion, yn ogystal â'r amgylchedd. Bydd y cynlluniau teithio llesol yn cyfrannu at y gwaith o gysylltu cymunedau a gwella mynediad trwy gyfrwng teithio llesol at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol. Rhaid datblygu gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus wrth ochr cynlluniau ffyrdd, gan alluogi'r amrywiaeth ehangaf o bobl, yn arbennig y rhai ar incwm is nad ydynt o bosib yn berchen ar gerbyd preifat, i fanteisio arnynt. Bydd £60m o gyfalaf ychwanegol yn cael ei fuddsoddi dros dair blynedd (2018-19 i 2020-21) er mwyn cynorthwyo ein Cronfa Teithio Llesol bwrpasol i roi hwb i ddarpariaeth cynlluniau ar draws Cymru. Mae hyn yn cefnogi cynaladwyedd amgylcheddol trwy gyfrwng datgarboneiddio, yn ogystal â chynaladwyedd cymdeithasol a diwylliannol trwy gyfrwng cysylltedd.

*Y Blynyddoedd Cynnar*

54. Ein nod yw cynorthwyo pobl ifanc i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial, i feithrin uchelgais, annog dysgu trwy gydol eu hoes a sicrhau bod pawb yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Bydd profiadau unigolion yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn chwarae rhan bwysig wrth ffurfio eu dyfodol, ac yn hanfodol i'w siawns o fynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a boddhaus. Mae plant yn agored i ddylanwadau cynnar ar eu llwyddiant addysgol. Mae cysylltiad rhwng amddifadedd cynnar a'r gwahaniaeth mewn lefelau cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i'w cael. Yn ôl data diweddaraf 2017[19] mae 14.2 pwynt canran o wahaniaeth rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y dangosydd cyfnod sylfaen. Yn ôl data cyfnod allweddol 4, mae'r bwlch yn y dangosydd pynciau craidd wedi ehangu i 15.1 pwynt canran, a'r gwahaniaeth yn fwy ar gyfer bechgyn na merched. Rydym am gau'r bwlch hwnnw o'r cychwyn.

55. Addysg yw un o'r buddsoddiadau pwysicaf y gallwn eu gwneud i wella cyfleoedd bywyd plant, yn enwedig y rhai o gymunedau difreintiedig a'r rhai y

[19] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/results-by-freeschoolmealentitlement-gender
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Key-Stage-2/results-by-freeschoolmealentitlement-gender

mae ganddynt nodweddion gwarchodedig. Mae'n bwysig hefyd wrth i ni gyflawni ein rhwymedigaeth dan Erthygl 28 CCUHP, sef bod gan blant yr hawl i gael addysg.

56. Mae'r data diweddaraf yn parhau i ddangos rhai gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng grwpiau ethnig, gyda chyfran uwch o blant Asiaidd, Tsieineaidd neu o ethnigrwydd cymysg yn cyrraedd lefelau disgwyliedig na'r rhai o gefndir Gwyn. Mae cyrhaeddiad yn parhau i fod yn isel ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac mae lefelau is hefyd wedi'u cofnodi ar gyfer grwpiau o gefndir Du neu Ddu Prydeinig, Gwyn a Du Caribïaidd ac Affricanaidd. Rydym yn dyrannu £8.7m o gyllid i gefnogi dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr Sipsi, Roma a Theithwyr er mwyn cynnal yr un lefel o gyllid â 2018-19. Mae'r grant hwn wedi'i dargedu at ddisgyblion o grwpiau ethnig penodol yn ystod eu haddysg, gan roi cymorth ychwanegol er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial. Mae'n adlewyrchu erthygl 29 CCUHP, datblygu eu talentau yn llawn.

57. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai darparu'r cymorth cywir i bob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yw'r ffordd orau o dorri cylch tlodi, a chodi uchelgais a chyrhaeddiad pawb. Yn ôl astudiaethau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod[20], mae pobl sydd wedi dioddef pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o yfed yn beryglus, smygu, bod mewn sefyllfa dreisgar a chael triniaeth am salwch meddwl ar ôl tyfu'n oedolyn. Rydym yn adfer y cyllid ar gyfer y grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth i lefelau 2018-19 - mae'r grant hwn yn ariannu rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 31 CCUHP, gan gynnig cyfleoedd i deuluoedd chwarae, ymlacio ac ymuno mewn amrediad o weithgareddau. Mae'r rhaglenni hyn yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd mewn ardaloedd lle y mae incymau yn is, gan gynorthwyo plant iau yn arbennig.

*Tai*

58. Mae tai yn gwneud cyfraniad sylweddol i ansawdd bywyd a lles economaidd unigolion a theuluoedd, gan gyfrannu at drechu tlodi. Mae cartref diogel a fforddiadwy yn benderfynydd pwysig ar gyfer iechyd, ac mae tai gwael neu anniogel yn gallu achosi salwch corfforol, er enghraifft, o ganlyniad i leithder neu amodau oer, ac mae'n gallu bod yn ffynhonnell straen a gofid.

59. Mae'r Grant Tai Cymdeithasol yn darparu cyllid er mwyn cynorthwyo'r gwaith o adeiladu neu adnewyddu cartrefi fforddiadwy i'w rhentu, ar gyfer cyfran ecwiti (Cymorth Prynu), cynlluniau i bobl hŷn gan gynnwys Gofal Ychwanegol ac i bobl y mae angen iddynt gael cymorth er mwyn byw bywyd annibynnol. Rydym yn buddsoddi £35m o gyfalaf ychwanegol er mwyn cynnal momentwm y gwaith o sicrhau 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y llywodraeth hon.

[20] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518

60. Ym mis Hydref 2017, amcangyfrifwyd bod 345 o bobl yn cysgu allan ar draws Cymru. Mae dynion yn fwy tebygol o fod yn ddigartref na menywod, ond mae'r rhai sy'n troi at yr awdurdodau lleol am gymorth gyda thai, ac sy'n llwyddo i osgoi digartrefedd, yn fwy tebygol o fod yn fenywod. Roedd bron i hanner yr aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd â phlant dibynnol. Wrth osod cynlluniau llynedd, darparwyd £20m ychwanegol yn 2019-20 i fynd i'r afael â digartrefedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl, sy'n gyfran sylweddol o'r bobl ddigartref. O'r swm hwn, bydd £10m yn targedu digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn benodol, gan gefnogi Erthygl 19 CCUHP sy'n dweud y dylid gofalu am blant mewn ffordd gywir a'u diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod.

*Gofal Cymdeithasol*

61. Nodir effaith cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol trwy lywodraeth leol a thrwy ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ym mharagraffau 25 i 39 uchod.

*Iechyd Meddwl*

62. Mae salwch meddwl yn cael effaith sylweddol ar ddisgwyliad oes ac mae'n un o achosion allweddol anghydraddoldebau iechyd. Mae menywod a merched yn fwy tebygol o ddioddef cyflyrau iechyd meddwl, ond mae'r cyfraddau hunanladdiad ar gyfer dynion yn gyson uwch na rhai menywod ar draws pob grŵp oedran. Gwelir yr iechyd meddwl a'r lles gwaethaf yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd unrhyw gyllid ychwanegol, felly, yn cael effaith anghymesur o gadarnhaol ar y grwpiau hyn.

63. Byddwn yn sicrhau bod £2.5m pellach ar gael yn benodol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc er mwyn gwella'u lles a'u hiechyd meddwl drwy waith ieuenctid. Mae'r CCUHP yn rhan annatod o egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid, ac mae'r buddsoddiad hwn yn ategu nifer o Erthyglau'r CCUHP, gan gynnwys Erthygl 24 sy'n dweud y dylai plant gael gofal iechyd o ansawdd da.

64. Ar ben hynny, bydd dyraniad o £15m yn cael ei roi o gyllid *Cymru Iachach* er mwyn cefnogi rhaglenni ar gyfer y grwpiau mwyaf agored i niwed, fel pobl ag anableddau dysgu neu wasanaethau iechyd meddwl.

65. Mae'r ardal lle'r ydych yn byw yn bwysig ar gyfer eich iechyd a'ch lles - gall mynediad at ofod gwyrdd a chydlyniant cymunedol effeithio ar les unigolyn. Bydd y buddsoddiad o £7m dros ddwy flynedd ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd - fel y gwelir yng nghynllun *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* - yn parhau i drawsnewid amgylchedd Cymoedd y De, fel sydd wedi bod yn digwydd dros y 30 mlynedd ddiwethaf. Ceir digon o dystiolaeth bod ymarfer corff yn bwysig ar gyfer iechyd meddwl, a bydd y buddsoddiad yn cynnwys hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, a'r ffordd y gall Cymoedd y De helpu i hybu iechyd a llesiant meddyliol. Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddarparu cynlluniau peilot

presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd, a fydd yn helpu i wella iechyd meddwl pobl.

*Sgiliau a Chyflogadwyedd*

66. Mae cyflogaeth yn bwysig ar gyfer sawl agwedd ar lesiant, nid yn unig fel ffynhonnell incwm ond hefyd o ran hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol ac iechyd meddyliol a chorfforol. Mae'r cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru yn is ar gyfer menywod na dynion, ac mae'r cyfraddau anweithgarwch economaidd hefyd yn uwch ar gyfer menywod. Fodd bynnag, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cau yn gynt yng Nghymru na'r DU yn gyfan. Ar gyfer plant, mae cysylltiad cryf rhwng y tebygrwydd o fod mewn tlodi incwm cymharol a statws cyflogaeth oedolion ar yr aelwyd.

67. Un rhan o Gymru lle y gwelir sialensiau parhaus o ran lefelau cyflogaeth yn dilyn dad-ddiwydiannu yw Cymoedd De Cymru. Mae cynllun y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De, *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*[21], yn datblygu mentrau blaenorol er mwyn rhoi sylw i achos sylfaenol cyfraddau cyflogaeth isel, a'r problemau dilynol y gall hyn eu dwyn i uchelgais pobl a chymunedau. Dyrannwyd £25m o gyllid cyfalaf i ddatblygu saith hyb strategol ar draws Cymoedd y De i greu swyddi a chyfleoedd buddsoddi. Mae'r rhain yn ategu'r manteision y mae cyflogaeth yn eu cynnig, o effeithiau cadarnhaol ar iechyd meddyliol a chorfforol, i gynaladwyedd cymdeithasol ac economaidd ar gyfer ardal.

68. Mae gwneud yn siŵr bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen i sicrhau a chadw swyddi yn allweddol er mwyn lleihau lefelau tlodi. Mae rhai pobl ifanc, gan gynnwys y rhai o gymunedau difreintiedig a grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn fwy tebygol o brofi tlodi os nad ydynt mewn swyddi, addysg na hyfforddiant (NEET). Rydym wedi ymrwymo i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac yn parhau gyda'n cynlluniau i fuddsoddi £115m yn 2019-20.

*Datgarboneiddio*

69. Mae'r strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru, *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*[22], yn gosod ein gweledigaeth ar gyfer sicrhau trefniadau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn y wlad ac ar draws y wlad. Rydym yn dymuno defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon, cael dim gwastraff y gellir ei osgoi, sicrhau cymaint o werth ag y bo modd o'n hadnoddau a lleihau'r effeithiau amgylcheddol negyddol sy'n gysylltiedig â'u cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu gymaint ag y bo modd. Yn unol â'r strategaeth hon, rydym yn neilltuo £1.5m o gyllid refeniw ychwanegol i Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a £2.8m i'r rhaglen wastraff er mwyn adfer y cyllid i lefelau 2018-19. Yn ogystal, rydym yn darparu £25m pellach ar ffurf cyfalaf i'n rhaglen newid gydweithredol a'n rhaglen caffael gwastraff dros y ddwy flynedd

[21] https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?skip=1&lang=cy
[22] https://gov.wales/docs/desh/publications/100621wastetowardszerocy.pdf

nesaf. Mae troseddau gwastraff yn cael effeithiau difrifol am yr amgylchedd naturiol ac rydym yn darparu £296,000 ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

70. Roedd yr adroddiad gan bedwar pwyllgor dethol Senedd y DU ynghylch gwella ansawdd aer yn tynnu sylw at yr effaith ar iechyd. Er bod aer o ansawdd gwael yn niweidiol i bawb, amlygodd y dystiolaeth bod plant a phobl hŷn yn arbennig o agored i niwed, ynghyd â phobl sydd â chyflyrau iechyd yn barod. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod modd priodoli tua 1,600 marwolaeth y flwyddyn i ronynnau mân a thua 1,100 i nitrogen deuocsid. Mae ansawdd aer Cymru wedi gwella'n sylweddol dros y 40 mlynedd ddiwethaf; ond mae llygredd o ffynonellau eraill fel trafnidiaeth yn fwy o bryder. Ceir y crynodiadau uchaf o allyriadau nitrogen deuocsid mewn ardaloedd trefol mawr, a ger ffyrdd prysur - mae tua 40 o ardaloedd penodol yng Nghymru sy'n torri amcanion ansawdd aer. Rydym yn darparu swm ychwanegol o £9.29m o gyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud gwelliannau i ansawdd yr aer.

71. Mae adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol* yn cyfeirio at y twf mewn technolegau digidol, megis cyfryngau cymdeithasol, a photensial modelau darparu gwasanaeth a rhyngweithio newydd gyda chymunedau ac o fewn cymunedau. Byddwn yn buddsoddi yng ngham nesaf band eang cyflym trwy neilltuo £22.5m dros ddwy flynedd. Bydd hyn yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol gan helpu i leihau allyriadau drwy ganiatáu i bobl gyfathrebu o bell, helpu busnesau i dyfu a galluogi pobl i fanteisio ar wybodaeth a gwasanaethau. Bydd yn cefnogi twf economaidd yn arbennig ar gyfer busnesau mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod grwpiau o bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar TG yn y cyfamser neu nad ydynt yn meddu ar yr wybodaeth angenrheidiol i fanteisio arno i'r eithaf, y gallent gael eu heithrio. Mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd ymhlith pobl hŷn, y rhai ar incymau isel neu'r rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith.

72. Gwelwyd gostyngiadau i'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ers y 1990au, ond mae ffordd bell i fynd i gyrraedd ein targedau ar gyfer 2050. Y cyflenwad ynni, busnesau a diwydiant sy'n parhau i fod yn gyfrifol am tua dwy ran o dair o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn buddsoddi £25m o gyfalaf dros dair blynedd (2018-19 i 2020-21) i raglen y Cymoedd Technoleg yng Nghymoedd y De, sy'n canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel.

## Effaith trethi

73. Mae darparu sefydlogrwydd a sicrwydd yn nod allweddol wrth weithredu'r trethi Cymreig newydd, gan gynnwys cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru o fis Ebrill 2019. Nid oes gofyn i Lywodraeth Cymru bennu cyfraddau trethi llwyr-ddatganoledig bob blwyddyn, a'n bwriad ni yw cadw sefydlogrwydd o ran y cyfraddau hyn gymaint ag y bo modd.

74. Roedd adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar effaith gronnol trethi a diwygiadau lles yn adrodd ar dreth incwm, cyfraniadau yswiriant gwladol a threthi anuniongyrchol y mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gyfrifol

amdanynt hyd yma. Dangosodd enillion o newidiadau i dreth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol (yn bennaf yn sgil y cynnydd mewn termau real mewn lwfans personol di-dreth ers 2010), ond colledion o newidiadau i drethi anuniongyrchol (yn bennaf yn sgil y cynnydd mewn TAW i 20% yn 2011).

75. Un egwyddor allweddol yw y dylai trethi Cymreig godi refeniw er mwyn cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd mor deg ag y bo modd. Mae'r rhai sy'n cael y budd mwyaf gan wasanaethau cyhoeddus yn tueddu i fod yn bobl ar incymau is na'r lefel gyfartalog. Mae rhai grwpiau gwarchodedig yn fwy tebygol o berthyn i'r categori hwn ar gyfartaledd. Yn ogystal, caiff swm anghymesur ei wario ar bobl ifanc a phobl hŷn o ran gwasanaethau addysg ac iechyd.

76. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r system dreth er mwyn hyrwyddo tegwch a thwf economaidd ac er mwyn helpu i drechu tlodi. Caiff unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol ynghylch polisi treth eu datblygu o fewn Fframwaith Polisi Treth 2017 a gan ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnal asesiadau penodol o'r effaith ar aelwydydd ac ar unigolion yng Nghymru yn ôl yr angen.

77. Roedd maniffesto'r Blaid Lafur wedi gwneud ymrwymiad i beidio codi cyfraddau treth incwm yng Nghymru ac mae'r gyllideb ddrafft amlinellol yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn. Ein blaenoriaeth ni yw hyrwyddo proses drefnus o bontio i'r cyfraddau treth incwm Cymreig newydd, y bydd CThEM yn parhau i'w gweinyddu.

78. Mae'r cyfraddau treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir wedi cael eu llywio gan yr egwyddorion yn y Fframwaith Polisi Treth[23] ac fe'u gosodwyd gan ystyried nodweddion y farchnad eiddo yng Nghymru ac economi Cymru. Mae'r egwyddor y dylid codi treth mewn ffordd fwy graddol wrth wraidd y penderfyniad am y bandiau a'r cyfraddau newydd. Nid ydym wedi cynnig unrhyw newid i gyfraddau'r dreth trafodiadau tir yn y gyllideb hon, ac ni wnaeth yr asesiadau effaith a gwblhawyd ar gyfer y dreth hon nodi unrhyw effeithiau niweidiol.

79. Mae'r dull o osod cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi wedi cael ei lywio gan yr egwyddorion yn y Fframwaith Polisi Treth a'r amcan i leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, fel sy'n ofynnol yn adran 91 Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Yn ogystal, mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach, gan nodi dymuniad busnesau i fedru cynllunio ar gyfer y dyfodol a gwneud buddsoddiadau, wedi bod yn ffactor allweddol wrth osod y cyfraddau. Hefyd defnyddiwyd yr egwyddor na ddylai fod llai o refeniw ar gael i ariannu gwasanaethau cyhoeddus.

80. Bydd y cyfraddau treth gwarediadau tirlenwi yn codi yn ôl cyfradd chwyddiant er mwyn sicrhau eu bod yn debyg i gyfraddau treth tirlenwi'r DU, er mwyn diogelu rhag twristiaeth gwastraff a hyrwyddo gweithgarwch cyfrifol er mwyn

[23] http://gov.wales/docs/caecd/publications/170612-framework-cy.pdf

gwaredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi. Gosodir y rheoliadau sy'n ymwneud â'r cyfraddau newydd yn ystod yr hydref 2018.

81. Byddwn yn defnyddio treth gwarediadau tirlenwi er mwyn newid cydbwysedd y cymhellion er mwyn annog dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a mwy o weithgarwch atal, ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer gwastraff. Bydd cyflwyno treth gwarediadau tirlenwi yn cynorthwyo polisïau gwastraff Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei tharged uchelgeisiol o sicrhau na chaiff unrhyw wastraff ei anfon i safleoedd tirlenwi erbyn 2050. Bydd hyn yn cynorthwyo i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Datblygiadau Parhaus

82. Adolygwyd Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) yng ngoleuni proses dau gam newydd y gyllideb. Cynhaliwyd dau gyfarfod eleni, y cyntaf yn gynnar yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb a'r ail yn ystod cyfres y cyfarfodydd cyllideb dwyochrog a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gydag Ysgrifenyddion Cabinet portffolio. Bydd BAGE yn parhau i gynnig persbectif allanol er mwyn sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried a'u cynorthwyo gan dystiolaeth er mwyn cyfrannu at benderfyniadau. Yn ystod y flwyddyn, mae wedi herio'r cynllun cyflogadwyedd a sgiliau ac wedi darparu adborth adeiladol am ein dull integredig o asesu effaith, yr adolygiad cyflym o gydraddoldeb rhwng y rhywiau a'n dull o ymgysylltu ynghylch y gyllideb a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r darnau hyn o waith.

83. Lansiwyd adolygiad cyflym o gydraddoldeb rhwng y rhywiau o fewn Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill er mwyn ystyried sut y gallwn roi ystyriaeth sylweddol i'r rhywiau wrth i ni wneud penderfyniadau. Ar ôl cyhoeddi cam un yr adroddiad, mae cam dau yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried camau gweithredu ymarferol er mwyn sefydlu cynllun i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru yn y tymor canolig a'r hirdymor, gydag amcanion clir a thargedau mesuradwy ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd Chwarae Teg yn cyflwyno'u hadroddiad ar Gam Dau ar ôl ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2019.

84. Lansiwyd fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith integredig yn Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018; fe'i ddatblygwyd yn dilyn yr argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, *Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government*.

85. Mae'r fframwaith yn cynnig dibenion cliriach ac amlycach ar gyfer asesiadau effaith, gan sicrhau bod asesiadau effaith cymesur yn rhan annatod o weithgarwch llunio polisi, gan osgoi gweithdrefnau gormodol a chynorthwyo ein hymdrechion hefyd i gydweithio ar draws portffolios.

86. Mae'r dull yn lleihau cymhlethdod a dyblygu ac mae'n integreiddio gyda chyfeiriad sylweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ysgogi ystyriaeth ynghylch defnyddio'r pum ffordd o weithio; sut y mae'r polisi yn cyd-

fynd â *Ffyniant i Bawb* a'r amcanion llesiant; a'r effeithiau ar les cymdeithasol, lles diwylliannol, lles economaidd a lles amgylcheddol.

87. Cynhelir asesiad sylweddol o'r broses newydd yn y flwyddyn newydd er mwyn cyfrannu at ddatblygiadau yn y dyfodol.

## Atodiad D: Gwybodaeth Dechnegol

### Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Mae Llywodraeth y DU wedi adolygu ei chanllawiau ar gyllidebu cyfunol yn ddiweddar, gan ei gwneud yn ofynnol i drafodiadau ariannol gael eu trin ar sail net ar gyfer adrannau'r DU. Gan ddilyn y newid hwn, rhaid i adrannau'r DU ragamcanu lefel yr incwm a ddisgwylir oddi wrth fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a chaiff eu cyllideb adrannol ei chwtogi'n unol â hynny. Yr eithriad i'r rheol hon yw tai, lle mae'n anodd rhagamcanu'r proffil incwm gan ei fod yn dibynnu ar bryniannau tai yn hytrach nag ar ad-dalu benthyciad dan gontract.

Mewn adrannau lle ceir maes datganoledig cymaradwy, byddai hyn yn arwain at gyfran o'r gostyngiad ar sail Barnett.

Fodd bynnag, ni phennwyd eto sut y bydd y polisi'n gymwys i'r gweinyddiaethau datganoledig ac rydym yn parhau i gynllunio ar y sail bresennol o ad-dalu'r buddsoddiad i Drysorlys EM. Y trefniant ar hyn o bryd yw y bydd yr ad-daliad yn 80% o gyfanswm y cyllid trafodiadau ariannol a ddyrannwyd er mwyn adlewyrchu'r angen am beth hyblygrwydd ar lefel gweinyddiaethau datganoledig.

Gan fod llawer o'r cynlluniau a ariennir drwy gyfalaf trafodiadau ariannol yng Nghymru yn wahanol i'r rhai a ddatblygir gan Lywodraeth y DU, rydym yn parhau i weithio gyda Thrysorlys EM i sicrhau nad yw'r newidiadau i'r trefniadau cyllidebol yn cosbi Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos lefel y cyllid trafodiadau ariannol sydd wedi'i ddyrannu i bob MEG ar hyn o bryd, ynghyd â phroffil yr ad-daliadau.

**Dyraniadau Trafodiadau Ariannol a'r ad-daliadau 80% rhagamcanol a adroddwyd i Drysorlys EM ym mis Awst 2018**

| Cyfanswm y dyraniadau i MEGiau | 100% | Ad-daliadau 80% | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | | | |
| | Cyfanswm y dyraniadau | Hyd at a chan gynnwys 2018-19 | Yn dod yn ddyledus o fewn 1 flwyddyn | Yn dod yn ddyledus o fewn 2 i 5 mlynedd | Yn dod yn ddyledus ar ôl 5 mlynedd |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1.0 | 0 | 0 | 0.1 | 0.7 |
| Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus | 547.0 | 0.1 | 0.7 | 8.8 | 428.0 |
| Yr Economi a | 331.7 | 1.3 | 2.1 | 70.8 | 191.2 |

| Cyfanswm y dyraniadau i MEGiau | 100% £m | Ad-daliadau 80% £m | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y dyraniadau | Hyd at a chan gynnwys 2018-19 | Yn dod yn ddyledus o fewn 1 flwyddyn | Yn dod yn ddyledus o fewn 2 i 5 mlynedd | Yn dod yn ddyledus ar ôl 5 mlynedd |
| Thrafnidiaeth | | | | | |
| Addysg | 4.5 | 0.4 | 0,2 | 0.6 | 2.4 |
| Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig | 16.2 | 0 | 0 | 0 | 12.9 |

## Cynlluniau cyllid arloesol

Mewn cyllidebau blaenorol fe wnaethom nodi'r amrywiaeth o gynlluniau cyllid arloesol sydd wedi'u datblygu. 2019-20 yw trydedd flwyddyn y rhaglen Grant Cyllid Tai 2 a fydd, yn ogystal â darparu cyllid i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol i roi eu cynigion tai ar waith. Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i roi hwb buddsoddi o £250m i'r sector tai, gan helpu i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o dai newydd fforddiadwy erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn. Mae'r cynllun arloesol hwn yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen Grant Cyllid Tai gyntaf, pan gafwyd £125m o fuddsoddiad yn y sector uwchlaw'r cyllid cyfalaf traddodiadol.

Mae cyllid heb ei neilltuo yn dal i gael ei ddosbarthu drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ar gyfer dwy fenter fenthyca llywodraeth leol – ar gyfer priffyrdd ac ysgolion – yn ogystal â cham cyntaf y Grant Cyllid Tai.

Yn 2019-20, bydd y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol newydd yn golygu dechrau buddsoddi yn asedau'r awdurdodau lleol i amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Bydd y Rhaglen yn rhoi £150m o fuddsoddiad ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd i reoli'r risgiau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gymunedau arfordirol yng Nghymru yn sgil newid yn yr hinsawdd a chodiad yn lefel y môr. Ar hyn o bryd mae 26 o gynlluniau gan awdurdodau lleol yn rhan o'r rhaglen hon. Mae'r achosion busnes yn cael eu hadolygu ac mae 10 o'r cynlluniau wedi cael cyllid grant yn barod i weithio ar ddyluniadau manwl.

Mae cynlluniau cyllid arloesol yn rhoi hwb y mae gwir ei angen i gyllidebau cyfalaf, gan alluogi i oddeutu £870m o fuddsoddiad gael ei wneud yn gynharach nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'r goblygiadau cyllido ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan y Gyllideb ddrafft hon wedi'u nodi yn y tabl isod.

**Cynlluniau Cyllid Arloesol**

| Cynlluniau Gweithredol | Gwerth Cyfalaf a Amcangyfrifir (£m) | 2019-20 Goblygiadau o ran refeniw (£m) | Y goblygiadau refeniw uchaf (£m) |
|---|---|---|---|
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol: Gwella Priffyrdd | 170 | 12 | 12 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol: Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif – cyflymu Band A | 170 | 10 | 10 |
| Grant Cyllid Tai | 130 | 4 | 4 |
| Grant Cyllid Tai 2 | 250 | 9 | 9 |
| Rhaglen Rheoli Risgiau Llifogydd ac Arfordiroedd | 150 | 2.4 | 7.3 |
| **Cyfanswm** | **870** | **37.4** | **42.3** |

Mae tri chynllun yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a gafodd ei lansio yn 2017, sef cwblhau'r gwaith o ddeuoli'r A465; datblygu canolfan ganser newydd arbenigol yn Felindre a chynorthwyo rhan nesaf (Band B) rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif. Bydd y cynlluniau hyn yn golygu buddsoddiad ychwanegol o fwy na £1bn yng Nghymru, gan sicrhau bod modd sicrhau cyfleusterau hanfodol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gynt nag a fyddai wedi bod yn bosibl drwy gyllidebau cyfalaf.

Mae'r gwaith datblygu ar gyfer yr holl gynlluniau yn parhau i fynd rhagddo. Ym mis Gorffennaf, cynllun deuoli'r A465 oedd y cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol cyntaf i gael ei dendro i'r farchnad. Ni fydd y taliadau ar gyfer cynlluniau o dan y rhaglen hon yn dechrau hyd nes bydd yr asedau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Rhagwelir y bydd yr A46 yn agored o 2022-23. Mae disgwyl i Ganolfan Ganser Felindre a'r set gyntaf o ysgolion yn rhaglen Band B agor wedi hynny.

## Atodiad E: Geirfa

| | |
|---|---|
| ***Cam Gweithredu*** | *O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.* |
| ***Cwmpasoedd*** | *Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae disgrifiadau o'r cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng nghynnig y Gyllideb flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.* |
| ***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*** | *Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac adroddiad rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.* |
| ***Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)*** | *O fewn pob Cam Gweithredu caiff cyllidebau eu dyrannu i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn BEL. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel BEL ar gael yn: http://gov.wales/funding/budget/?lang=cy* |
| ***Cynnig y Gyllideb*** | *Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.* |
| ***Cyfalaf*** | *Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae cyfran o'r DEL Cyfalaf yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.* |
| ***Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*** | *Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail amlflwyddyn mewn Adolygiadau o Wariant. Mae gan gyllidebau DEL ac AME Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf ac adnoddau.* |
| ***Dibrisiant*** | *Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.* |

| | |
|---|---|
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | *Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y costau uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.* |
| **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** | *Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r setliad DEL cyfalaf, a dim ond at ddibenion benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partïon y gellir eu defnyddio. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r cyllid i Drysorlys Ei Mawrhydi.* |
| **DEL Adnoddau Ariannol** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Ariannol sy'n dangos y rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Caiff y gwariant ei gofnodi ar sail croniadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.* |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | *Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir chwe Phrif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus; yr Economi a Thrafnidiaeth; Addysg; Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.* |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** *(arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')* | *Y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol sy'n dangos gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas ag amhariad benthyciadau myfyrwyr a dibrisiant. Mae'r DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.* |
| **Derbyniadau** | *Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.* |
| **Cyllidebu adnoddau** | *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.* |

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** *(arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw'* | *Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.* |
| ***Adolygiad o Wariant*** | *Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dyma'r dull a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.* |
| ***Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)*** | *Cyfanswm rheoli gan Drysorlys EM yw hwn ac mae'n cynnwys y Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.* |
| **Cronfa Wrth Gefn Cymru** | *Mae Cronfa wrth Gefn Cymru, sydd ar waith ers mis Ebrill 2018, yn arf newydd a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb dros gyfnod o flynyddoedd. Bydd modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa i gynilo'r refeniw a fydd yn weddill o'r trethi datganoledig a'r tanwariant ar y Terfyn Gwariant Adrannol, i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Bydd modd i'r Gronfa gadw hyd at £350m, gyda chyfyngiad defnyddio blynyddol o £125m ar gyfer adnoddau a £50m ar gyfer cyfalaf. Ni fydd cyfyngiad blynyddol ar yr arian a delir i mewn i'r Gronfa* |
| ***Cronfa Gyfunol Cymru*** | *Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn unol â phleidlais Senedd y DU.* |
| ***CNLlC*** | *Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.* |